RHEOLIADAU ACADEMAIDD 2021/2022

Medi 2021

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Ffynonellau Rhagor o Wybodaeth 6

Llywodraethu Academaidd 9

Rheoliadau Rheoli Academaidd 9

Amrywio'r Trefniadau 17

Rheoliadau Derbyn 20

Dyfarniadau a Rhaglenni 26

Rheoliadau Dyfarniadau 26

Rheoliadau Rhaglennni a Addysgir 30

Rhaglenni Modiwlaidd 32

Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Modiwl a Addysgir 32

Rheoliadau ar gyfer Meistr Ymchwil (MRes) 51

Rheoliadau Modiwlau 54

Rhaglenni Anfodiwlaidd 56

Rheoliadau MBBCh 56

Rheoliadau BDS 64

Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Ôl-raddedig Anfodiwlaidd a Addysgir 70

Rhaglenni Ymchwil 77

Rheoliadau Gradd Ymchwil 77

Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir 85

Rheoliadau ar gyfer Doethuriaethau Uwch 89

Asesu 91

Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi 91

Rheoliadau Asesu Graddau Ymchwil 104

Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu â Myfyrwyr 114

Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr 120

Rheoliadau Cwynion, Apeliadau ac Adolygu Myfyrwyr 123

Cyflwyniad

O 1 Awst 2021 ymlaen, bydd y Rheoliadau Academaidd hyn a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu, rheoli a chyflwyno rhaglenni ac astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Diben y rheoliadau a'r polisïau cysylltiedig yw gwneud yn siŵr bod Prifysgol Caerdydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau yn effeithiol i'w holl fyfyrwyr yn deg ac yn effeithiol a gwneud yn siŵr bod safonau'r dyfarniadau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymhwyster rhyngwladol perthnasol.

Mae Rheoliadau Academaidd 2021/22 yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi ymrestru, neu ailymrestru, ers 1 Awst 2021. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt wedi ymrestru yn y flwyddyn academaidd hon eto, bydd Rheoliadau Academaidd 2020/21 yn berthnasol.

Mae'r rheoliadau wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio'r strwythur canlynol:

- *Llywodraethu Academaidd*
- *Tîm Derbyn Myfyrwyr*
- *Dyfarniadau a Rhaglenni*
- *Asesu*
- *Astudiaethau ac Ymgysylltiad Myfyrwyr*
- *Ymddygiad Myfyrwyr*
- *Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr*

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cyd-fynd â'r strwythur hwn. Mae dolenni ar gael i'r polisïau a gweithdrefnau priodol a gellir dod o hyd i'r rhain yn yr adran *Ffynonellau o Wybodaeth Bellach*.

Os ydych chi'n fyfyriwr anabl a bod angen addasu'r rheoliadau neu'r gweithdrefnau hyn i'ch galluogi i ymgysylltu'n llawn â'r broses, cysylltwch â Chofrestrydd Academaidd i drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

Gall swyddogion y Brifysgol enwebu dirprwyon i weithredu ar eu rhan.

Newidiadau ers 2020/2021

Rheoleiddio/ Adran	**Disgrifiad o'r newid**	**Yn dod i rym o**
Ffynonellau Rhagor o Wybodaeth	Ychwanegu'r polisïau Derbyn Myfyrwyr canlynol: • *Pennu Addasrwydd Ymgeiswyr i Ymarfer a'u Cymhwysedd i Ddilyn Rhaglenni a Reoleiddir* • *Rhaglen Ôl-raddedig a Addysgir Cwnsela Genetig a Genomig.* • *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Deintyddiaeth).*	Parhaus (wedi'i hepgor yn flaenorol)

	• *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd).* • *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Meddygaeth).* *Ychwanegu Polisi Monitro ac Adolygu.* *Proses Ailddilysu newydd yn disodli Adolygiad Cyfnodol.* Ychwanegu *Ail-Gofrestru Cynfyfyrwyr Gradd Ymchwil i'w Harholi*	11 Tachwedd 2020 1 Awst 2021
Rheoliadau Rheoli Academaidd	Wedi'i ddiweddaru yn dilyn adolygiad o Lywodraethu Addysg yn 2021 i gynnwys y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr newydd.	1 Awst 2021
Amrywio'r Trefniadau	Wedi'i ddiweddaru yn dilyn adolygiad yn Tachwedd 2021.	1 Awst 2021
Rheoliadau Dyfarniadau	Ychwanegu rhestr o gyn-ddyfarniadau nad ydyn nhw bellach yn cael eu rhoi, gyda'r dyfarniadau canlynol yn cael eu symud i'r rhestr hon: • *DDS - Doethur mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol* • *DNursSci - Doethur mewn Gwyddor Nyrsio* • *DNurs - Doethur mewn Nyrsio* • *DAHSP – Doethur Gwyddoniaeth ac Ymarfer Gofal Iechyd Uwch* • *MEP – Athro mewn Ymarfer Addysgol* • *MMus – Athro mewn Cerddoriaeth* • *PGCE - Tystysgrif Graddedig Proffesiynol mewn Addysg (PCET) / Tystysgrif Graddedig Proffesiynol mewn Addysg (PCET - Mewn Gwasanaeth).* • *BD – Baglor mewn Diwinyddiaeth* • *Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion* • *Diploma mewn Astudiaethau Cyfreithiol (ar gyfer myfyrwyr cyfnewid)*	1 Awst 2021
Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Modiwl a Addysgir	Newid i gymal 2.3 ac ychwanegu cymalau 2.4 a 2.5 i egluro'r gwahanol lefelau astudio a ddisgwylir ar gyfer blwyddyn o Ddysgu Trwy Brofiad/Proffesiynol neu flwyddyn o astudio dramor. Dileu "Modiwl Craidd Dewisol" fel math o fodiwl sydd ar gael ar ddewis modiwl cymeradwy.	Parhaus (pwyntiau eglurhad)

	Eglurhad o derminoleg a ddefnyddiwyd yn 2.7 (2.6 yn flaenorol), gan roi ‘ymrestru’ yn lle 'cofrestriad cychwynnol', a ‘50 wythnos’ gyda 'blwyddyn' i sicrhau cysondeb. Ychwanegu diffiniad o “rheolau dilyniant” ar ddechrau 3.1. Ychwanegu’r cymalau canlynol sy'n ymwneud yn benodol â Thraethodau Hir Graddau Meistr: • Eglurhad o Reolau Dilyniant yn 3.2 i ganiatáu gwaith paratoi dan oruchwyliaeth neu heb oruchwyliaeth. • 3.12 sy’n nodi'r amgylchiadau ar gyfer “methu o ganlyniad i beidio â chyflwyno” traethawd hir. • 3.13 sy’n nodi'r cyfle i ailgyflwyno traethawd hir a fethwyd. • 3.14 sy’n nodi'r gofyniad i ailgofrestru a thalu ffioedd am gyflwyniadau a wneir yn y flwyddyn academaidd nesaf. Ychwanegu datganiad yn 3.3 gan gyfeirio at y berthynas rhwng rheolau ailsefyll ac ailadrodd. Diwygiad i 4.1 i egluro mai dim ond os bydd hynny wedi’i nodi yn ei raglen astudio y bydd myfyriwr yn gymwys i gael dyfarniad (ee dyfarniad ymadael y cytunwyd arno). Ychwanegu 4.2 gan roi diffiniad o “Dyfarniad a Fwriadwyd” a “Dyfarniad Ymadael (Atodol)”. Dileu datganiad blaenorol yn 5.2, gan na ddylai fod unrhyw amgylchiadau lle na ellir gweithredu rheolau dosbarthu. Newid i dablau dosbarthu yn 5.3 i gael gwared ar “methu” a “pasio” fel dosbarthiad. Mae hyn yn egluro y bydd unrhyw ddyfarniad nad yw'n cael ei ddosbarthu yn cael ei ddosbarthu fel 'pasio'.	
Rheoliadau Modiwlau	Eglurhad o'r diffiniad o 'Modiwl rhagflaenol' ar restr y dynodiadau modiwl yn 4. Newid i gymal 9.1 i egluro y bydd ymdrechion ailasesu fel arfer yn digwydd yn y cyfnod ailsefyll a/neu trwy ailadrodd y sesiwn academaidd nesaf.	Parhaus (pwyntiau eglurhad)

Rheoliadau MB BCh	Wedi'i ddiweddaru i integreiddio profion cynnydd yn ffurfiol, a chynnwys cyfeiriad at *Ganllaw Asesu a Dilyniant MB BCh*.	1 Medi 2021
Rheoliadau BDS	Dileu *Rheoliadau BDS ar gyfer Myfyrwyr Parhaus 2016/17*. Eglurhad o gymhwysedd ar gyfer Dyfarniadau Ymadael, a sut y defnyddir y rheol eilaidd ar gyfer dyfarnu BDS.	1 Awst 2021 Parhaus (pwyntiau eglurhad)
Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir sydd heb Fodiwlau	Mân ddiwygiadau i gymalau 11.6, 11.7 ac 11.8 mewn perthynas â gofynion cofrestru a ffioedd myfyrwyr sy'n methu eu traethawd hir ac y caniateir iddynt ailgyflwyno.	Parhaus (pwynt eglurhad)
Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi	Newid teitl adran 1 y rheoliadau o 'Cyflwyniad' i 'Cyffredinol'. Dileu cymal 9.1, a diwygio i 9.2 i gyfeirio at "Ysgolion" yn hytrach na "Byrddau Astudiaethau".	1 Awst 2021
Rheoliadau Gradd Ymchwil	Diwygiad i 3.4 i egluro bod yn rhaid i astudiaeth ran-amser fod gyfateb i 50% neu ragor o'r hyn sy'n cyfateb i amser llawn. Ychwanegu 4.4 i ganiatáu i fyfyriwr wneud cais i ymestyn ei gofrestriad ar gyfer rhaglen ddoethuriaeth am gyfnod o hyd at 12 mis ar ôl dyfarnu ei radd.	1 Awst 2021

Ffynonellau Rhagor o Wybodaeth

Cefnogir y Rheoliadau Academaidd gan nifer o bolisïau a gweithdrefnau. Mae'r rhain ar gael drwy'r dolenni isod.

Tîm Derbyn Myfyrwyr

- *Polisi Mynediad ar gyfer Rhaglenni Israddedig Deintyddiaeth*
- *Polisi Mynediad ar gyfer Rhaglenni Israddedig Meddygaeth*
- *Polisi Gwirio Ceisiadau*
- *Gweithdrefn Cwynion ac Apelio i Fyfyrwyr*
- *Derbyn Myfyrwyr ar sail Cyd-destun*
- *Euogfarnau Troseddol – Polisi, Gweithdrefn ac Arweiniad*
- *Diogelu data*
- *Blaendaliadau ar gyfer Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir*
- *Pennu Addasrwydd Ymgeiswyr i Ymarfer a'u Cymhwysedd i Ddilyn Rhaglenni a Reoleiddir*
- *Cefnogaeth ar gyfer Anableddau a Lles*
- *Gofynion Saesneg*
- *Amgylchiadau esgusodol*
- *Gwybodaeth ynghylch Statws Ffioedd*
- *Addasrwydd i Ymarfer (Gofal Iechyd)*
- *Rhaglen Addysg Ôl-raddedig a Addysgir Cwnsela Genetig a Genomig*
- *Polisi Cyfweld a Chlyweliad*
- *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Deintyddiaeth)*
- *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd)*
- *Polisi Gor-danysgrifio (Ysgol Meddygaeth)*
- *Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol a Chydnabod Dysgu Trwy Brofiad Blaenorol*
- *Polisi Diogelu*
- *Polisi Cyfnod Perthnasedd Safonol ar gyfer Cymwysterau Blaenorol*
- *Telerau ac Amodau Cynnig*
- *Polisi o dan 18 oed*

Dyfarniadau a Rhaglenni

Polisïau a gweithdrefnau dyfarnu:

- *Polisi Gwisg Academaidd*

Polisïau a gweithdrefnau rhaglenni:

- *Polisi Datblygu Rhaglenni*
- *Egwyddorion Asesu*
- *Polisi Darpariaeth Gydweithredol*
- *Polisi Dysgu ar Leoliad*

- *Polisi Astudio Dramor*
- *Fframwaith Dysgu Cyfunol*

Monitro ac adolygu:

- *Polisi Monitro ac Adolygu*
- *Adolygu a Gwella Blynyddol*
- *Ailddilysu*
- *Achredu gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol*

Asesu

- *Polisi a Gweithdrefn ynghylch Addasiadau Rhesymol*
- *Polisi a Gweithdrefn Astudio o Bell ar gyfer 2021/22*
- *Polisi Rhwyd Ddiogelwch*

Rhaglenni a addysgir:

- *Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol*
- *Polisi a Gweithdrefnau Arholi ac Asesu*
- *Polisi a Chanllawiau ar Asesiadau a gyflwynir trwy TG (e-asesiadau)*
- *Polisi ac arweiniad ar Asesiadau clinigol strwythuredig*
- *Polisi Marcio*
- *Polisi Adborth ar Asesiadau Academaidd*
- *Polisi Arholwyr Allanol*

Rhaglenni ymchwil:

- *Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol*
- *Polisi Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil a'u Diwyg*
- *Polisi ar Gyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr*
- *Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Penodi Byrddau Arholi Graddau Ymchwil (Viva)*
- *Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil*
- *Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Trefniant a Phroses Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil (viva) mewn Fformatau Amgen*
- *Polisi a Gweithdrefn ar Atal Mynediad at Draethodau Graddau Ymchwil*
- *Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Rhoi Traethodau Hir Electronig ar Gadw*
- *Camau ar gyfer gwneud cais, cyflwyno ac arholi PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig*
- *Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cais, Cyflwyno ac Asesu Doethuriaethau Uwch*
- *Gweithdrefn ar gyfer Ailgofrestru Cynfyfyrwyr Gradd Ymchwil i'w Harholi*

Astudiaethau ac Ymgysylltiad Myfyrwyr

- *Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr*
- *Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â Rhaglen Astudio*
- *Gweithdrefn Dychwelyd i Astudio*

Myfyrwyr a Addysgir

- *Gweithdrefn Ymgysylltiad Academaidd Myfyrwyr*
- *Gweithdrefn Gohirio Astudiaethau*
- *Polisi Tiwtor Personol*
- *Disgwyliadau Gofynnol Dysgu Canolog*

Myfyrwyr ymchwil:

- *Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil*
- *Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol*
- *Polisi ar Oruchwylio Myfyrwyr Ymchwil*
- *Polisi ar Gyfrifoldebau Goruchwyliwr*
- *Gweithdrefn a Pholisïau ynghylch Tarfu ar Astudiaethau ac Estyn Terfynau Amser ac Estyniadau iddynt (Myfyrwyr Ymchwil)*
- *Polisi ar Famolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth/Absenoldeb Partner ac Absenoldeb Rhiant a Rennir i Fyfyrwyr Ymchwil*
- *Myfyrwyr Ymchwil sy'n Addysgu*
- *Polisi ar ymsefydlu a hyfforddi myfyrwyr ymchwil*

Adborth gan fyfyrwyr:

- *Prosiect Gwerthuso Modiwlau*
- *Côd Ymarfer Arolwg Myfyrwyr*

Ymddygiad Myfyrwyr

- *Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr*
- *Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer*
- *Polisi Gonestrwydd Academaidd*

Myfyrwyr a Addysgir

- *Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd (Myfyrwyr a Addysgir)*

Myfyrwyr ymchwil:

- *Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd (Graddau Ymchwil)*
- *Polisi ar Gyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil*

Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr

- *Gweithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr*
- *Polisi a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd*
- *Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol*

1. Llywodraethiant

1.1 Mae'r fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Brifysgol yn gweithredu o'i fewn yn seiliedig ar ei Siarter Frenhinol a'r Statudau a'r Ordinhadau ategol. Mae'r Rheoliadau Academaidd hyn, sy'n ymwneud â rheoliadau academaidd, yn ategu cynnwys y Siarter, Statudau a'r Ordinhadau.

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu, ac felly dyma brif awdurdod y Brifysgol. Y corff hwn sydd â'r gair olaf ynglŷn â phob mater sy'n effeithio ar y Brifysgol (Ordinhad 4).

Y Senedd yw ein prif awdurdod academaidd ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar bolisïau addysgol ar ran y Cyngor (Ordinhad 5).

Mae'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yn gyfrifol am gynghori'r Brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr ar draws ystod lawn ei darpariaeth ar gyfer myfyrwyr (Ordinhad 10).

Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn gyfrifol am gynghori'r Brifysgol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â hyrwyddo ansawdd a safonau academaidd (Ordinhad 10).

Mae Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol, yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Senedd a'r Cyngor, yn cael argymhellion gan Fyrddau Arholi ac yn dyfarnu graddau, tystysgrifau, diplomau neu ddyfarniadau eraill y Brifysgol i'r rheiny sy'n gymwys (Ordinhad 10).

2. Strwythur Colegau

2.1 Mae ein Hysgolion Academaidd wedi'u trefnu'n dri Choleg fel y manylir yn Ordinhad 9, Cyrff Academaidd.

3. Cyfrifoldebau

3.1 Mae Cyfrifoldebau Rhag Is-gangellorion y Coleg a Phenaethiaid Ysgolion wedi'u manylu yn Ordinhad 9, Cyrff Academaidd.

3.2 Bydd pob cynnig y mae'n ofynnol i Bwyllgorau'r Brifysgol ei gymeradwyo, neu sydd â goblygiadau o ran adnoddau, yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Bennaeth yr Ysgol berthnasol/Penaethiaid yr Ysgolion perthnasol.

3.3 Yn ei hanfod, rôl pwyllgorau yw penderfynu ar faterion polisi neu gynghori yn eu cylch; cyn belled â phosibl, caiff y cyfrifoldeb dros faterion gweinyddol o ddydd i ddydd eu dirprwyo i unigolion a enwir.

3.4 Caiff myfyrwyr gyfle i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu ar faterion academaidd drwy gyfrwng eu haelodaeth o bwyllgorau perthnasol.

3.5 Penaethiaid yr Ysgolion perthnasol fydd yn gyfrifol am ansawdd y profiadau addysgol a ddarperir i'r myfyrwyr, gan gynnwys y myfyrwyr sy'n dilyn modiwlau a gynigir gan yr Ysgol mewn rhaglenni a addysgir ar y cyd a rhaglenni a gydaddysgir, a rhaglenni lle mae'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys cyfraniadau iddynt gan sawl Ysgol.

3.6 Bydd pob Modiwl (Rhaglenni modiwlaidd) neu Uned Astudio a addysgir (Rhaglenni anfodiwlaidd) (defnyddir y term 'Modiwl' wedi hyn i gyfeirio at y ddau ohonynt) yn perthyn i un Ysgol yn unig; ni cheir rhannu'r cyfrifoldeb dros Fodiwlau.

4. Strwythur Sylfaenol Rheoli Rhaglenni a Addysgir

Yn unol â'r Ordinhadau, cyfrifoldeb Pennaeth pob Ysgol yw sefydlu'r strwythur sylfaenol yn ei (H)ysgol i reoli Rhaglenni a addysgir. Bydd hynny'n cynnwys hyn, o leiaf:

4.1 Bwrdd yr Ysgol

Ym mhob Ysgol bydd uwch-bwyllgor, fydd yn cynghori Pennaeth yr Ysgol ac a gadeirir gan y Pennaeth neu ei (h)enwebai, yn ymwneud â materion polisi o bwys sy'n ymwneud â'r Ysgol.

4.1.1 Mewn perthynas â Rhaglenni a addysgir, bydd y rhain yn cynnwys:

.1 sefydlu cenhadaeth ac amcanion yr Ysgol ar gyfer eu hadolygu;

.2 datblygu Cynllun Strategol yr Ysgol yn unol â strategaethau'r sefydliad;

.3 ystyried materion sy'n ymwneud â dysgu, addysgu ac asesu yn unol â blaenoriaethau'r Brifysgol, yn ôl diffiniad strategaeth y Brifysgol a amlinellir yn y Fforddd Ymlaen, a Rheoliadau a Pholisïau'r Brifysgol;

.4 dyrannu a monitro adnoddau i Raglenni a addysgir;

.5 cael ac ystyried argymhellion gan y Byrddau Astudio ar gyfer newidiadau mawr i raglenni presennol.

4.2 Y Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr

4.2.1 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn sefydlu Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr, a'r Cadeirydd fydd y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, a fydd yn adrodd i Fwrdd yr Ysgol a Phwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Coleg.

4.2.2 Bydd y Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr yn darparu goruchwyliaeth o'r trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni a addysgir a phrofiad myfyrwyr, gan gynghori / argymell i Bennaeth yr Ysgol trwy Fwrdd yr Ysgol, ar faterion gan gynnwys:

- derbyn ac ystyried argymhellion gan Fyrddau Astudio;
- adolygu a dadansoddi adborth myfyrwyr ac ystyried unrhyw argymhellion gan y Panel(au) Staff Myfyrwyr;
- Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer addysgu, asesu a chefnogi myfyrwyr yn glynu wrth reoliadau, polisïau, gweithdrefnau a strategaethau'r Brifysgol ac yn cyd-fynd â nhw.
- nodi mentrau gwella sy'n cyfrannu at gyflawni nodau'r is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr a goruchwyliaeth ar effaith ac effeithiolrwydd y camau a gymerir;
- sicrhau bod cyflwyniad Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) yr Ysgol wedi'i gwblhau;
- goruchwylio effeithiolrwydd camau gweithredu'r Cynllun Gwella Profiad y Myfyrwyr a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith;
- hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu staff;
- gan integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb, ac amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd ym mhob mater sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

4.2.3 Bydd y Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr yn cynghori ac yn adrodd i Bwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Coleg ar faterion gan gynnwys:

- Cynnydd yr Ysgol wrth gefnogi gweithrediad yr is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr;
- cyfleoedd arloesedd a gwelliannau ym maes addysg ac asesu;
- cyfleoedd i wella profiad myfyrwyr, yn enwedig o ran adborth myfyrwyr;
- materion neu bryderon sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr y mae angen eu hystyried ymhellach ar lefel Prifysgol.

4.2.4 Bydd y Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr yn lledaenu i'r Bwrdd Ysgol a'r Byrddau Astudiaethau, fel y bo'n briodol, wybodaeth a dderbynnir ac a ystyrir yng nghyfarfodydd Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Coleg a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, ac adborth a dderbynnir mewn perthynas â cyflwyniad Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) yr Ysgol.

4.2.4 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr yn cynnwys: Cadeiryddion Byrddau Astudio; Asesu ac Adborth yn arwain; Hyrwyddwr Cyflogadwyedd; Uwch Diwtor Personol; cynrychiolydd myfyrwyr uwch; ac aelodau eraill fel y cytunwyd gan Bennaeth yr Ysgol a'r Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu.

4.3 Byrddau Astudio

4.3.1 Rhaid i bob Rhaglen fod yn destun goruchwyliaeth Bwrdd Astudio. Bydd Pennaeth yr Ysgol sefydlu unrhyw Fyrddau Astudio y mae eu hangen i sicrhau cydlynu'r holl faterion academaidd a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglenni a addysgir ac a ddarperir gan yr Ysgol.

4.3.2 Bydd Byrddau Astudiaethau yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr. Byddant yn ymwneud ag un neu ragor o Raglenni, neu rannau o Gyd-raglenni, a gynigir gan yr Ysgol. Bydd eu swyddogaethau creiddiol yn cynnwys:

.1 bod yn gyfrifol am yr Adolygiad a Gwelliant Blynyddol o'r rhaglenni/rhannau o raglenni;

.2 ystyried, a lle bo hynny'n briodol, cynghori'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr ar faterion fel:

- cynaliadwyedd parhaol lefel y rhaglen a'r deilliannau dysgu bwriadedig;
- bod unrhyw ddiwygiadau i strategaeth a strwythur y rhaglen yn unol ag egwyddorion strwythur, dyluniad a darpariaeth y rhaglen;
- bod yr holl adroddiadau ac ymweliadau achrediadau proffesiynol yn cael eu hadolygu, a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn eu cylch;
- bod yr holl raglenni darpariaeth ar y cyd yn cael eu monitro, gan gyfeirio'n benodol at adroddiadau safonwyr;
- monitro cynlluniau 'Teach Out' ar gyfer unrhyw raglennu sydd wedi'u diddymu;
- bod holl adroddiadau arholwyr allanol yn cael eu hadolygu gan gyfeirio'n benodol at adborth ynghylch ansawdd a safonau rhaglenni ac unrhyw gynigion am newidiadau i raglenni.

.3 cymeradwyo, a lle y bo'n briodol, cynghori'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr ar, newidiadau i raglenni fel y caniateir gan y Polisi Datblygu Rhaglenni;

.4 cynghori'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr ar gynigion ar gyfer rhaglenni newydd neu newidiadau mawr i raglenni;

.5 cynghori Pennaeth yr Ysgol ynghylch ceisiadau i gael eich derbyn gyda statws uwch yn unol â'r gofynion a nodir yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol a Chydnabod Dysgu Trwy Brofiad Blaenorol.

.6 cynghori'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr am faterion i'w hystyried ymhellach gan yr Ysgol neu i'w cyfeirio ymlaen at bwyllgorau ar lefel Coleg neu Brifysgol;

.7 adolygu ac ystyried adborth myfyrwyr a gafwyd o arolygon a Phanel(au) Staff Myfyrwyr yn ymwneud â darparu rhaglenni.

4.3.3 Rhaid peidio â rhagnodi cyfansoddiad Byrddau Astudio ac eithrio bod rhaid iddynt gynnwys:

- o leiaf un cynrychiolydd o staff academaidd pob Modiwl sy'n dod o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Astudio;
- o leiaf un cynrychiolydd o'r myfyrwyr, a'r cynrychiolydd hwnnw fel rheol wedi'i dynnu o'r Paneli Myfyrwyr/Staff a weinyddir gan y Bwrdd Astudio ac wedi'i ethol gan ac o blith yr aelodau o'r Paneli Staff/Myfyrwyr sy'n fyfyrwyr. Bydd pob Bwrdd Astudio bennu nifer y cynrychiolwyr ychwanegol (os o gwbl) a fydd gan y myfyrwyr ac sydd i'w cynnwys ymhlith aelodau'r Bwrdd hwnnw.

4.4 Panel Myfyrwyr a Staff

4.4.1 Mae Paneli Myfyrwyr/Staff yn cynnig cyfle i fyfyrwyr amlygu problemau a phrofiadau cadarnhaol gyda'r Ysgol sy'n ymwneud â'u profiadau addysgol, a rhoi cyfle i Ysgolion ymgynghori â myfyrwyr ynghylch cynigion sy'n ymwneud â'u profiad addysgol.

4.4.2 Bydd gan bob Ysgol o leiaf un panel Staff/Myfyrwyr ar gyfer rhaglenni a addysgir ac un ar gyfer ymchwil ôl-raddedig fel ei gilydd, gyda phaneli priodol wedi'u sefydlu i wneud yn siŵr y gellir trafod materion gyda chynrychiolaeth briodol, e.g. israddedig ac ôl-raddedig a addysgir.

4.4.3 Bydd Cofnodion Paneli Staff Myfyrwyr ar gyfer rhaglenni a addysgir yn cael eu cyflwyno i'r Byrddau Astudiaethau a'r Pwyllgor Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr perthnasol er mwyn ystyried y materion a godir. Pan bennir ei bod yn briodol, gellir defnyddio'r cofnodion hefyd i gyfeirio materion yn uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, neu Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig a/neu Benaethiaid Ysgolion. Caiff cofnodion eu cyflwyno hefyd i Undeb y Myfyrwyr, fydd yn cynhyrchu adroddiadau ar sail semester ynghylch gweithgarwch ar draws y Brifysgol.

4.4.4 Mae cyngor ac arweiniad ar gael mewn Côd Ymarfer ynghylch Cynrychiolaeth Academaidd.

4.5 Byrddau Arholi

4.5.1 Caiff Byrddau Arholi eu sefydlu yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd a Byrddau Arholi.

4.6 Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Colegau

4.6.1 Bydd Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Coleg yn darparu goruchwyliaeth o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno rhaglenni a addysgir a phrofiad a mentrau myfyrwyr i gefnogi cyflawni nodau ac amcanion yr is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr, gan gynnwys:

- Nodi mentrau gwella sy'n cyfrannu at gyflawni nodau'r is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr;
- adolygu a gwerthuso adborth myfyrwyr;
- goruchwylio'r cynnydd ar effeithiolrwydd a'r ffordd y caiff gweithgareddau a mentrau gwella eu rhoi ar waith;
- gwerthu effaith polisïau sy'n ymwneud â phrofiad y myfyrwyr;

- Hyrwyddo arloesedd a gwelliannau mewn addysgu ac asesu;
- hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu staff;
- ystyried materion a godir gan Bwyllgorau Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr;
- gan integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb, ac amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd ym mhob mater sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

4.6.2 Bydd Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Coleg yn derbyn, ystyried, a lledaenu, i'r Pwyllgorau Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr, fel y bo'n briodol, wybodaeth a dderbynnir ac a ystyrir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a'r Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd.

4.6.3 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Ddeoniaid y Coleg - Israddedig ac Ôl-raddedig - a bydd ei aelodaeth yn cynnwys: Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu o bob Ysgol; swyddog sabothol Undeb y Myfyrwyr a enwebwyd gan y Llywydd; dau gynrychiolydd myfyrwyr hŷn.

5. Strwythur Rheoli Graddau Ymchwil

5.1 Grŵp Strategaeth Ôl-raddedig Ymchwil (PGR)

5.1.1 Mae'r Grŵp Strategaeth Ymchwil Ôl-raddedig (PGR) yn darparu goruchwyliaeth strategol o ymchwil ôl-raddedig ar draws y Brifysgol, gan adrodd i strwythurau llywodraethu'r Rhag Is-Gangellorion thematig. Mewn perthynas â'r portffolio Addysg a Myfyrwyr, bydd y Grŵp Strategaeth PGR yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a'r Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd. Mewn perthynas ag Ymchwil, Arloesi a Menter, bydd Grŵp Strategaeth PGR yn adrodd i'r endidau perthnasol, yn unol â chanlyniadau cwmpasiad cyfredol o'r strwythur llywodraethu ar gyfer ymchwil, arloesi a menter, fel y cytunwyd gan UEB.

5.1.2 Bydd y Grŵp yn datblygu ac yn parhau i adolygu strategaeth PGR, ac yn gwneud argymhellion arni i'r Rhag Is-Gangellorion, Ymchwil, Arloesi a Menter ac Addysg a Myfyrwyr.

5.1.3 Bydd y Grŵp yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael â bylchau a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf.

5.1.4 Bydd y Grŵp yn gyfrifol am gyflawni Cynllun Gweithredu PGR.

5.1.5 Bydd y Grŵp yn darparu arweinyddiaeth well a hyddysg ar recriwtio ymchwil ôl-raddedig, ansawdd a safonau, cyllid a diwylliant a phrofiad ôl-raddedig.

5.1.6 Bydd gan y Grŵp gyfrifoldeb i drafod ac argymell mecanweithiau a strwythurau llywodraethu a fydd yn cefnogi'n effeithiol ac yn effeithlon: Prosiectau partneriaethau Undeb y Myfyrwyr; Recriwtio PGR; Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant PGR; nodi, datblygu a darparu Grantiau / Endidau Hyfforddiant Doethurol a ariennir yn allanol; wedi trafod

trafodaethau PGR â sefydliadau allanol, gan gynnwys cydweithredu â GW4; Adeilad carfan PGR; Iechyd meddwl a lles PGR; Diwylliant a hyfforddiant PGR; Cefnogaeth iaith Saesneg i fyfyrwyr PGR; Hyfforddiant goruchwylwyr PGR; Myfyrwyr PGR sy'n dysgu; datblygu rhaglenni gradd ymchwil PGR newydd.

5.1.7 Gall y Grŵp sefydlu, fel y bo'n briodol, yr Is-bwyllgorau hynny neu grwpiau tasg-ganolog eraill sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei rôl.

5.1.8 Bydd y Grŵp yn integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob mater sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

5.1.9 Bydd y Grŵp yn sicrhau bod materion cynaliadwyedd yn cael eu hystyried yn llawn yng nghyd-destun popeth sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.

5.1.10 Bydd Deon Coleg (Ôl-raddedig) yn cadeirio'r Grŵp Strategaeth PGR, a enwebir gan y Rhag Is-Ganghellor, Ymchwil, Arloesi a Menter.

5.1.11 Bydd aelodaeth y Grŵp Strategaeth PGR yn cynnwys y canlynol: Deoniaid Coleg (Ôl-raddedig); Un Deon Rhyngwladol Coleg; dau Gyfarwyddwr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig o bob Coleg; Is-lywydd Ôl-raddedig Undeb y Myfyrwyr; Un myfyriwr ymchwil ôl-raddedig; dau aelod o'r Academi Ddoethurol; Un aelod o Ansawdd a Gweithrediadau PGR; Un aelod o Gyfathrebu a Marchnata; Un aelod o Gyllid; Un aelod o Adnoddau Dynol; Un aelod o'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi; Un aelod o Gymorth a Lles Myfyrwyr; Un aelod sy'n Ymchwilydd Gyrfa Gynnar.

5.2 Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol

5.2.1 Penaethiaid Ysgol sy'n gyfrifol am gyfathrebu â myfyrwyr a staff ynghylch unrhyw drefniadau ar gyfer cynnal a rheoli graddau ymchwil, sy'n ategol i reoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol o ran llywodraethu graddau ymchwil.

5.2.2 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn sefydlu Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol, y Cadeirydd fydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig, a fydd yn adrodd i Fwrdd yr Ysgol a'r Grŵp Strategaeth PGR.

5.2.3 Bydd y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol yn darparu goruchwyliaeth o'r trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni ymchwil ôl-raddedig a chefnogaeth academaidd i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, gan gynghori / argymell i Bennaeth yr Ysgol trwy Fwrdd yr Ysgol, ar faterion gan gynnwys:

1. sicrhau bod y trefniadau ar gyfer goruchwylio a monitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol, ac yn hygyrch i'r holl staff a myfyrwyr;
2. sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol wrth iddynt fynd ar drywydd eu nodau ymchwil a'u hanghenion o ran datblygiad proffesiynol;

3. ystyried a chadarnhau hawliau myfyrwyr, gan gynnwys darpariaeth o ran gofod / seilwaith, mynediad at gyllid ar gyfer cynadleddau, costau ymchwil, teithio a hyfforddiant, a chyfleoedd addysgu;
4. sicrhau trefniadau priodol ar gyfer ystyried ceisiadau a chynnal cyfweliadau;
5. adolygu ac ystyried adborth myfyrwyr a gafwyd o arolygon a'r Panel Staff Myfyrwyr;
6. adolygu gwybodaeth reoli, gan gynnwys cynnydd, cyflwyno, cwblhau, adborth gan fyfyrwyr ac arholwyr, a defnyddio gwybodaeth o'r fath i lywio gweithredoedd yr Ysgol;
7. sicrhau bod cyflwyniad Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) yr Ysgol wedi'i gwblhau;
8. cyfleoedd i wella profiad y myfyrwyr;
9. cynigion ar gyfer rhaglenni ymchwil newydd;
10. gan integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb, ac amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd ym mhob mater sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

5.2.4 Bydd y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol yn cynghori'r Grŵp Strategaeth PGR, trwy Ddeon y Coleg (Ôl-raddedig):

- cyfleoedd i wella profiad y myfyrwyr;
- materion neu bryderon sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer graddau ymchwil a / neu brofiad myfyrwyr y mae angen eu hystyried ymhellach ar lefel Prifysgol.

5.2.5 Ni ragnodir cyfansoddiad y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol heblaw y bydd yn cynnwys staff academaidd sy'n gyfrifol am oruchwylio a monitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac o leiaf un cynrychiolydd myfyrwyr.

6. Amrywio'r Strwythur Penderfynu Academaidd Sylfaenol

Bydd unrhyw achos o blaid amrywio'r strwythur penderfynu academaidd sylfaenol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Senedd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, a bydd gan y pwyllgor hwnnw'r awdurdod i gymeradwyo'r amrywiadau hynny.

Amrywio'r Trefniadau

1. Newidiadau i Reoliadau'r Brifysgol

1.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ychwanegu, dileu neu wneud newidiadau rhesymol i'r Rheoliadau lle, ym marn y Brifysgol, bydd hyn yn ei chynorthwyo i ddarparu addysg briodol. Fel arfer gwneir newidiadau am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

a) I adolygu a diweddaru'r Rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben;
b) I adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys newidiadau cyfreithiol neu reoliadol, newidiadau i drefniadau ariannu neu ariannol neu newidiadau i bolisi, gofynion neu ganllawiau llywodraeth;
c) I ymgorffori canllawiau'r sector neu arfer gorau;
d) I ymgorffori adborth gan fyfyrwyr; a/neu
e) I helpu eglurder neu gysondeb dull.

1.2 Bydd y Brifysgol yn ymgynghori â Swyddogion Etholedig Undeb y Myfyrwyr cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r Rheoliadau.

1.3 Fel arfer, bydd unrhyw newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, er y gellir cyflwyno newid yn ystod y flwyddyn academaidd lle mae'r Brifysgol yn rhesymol yn ystyried fod hyn er budd myfyrwyr neu lle mae hyn yn ofynnol gan y gyfraith neu amgylchiadau eithriadol eraill. Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i darfu cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr lle bo hynny'n rhesymol bosibl, er enghraifft, drwy roi hysbysiad rhesymol o'r newidiadau i'r Rheoliadau cyn iddynt ddod i rym, neu drwy gyflwyno'r newidiadau yn raddol, os yn briodol.

1.4 Bydd y Rheoliadau wedi'u diweddaru ar gael ar wefan y Brifysgol, a gallant gael eu cyhoeddi mewn ffyrdd eraill fel bod myfyrwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau.

2. Amrywiad i raglenni neu wasanaethau/cyfleusterau eraill

2.1 Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflwyno rhaglenni a chyfleoedd ymchwil sy'n arwain at ei dyfarniadau a gwasanaethau a chyfleusterau addysgol cysylltiedig eraill, fel y disgrifir yn y wybodaeth berthnasol a gyhoeddwyd gan y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd y byddwch yn dechrau'r cwrs ynddi.

2.2 Bydd gan y Brifysgol hawl i wneud newidiadau rhesymol i'w rhaglenni lle bydd hynny'n galluogi'r Brifysgol i gyflwyno rhaglen gyfatebol neu brofiad addysgol o ansawdd gwell i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen. Gall enghreifftiau o newidiadau o'r fath gynnwys:

a) cynnwys a maes llafur y rhaglen lle mae datblygiadau yn y maes pwnc yn gwneud hynny'n angenrheidiol;
b) amserlen, lleoliad y rhaglen a nifer y dosbarthiadau;
c) y dull o gyflwyno'r rhaglen, y gwasanaethau a'r cyfleusterau;
d) strwythur a/neu amseru'r flwyddyn academaidd; a
e) y trefniadau ar gyfer y broses arholi ac asesu a'r dulliau o'i dilyn.

Mae enghreifftiau o amgylchiadau lle gallai fod angen i'r Brifysgol wneud newidiadau o'r fath yn cynnwys:

a) lle mae staff allweddol wedi cymryd absenoldeb estynedig neu wedi gadael y Brifysgol;
b) lle nad yw'r cwrs neu'r modiwl perthnasol yn hyfyw yn ariannol mwyach;
c) yn dilyn newidiadau i'r cyllid y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn;
d) lle bydd y newidiadau'n galluogi'r Brifysgol i gynnig profiad addysgol o ansawdd gwell i fyfyrwyr ar y cwrs; ac
e) ailstrwythuro'r cwrs i wella profiad myfyrwyr y Brifysgol a'i heffeithlonrwydd.

2.3 Mewn achosion o'r fath, dim ond y newidiadau sydd wir angen eu gwneud er mwyn sicrhau ansawdd gofynnol profiad y myfyrwyr y bydd y Brifysgol yn eu gwneud. Bydd y Brifysgol hefyd yn hysbysu ac yn ymgynghori â'r myfyrwyr yr effeithir arnynt ymlaen llaw ynghylch unrhyw newidiadau angenrheidiol.

2.4 Weithiau mae amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol na ellid bod wedi'u hatal hyd yn oed pe bai'r Brifysgol wedi cymryd gofal rhesymol ("**Digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth**") yn golygu bod y Brifysgol yn cael ei hatal rhag darparu neu ei rhwystro rhag darparu, neu fel arall ni all gyflwyno'r rhaglenni a/neu gyfleoedd ymchwil sy'n arwain at ei dyfarniadau a gwasanaethau a chyfleusterau addysgol cysylltiedig eraill fel y disgrifir. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

a) gweithredoedd Duw, llifogydd, daeargryn, storm wynt neu drychineb naturiol arall;
b) pandemigau, epidemigau clefydau heintus a bygythiadau eraill i iechyd y cyhoedd;
c) tân, ffrwydrad neu ddifrod damweiniol;
d) terfysgaeth;
e) aflonyddwch gwleidyddol neu sifil;
f) strwythurau adeiladau'n dymchwel, peiriannau, cyfrifiaduron neu gerbydau yn methu;
g) difrod, torri ar draws neu ddiffyg mynediad at adeiladau, cyfleusterau neu offer;
h) anghydfod gweithwyr, gan gynnwys streiciau a gweithredu diwydiannol neu weithredu arall;
i) toriad neu fethiant mewn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i bŵer trydan, nwy neu ddŵr;

j) gweithredoedd, ordinhadau, deddfwriaeth, rheoliadau neu gyfyngiadau unrhyw lywodraeth;
k) absenoldeb annisgwyl neu ymadawiad aelod allweddol o staff;
l) lle mae'r niferoedd sydd wedi'u recriwtio ar gyfer rhaglen a/neu fodiwl mor isel, nid yw'n bosibl darparu addysg o safon briodol ar gyfer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru.
m) mewn ymateb i ofynion corff achredu neu reoleiddiwr proffesiynol;
n) gweithredoedd neu oedi unrhyw awdurdod llywodraethol neu leol; a/neu
o) lle mae agwedd ar gwrs yn dibynnu ar arbenigedd penodol aelod o staff sy'n sâl neu sy'n gadael, ac nad yw'n rhesymol bosibl dod o hyd i rywun arall sydd â'r arbenigedd perthnasol.

2.5 Lle mae digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn digwydd, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt am y digwyddiadau ac yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r effaith ar brofiad dysgu'r myfyriwr drwy, er enghraifft:

a) gyflwyno fersiwn diwygiedig o'r un rhaglen; neu
b) roi'r gefnogaeth ddysgu a/neu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol i'r myfyrwyr hynny yr effeithir arnynt;
c) cyflwyno'r rhaglen mewn ffordd wahanol, o leoliad arall neu ar-lein, neu ar adeg arall;
d) darparu gwasanaethau a chyfleusterau eraill mewn ffordd wahanol, o leoliad gwahanol neu ohirio'r dyddiad dechrau ar gyfer y cwrs ar-lein; a/neu
e) roi cyfle i'r myfyrwyr hynny yr effeithir arnynt, lle bo'n bosibl yn ymarfer, drosglwyddo i raglen arall, neu dynnu yn ôl, a rhoi cefnogaeth resymol iddynt symud i brifysgol arall.

2.6 Bydd y Brifysgol yn rhoi sicrwydd parhaus o safon ac ansawdd y dyfarniad. Hysbysir y myfyrwyr am unrhyw newidiadau yn y gefnogaeth ddysgu, y gwasanaethau a'r cyfleusterau gan y Brifysgol mor fuan ag sy'n ymarferol.

2.7 Os nad yw unrhyw fyfyrwyr yn fodlon ar unrhyw gamau o'r fath i sicrhau y bydd digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn tarfu arnynt cyn lleied â phosibl, gallant derfynu eu contract gyda'r Brifysgol a/neu wneud cwyn o dan Weithdrefn Gwyno'r Brifysgol.

2.8 Os bydd angen cau neu derfynu neu roi'r gorau i gyflwyno rhaglen o ganlyniad i ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, bydd y Brifysgol yn rhoi cyfle i fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt drosglwyddo i raglen arall ym Mhrifysgol Caerdydd neu dynnu'n ôl a chael cymorth rhesymol i ddod o hyd i le mewn prifysgol arall.

Rheoliadau Derbyn

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Derbyn a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Bydd y rheoliadau a'r polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU ynllawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ar Dderbyn, Recriwtio ac Ehangu Mynediad yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn sicrhau bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir eu cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.	Mae gan y darparwr system dderbyn ddibynadwy, deg a chynhwysol.
	Mae'r darparwr yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, er mwyn gwella safon eu profiadau academaidd.
	Mae gan y darparwr weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac apeliadau sydd ar gael i bob myfyriwr.

Rheoliadau Derbyn

1. **Cyflwyniad**

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir sydd â'r potensial a'r penderfyniad i lwyddo ar ein rhaglenni. Rydym yn ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl arferion gweithio a'n gweithgareddau sy'n gysylltiedig â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr.

2. **Gofynion Mynediad Cyffredinol:**

2.1 Mae gan y Brifysgol ofynion mynediad cyffredinol i sicrhau bod gan ymgeiswyr yr hanfodion i lwyddo ar raglen yn y Brifysgol. Rhaid i'r gofynion mynediad a bennir fodloni'r Brifysgol y bydd ymgeiswyr yn cyrraedd safon academaidd briodol i gwblhau'r rhaglen.

2.2 Rhaid i ymgeiswyr fedru dangos lefel gallu yn y Gymraeg neu'r Saesneg a fydd yn eu galluogi i elwa'n llawn ar eu rhaglen; bydd y lefel ofynnol yn amrywio o raglen i raglen. Caiff y lefel ei phennu gyda chyfeiriad at TGAU mewn Iaith Gymraeg neu Saesneg, astudiaeth lefel uwch fel Lefelau A neu raglen radd a ddysgir drwy gyfrwng y Saesneg, neu brawf IELTS. Cyhoeddir rhestr lawn o brofion a chymwysterau cyfatebol derbyniol, ynghyd â sgoriau y mae angen i ymgeiswyr eu cyflawni, ochr yn ochr â'r polisïau Mynediad ar wefan y Brifysgol.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd angen fisa i astudio yn y DU gyflwyno cymhwyster iaith Saesneg derbyniol er mwyn bodloni rheolau Mewnfudo Llywodraeth y DU.

2.3 Rhaid i ymgeiswyr fodloni pob gofyniad (neu ofynion) mynediad a thelerau ymrestru fel y'u cyhoeddwyd o dan ofynion mynediad y rhaglen a/neu fel y nodwyd yn y cynnig ffurfiol i astudio neu ymrestru. Gall hyn gynnwys gofynion academaidd, profiad proffesiynol perthnasol, a gofynion fel y nodwyd gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac archwiliadau iechyd a meddygol.

Mae mynediad i rai rhaglenni ymchwil drwy lwybrau cyllido penodol yn unig. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sicrhau, a chyflwyno tystiolaeth eu bod wedi sicrhau, y cyllid gofynnol i fod yn gymwys i gael mynediad ar y rhaglenni hyn.

Bydd angen tystiolaeth ffurfiol i gadarnhau bod yr holl ofynion wedi'u cyflawni. Rhaid cyflwyno'r dystiolaeth hon erbyn y dyddiad cau penodedig.

3. **Gofynion Mynediad Rhaglenni Gradd**

3.1 Mae gofynion mynediad yn cael eu pennu gan yr Ysgol Academaidd. Yn achos graddau a addysgir, bydd gofynion mynediad wedi'u pennu gyda chytundeb y Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn. Mae'r polisi hwn yn disgrifio ar ba sail y bydd gofynion mynediad yn cael eu pennu ar gyfer rhaglenni astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

3.2 Bydd gofynion mynediad yn cael eu pennu'n unol â gofynion Côd Ansawdd y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gyfer Addysg Uwch.

3.3 Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer pob lefel astudio gyflawni'r Gofynion Mynediad Cyffredinol fel y nodir yn y Rheoliadau Derbyn Myfyrwyr.

3.4 Rhoddir y gofynion ar gyfer lefelau astudio penodol isod:

Rhaglenni gradd israddedig

Mae'n ofynnol bod ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni gradd israddedig **naill ai'n** meddu ar gymwysterau ar lefel 3 (neu uwch) Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) neu gyfatebol fel y nodir gan Brifysgol Caerdydd yn ei chanllawiau cyfwerthedd cymwysterau, **neu** wedi cael eu hasesu gan yr Ysgol Academaidd fel bod â phrofiad/dysgu proffesiynol cyfatebol.

Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

Mae'n ofynnol bod ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir **naill ai'n** meddu ar gymwysterau ar lefel 6 (neu uwch) Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) neu gyfatebol fel y nodir gan Brifysgol Caerdydd yn ei chanllawiau cyfwerthedd cymwysterau, **neu** wedi cael eu hasesu gan yr Ysgol Academaidd fel bod â phrofiad/dysgu proffesiynol cyfatebol.

Rhaglenni Gradd Ymchwil

Mae'n ofynnol bod ymgeiswyr ar gyfer gradd ymchwil ôl-raddedig yn meddu ar gymwysterau ar lefel 6 (neu uwch) Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) neu gyfatebol fel y nodir gan Brifysgol Caerdydd yn ei chanllawiau cyfwerthedd cymwysterau Beth bynnag fo cymwysterau ymgeisydd, rhaid i'r Ysgol o dan sylw fodloni ei hun bod ymgeisydd o'r safon academaidd ofynnol i gwblhau'r rhaglen ymchwil arfaethedig.

Rhaid i ymgeisydd ar gyfer y radd MD fod wedi cymhwyso mewn gradd Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawdriniaeth o leiaf dair blynedd cyn eu derbyn.

Yn achos lleoedd ymchwil a ariennir, gall gofynion mynediad gael eu pennu'n unol â'r gofynion cyllido.

4. **Cynnig Ffurfiol i Astudio: Telerau ac Amodau**

4.1 Os cewch gynnig lle, bydd cynnig ffurfiol yn cael ei anfon atoch a fydd yn nodi'r telerau ac amodau ar gyfer eich derbyn ar raglen astudio benodedig.

4.2 Bydd y cynnig ffurfiol yn cynnwys gwybodaeth am eich rhaglen astudio, ffioedd dysgu, blaendal (os yn gymwys), eich dyddiad cychwyn, y dyddiad cwblhau disgwyliedig, unrhyw amodau academaidd/anacademaidd y bydd angen i chi eu bodloni.

4.3 Bydd eich cynnig naill ai'n amodol neu'n ddiamod.

Mae **Amodol** yn golygu bod gofynion academaidd, anacademaidd, neu iaith Gymraeg/Saesneg y bydd yn rhaid eu cyflawni cyn y gellir cadarnhau lle.

Mae **Diamod** yn golygu eich bod, mewn egwyddor, wedi bodloni'r holl ofynion academaidd, anacademaidd, neu iaith Gymraeg/Saesneg, ac y bydd lle'n cael ei gadarnhau ar ôl derbyn y lle erbyn y dyddiad gofynnol ac, os yn

briodol, talu unrhyw flaendal gofynnol. Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ffurfiol eich bod wedi bodloni'r gofynion cyn ymrestru (fel cyflwyno tystysgrifau cymwysterau).

4.4 Mae cynnig ffurfiol i astudio'n ddilys ar gyfer y rhaglen astudio a'r dyddiad dechrau a nodwyd yn unig.

5. Dyddiadau Dechrau a Gohirio Mynediad

5.1 Bydd dyddiad mynediad i'r rhaglen y gwnaed cais amdani yn cael ei gadarnhau yn y cynnig ffurfiol.

5.2 Cyn cyflwyno cais, gall ymgeiswyr wneud cais ar gyfer unrhyw dderbyniad sydd ar gael, a all gynnwys mynediad wedi'i ohirio.

5.3 Ar ôl i gais gael ei gyflwyno, neu ar ôl i gynnig i astudio gael ei wneud, gall ymgeiswyr ofyn am gael gohirio eu cais/lle am hyd at 12 mis o ddyddiad dechrau'r rhaglen roeddent wedi gwneud cais ar ei chyfer yn wreiddiol. Nid oes sicrwydd y caiff y cais i ohirio ei gymeradwyo. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno gohirio mynediad am fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad dechrau wneud cais arall.

6. Newid Rhaglen

6.1 Ar ôl i gais gael ei gyflwyno, neu ar ôl i gynnig i astudio gael ei wneud, gall ymgeiswyr ofyn am gael newid eu rhaglen astudio. Nid oes sicrwydd y caiff y cais i newid rhaglen ei gymeradwyo, a bydd yn amodol ar argaeledd lleoedd a bod yr ymgeisydd yn cyflawni'r gofynion mynediad ar gyfer y rhaglen astudio newydd.

7. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd

7.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i bolisi o gydraddoldeb a chyfle, ac mae'n ymdrechu i sicrhau amgylchedd dysgu, gweithio a chymdeithasol diogel heb unrhyw wahaniaethu. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod myfyrwyr, staff, ymwelwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol yn cael eu trin ag urddas, parch a thegwch, ni waeth beth fo unrhyw wahaniaeth amhriodol, fel oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd, mamolaeth, hil, crefydd, cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol (sydd wedi'u nodi fel 'nodweddion gwarchodedig' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

7.2 Os byddwch yn ymddwyn yn groes i bolisïau'r Brifysgol o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth neu Urddas yn y Gweithle ac wrth Astudio (y mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol lynu wrthynt), rydym yn cadw'r hawl i'ch diarddel os ydych wedi cael eich derbyn/ymrestru, ac i ddiddymu unrhyw gontract.

7.3 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd a enwir yw rhoi gwybodaeth lawn a chywir yn eu cais, a gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'w manylion cyswllt neu eu hamgylchiadau personol, ac ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth sydd ei hangen sy'n berthnasol i'w cais.

7.4 Cyn cynnig lle, os oes gwybodaeth anwir neu gamarweiniol wedi'i rhoi, ni roddir ystyriaeth bellach i'r cais a bydd yr ymgeisydd yn cael eu hysbysu bod eu cais wedi bod yn aflwyddiannus. Ar ôl cynnig lle, gall cynnig gael ei dynnu'n ôl neu ei newid os daw gwybodaeth i sylw'r Brifysgol a allai fod wedi dylanwadu ar benderfyniad neu ganlyniad cais. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i ategu cais.

7.5 Pan fo ymgeisydd neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran ymgeisydd wedi camarwain y Brifysgol yn fwriadol neu'n ddiofal drwy gyflwyno gwybodaeth anwir neu anghywir, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r partïon perthnasol. Bydd y rhain yn cynnwys UCAS yn achos ceisiadau israddedig, y Swyddfa Gartref lle gallai gwybodaeth a ddatgenir gael ei defnyddio'n anwir i gael fisa i gael mynediad i'r DU, a heddlu perthnasol yn y DU mewn achos o dwyll a chamarwain difrifol.

7.6 Mae'r Brifysgol yn cymryd ei dyletswyddau diogelu o ddifrif. Os daw gwybodaeth i law'r Brifysgol ynghylch (neu â allai fod ynghylch) mater diogelu, bydd y Brifysgol yn gweithredu'n unol â'i dyletswyddau ac yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r partïon cymwys (yn unig) o fewn y Brifysgol fel sy'n briodol, a gyda sefydliadau allanol perthnasol fel yr Heddlu (gan gynnwys yr Asiantaeth Gwrthderfysgaeth), Gwasanaethau Plant neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

8 Polisïau a Gweithdrefnau Mynediad

8.1 Mae'r Rheoliadau Mynediad Myfyrwyr yn cael eu hategu gan Bolisïau Mynediad y Brifysgol

8.2 Mae polisïau a gweithdrefnau Mynediad y Brifysgol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- tegwch;
- tryloywder;
- proffesiynoldeb;
- hygyrchedd ar gyfer ymgeiswyr a'u cynghorwyr;
- defnydd cyson o bolisïau a gweithdrefnau.

8.3 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau canlynol yn gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn:

Polisi Mynediad Cyd-destunol: mae'n ymwneud â'r defnydd o wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses dderbyn, i roi cyd-destun i berfformiad a chyflawniad ymgeisydd unigol o ran eu cais i'r Brifysgol.

Polisi Rhaglen Chwaraeon Lefel Uchel: mae'n ymwneud â'r defnydd o wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses dderbyn, i roi cyd-destun i berfformiad a chyflawniad ymgeisydd unigol ym meysydd chwaraeon ac yn academaidd, o ran eu cais i'r Brifysgol.

Polisi Gwirio Ymgeiswyr: manylion am y polisi a'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i bryderon am wybodaeth anwir, anghywir, neu gamarweiniol.

Polisi Cyfweliadau a Chlyweliadau Derbyn: manylion am y polisi a'r weithdrefn ar gyfer cynnal cyfweliadau derbyn i asesu addasrwydd ymgeiswyr i'w derbyn ar raglen astudio.

Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol a Chydnabod Dysgu Trwy Brofiad Blaenorol: manylion am y polisi a'r weithdrefn ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol a dysgu trwy brofiad blaenorol i ganiatáu mynediad gyda chydnabyddiaeth neu esemptiad uwch.

Polisi Cyfnod Perthnasedd Cymwysterau Academaidd Blaenorol: manylion am y polisi ar y cyfnod perthnasedd ar gyfer cymwysterau academaidd ar gyfer mynediad i sicrhau gwybodaeth gyfredol.

Polisi Amgylchiadau Esgusodol: manylion am y polisi a'r weithdrefn sy'n ystyried anawsterau neu amgylchiadau personol sylweddol ymgeisydd sy'n cael effaith arwyddocaol ar eu gallu academaidd neu eu gallu i gwblhau neu gymryd rhan mewn unrhyw fath o asesiad o ganlyniad i faterion y tu hwnt i'w rheolaeth.

Polisi Collfarnau Troseddol: Manylion am y gofynion i ddatgelu collfarnau troseddol a'r weithdrefn ar gyfer ystyried unrhyw ddatgeliad.

Polisi Addasrwydd i Ymarfer: manylion am y polisi a'r weithdrefn ar gyfer mynediad i ymgeiswyr i raglenni a reoleiddir sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad a'u llesiant,

Polisi i fyfyrwyr sy'n dod i'r Brifysgol sydd dan 18 oed: mae'n nodi ar ba delerau mae'r Brifysgol yn derbyn myfyrwyr sydd o dan 18 oed ar ddechrau eu rhaglen a'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny.

Y Weithdrefn Gwyno ac Apelio (ar gyfer ymgeiswyr): mae'n nodi manylion am y polisi a'r weithdrefn sy'n galluogi ymgeiswyr i wneud cwyn neu i apelio os ydynt yn anfodlon â'r modd y cafodd proses fynediad y Prifysgol ei chynnal, neu ganlyniad y broses honno.

Polisïau gor-danysgrifio: sy'n rhoi'r polisi a'r weithdrefn ar gyfer Ysgolion Deintyddiaeth, Gwyddorau Gofal Iechyd a Meddygaeth o ran capio niferoedd.

Polisïau lefel ysgol: sy'n rhoi manylion polisïau derbyn ychwanegol ar gyfer Ysgolion/rhaglenni arbenigol.

Dyfarniadau a Rhaglenni

Rheoliadau Dyfarniadau

1. **Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd**

1.1 Caiff Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd eu dynodi fel a ganlyn:

Doethuriaeth Uwch

DMus	Doethur mewn Cerddoriaeth
DD	Doethur mewn Diwinyddiaeth
DLitt	Doethur mewn Llên
DSc	Doethur mewn Gwyddoniaeth
DDSc	Doethur mewn Gwyddoniaeth Ddeintyddol
DScEcon	Doethur mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol
LLD	Doethur yn y Cyfreithiau

Doethuriaeth (lefel credyd 8 FFCCHC)

MD	Doethur mewn Meddygaeth
PhD	Doethur mewn Athroniaeth

Doethuriaethau Proffesiynol (lefel credyd 8 FFCCHC)

DClinPsy	Doethur mewn Seicoleg Glinigol
DEdPsy	Doethur mewn Seicoleg Addysg
EdD	Doethur mewn Addysg
EngD	Doethur mewn Peirianneg
DSW	Doethur mewn Gwaith Cymdeithasol
DAHP	Doethur mewn Ymarfer Gofal Iechyd Uwch
DHS	Doethur mewn Astudiaethau Iechyd
SPPD	Doethur mewn Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus

Ymchwil Athro (lefel credyd 7 FFCCHC)

MScD	Athro mewn Gwyddoniaeth Ddeintyddol
MRes	Athro mewn Ymchwil
MPhil	Athro mewn Athroniaeth

Athro a Addysgir (lefel credyd 7 FFCCHC)

MA	Athro yn y Celfyddydau
MSc	Athro mewn Gwyddoniaeth
MScEcon	Athro mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol
MBA	Athro mewn Gweinyddiaeth Fusnes
MDA	Athro mewn Gweinyddu Dylunio
MPA	Athro mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus
MEd	Athro mewn Addysg

LLM	Athro yn y Cyfreithiau
MTh	Athro mewn Diwinyddiaeth
MPH	Athro mewn Iechyd Cyhoeddus
MClinDent	Athro mewn Deintyddiaeth Glinigol

Athro Integredig a Baglor Estynedig (lefel credyd 7 FFCCHC)

MArch	Athro mewn Pensaernïaeth
MBiochem	Athro mewn Biocemeg
MBiol	Athro mewn Gwyddorau Biolegol
MBiomed	Athro mewn Gwyddorau Biofeddygol
MChem	Athro mewn Cemeg
MEng	Athro mewn Peirianneg
MSci	Athro yn y Gwyddorau
MESci	Athro mewn Gwyddor Daear
MMath	Athro mewn Mathemateg
MMORS	Athro mewn Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegau
MNeuro	Athro mewn Niwrowyddorau
MPharm	Athro mewn Fferylliaeth
MPhys	Athro mewn Ffiseg
BDS	Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol
MB BCh	Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth

Diploma a Thystysgrif Ôl-raddedig (lefel credyd 7 FFCCHC)

PG Dip:	Diploma Ôl-raddedig
PG Cert	Tystysgrif Ôl-raddedig

Baglor (lefel credyd 6 FFCCHC)

BA	Baglor yn y Celfyddydau
BSc	Baglor mewn Gwyddoniaeth
BScEcon	Baglor mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol
BEng	Baglor mewn Peirianneg
BEd	Baglor mewn Addysg
LLB	Baglor yn y Cyfreithiau
BMus	Baglor mewn Cerddoriaeth
BArch	Baglor mewn Pensaernïaeth
BN	Baglor mewn Nyrsio
BMid	Baglor mewn Bydwreigiaeth
BSD	Baglor mewn Gwyddoniaeth mewn Deintyddiaeth
BMedSc	Baglor mewn Gwyddor Feddygol
BTh	Baglor Diwinyddol

Diploma a Thystysgrif Raddedig (lefel credyd 6 FFCCHC)

Grad Dip	Diploma Graddedig
Grad Cert	Tystysgrif Raddedig

Lefelau Credyd (lefel credyd 5 FFCCHC)

DipHE Diploma Addysg Uwch

Lefel C Tystysgrif (HEQF); (lefel credyd 4 FFCCHC)

CertHE Tystysgrif Addysg Uwch

Astudiaethau Sylfaen (lefel credyd 3 FfCChC)

Tystysgrif Astudiaethau Sylfaen

1.2 Mae'r canlynol yn rhestr o gyn-ddyfarniadau dynodedig Prifysgol Caerdydd nad ydyn nhw bellach ar gael i'w rhoi:

Cyn-ddyfarniadau

MCh	Athro Llawfeddygaeth
DDS	Doethur mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol
DNursSci	Doethur mewn Gwyddor Nyrsio
DNurs	Doethur mewn Nyrsio
DAHSP	Doethur Gwyddoniaeth ac Ymarfer Gofal Iechyd Uwch
MEP	Athro mewn Ymarfer Addysgol
MMus	Athro mewn Cerddoriaeth
PGCE	Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol) (PCET)
	Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol) (PCET) (Yn y Gweithle)
BD	Baglor mewn Diwinyddiaeth
	Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion
	Diploma mewn Astudiaethau Cyfreithiol (ar gyfer myfyrwyr cyfnewid)

1.3 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) sy'n rhoi'r fframwaith cyffredin sydd ar waith ledled Cymru ac a ddefnyddir i ddiffinio lefel a maint dysgu ar sail credyd.

1.4 Mae credyd yn ddyfarniad a roddir i ddysgwr i gydnabod eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu penodedig ar lefel gredyd benodol. Mae faint o Gredyd a ddyfernir i fodiwl yn seiliedig ar amcangyfrif o'r amser a fyddai'n gymryd ar gyfartaledd i ddysgwr gyflawni'r deilliannau dysgu a bennir. Bydd ugain credyd yn cynnwys o leiaf dau gant o oriau astudio gan gynnwys oriau cyswllt cysylltiedig, astudio annibynnol ac asesiad.

1.5 Mae lefel y credyd yn ddangosydd o alw cymharol, cymhlethdod a dyfnder y dysgu ac annibyniaeth y dysgwr. Fe'i diffinnir fel a ganlyn:

FFCCHC Lefel 3: Credyd a enillir fel arfer ar raglenni sylfaen gyda'r safon yn cyfateb i TAG Safon Uwch, ac a fyddai'n paratoi myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio gradd israddedig;

FFCCHC Lefel 4: Credyd a enillir fel arfer ym mlwyddyn gyntaf rhaglenni israddedig ac sy'n briodol i ennill dyfarniad Tystysgrif Addysg Uwch Prifysgol;

FFCCHC Lefel 5: Credyd a enillir fel arfer yn ail flwyddyn rhaglenni israddedig ac sy'n briodol i ennill dyfarniad Diploma Addysg Uwch Prifysgol;

FFCCHC Lefel 6: Credyd a enillir fel arfer ym mlwyddyn olaf rhaglenni israddedig ac sy'n briodol i ennill dyfarniad gradd anrhydedd;

FFCCHC Lefel 7: Credyd a enillir fel arfer mewn rhaglenni ôl-raddedig a addysgir ac sy'n briodol i ennill dyfarniad Gradd Meistr Integredig neu Radd Meistr;

FFCCHC Lefel 8: Credyd a enillir fel arfer mewn rhaglenni ymchwil ôl-raddedig ac sy'n briodol i ennill dyfarniad doethuriaeth;

1.6 Diploma Graddedig fydd y dyfarniad priodol i fyfyriwr sy'n cael ei dderbyn gyda statws uwch i radd israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd ar sail gradd gyntaf mewn disgyblaeth gysylltiedig a lle mae'r gofynion Credyd a nodwyd uchod wedi'u cyflawni. Diben y ddarpariaeth hon yw atal Credyd a gyflawnwyd rhag cael eu cyfrif ddwywaith tuag at ddyfarniadau gradd ar wahân.

Rheoliadau Rhaglenni a Addysgir

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni a Addysgir. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ynghylch Dylunio a Datblygu Cyrsiau, Asesu, Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr, Arbenigedd Allanol, Dysgu ac Addysgu, a Phartneriaethau yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r ddarparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
Mae'r darparwr yn sicrhau bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir eu cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, bydd wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau ei ddyfarniadau'n gredadwy ac yn ddiogel waeth ble neu ym mha fodd y darperir cyrsiau, neu bwy sy'n eu darparu.	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, teg a thryloyw.	Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau addysg.
	Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y profiad academaidd o ansawdd uchel waeth ble neu sut y caiff

	cyrsiau eu cyflwyno a phwy sy'n eu darparu.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran safonau	**Arferion cyffredin o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau'n rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.
	Mae agwedd y darparwr tuag at reoli ansawdd yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd allanol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

Rhaglenni Modiwlaidd

Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Modiwl a Addysgir

1. **Gwybodaeth am y Rhaglen**

1.1 Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am raglenni ar gael ar gyfer pob rhaglen a gynigir gan yr Ysgol, gan gynnwys pob amrywiad ar raglen (e.e. rhan-amser neu amser llawn, rhaglenni gyda blwyddyn ar leoliad, gwahanol ddyddiadau dechrau).

1.2 Bydd gwybodaeth am raglenni'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- dyfarniad bwriadedig;
- pwyntiau ymadael cymeradwy;
- hyd y rhaglen;
- modd mynychu;
- disgrifiad o'r rhaglen;
- deilliannau dysgu ar lefel rhaglen; wedi'u halinio â deilliannau dysgu modiwlau craidd a gofynnol;
- cyfeiriad at ddatganiad meincnod pwnc yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA);
- cyfeiriad at achrediad gan gorff proffesiynol;
- strwythur y rhaglen, e.e. cyfanswm nifer y credydau a lefel, nifer y camau;
- cynnydd a rheolau dosbarthiad y dyfarniad.

1.3 Bydd gan bob rhaglen ddyfarniad dynodedig. dyfarniad bwriadedig y myfyriwr, a gall hefyd bennu dyfarniad(au) ymadael y gall myfyrwyr fod yn gymwys i'w cael ar ôl cwblhau cam o raglen yn llwyddiannus.

1.4 Bydd iaith y dysgu, goruchwylio ac asesu yn Saesneg a/neu yn Gymraeg, ac eithrio mewn rhaglenni sydd wedi'u llunio i gynnwys caffael sgiliau iaith.

2. **Strwythur Rhaglenni Modiwlaidd**

2.1 Bydd rhaglenni modiwlaidd a addysgir yn cynnwys credydau fel y nodir isod:

	Lefel 4 neu uwch	Lefel 5 neu uwch	Lefel 6 neu uwch	Lefel 7 neu uwch	**Cyfanswm**
Tystysgrif Addysg Uwch	120				**120**
Diploma Addysg Uwch	120	120			**240**

Tystysgrif Raddedig		20	40		**60**
Diploma Graddedig		30	90		**120**
Gradd Baglor	120	120	120		**360**
Gradd Ymsang Baglor			120		**120**
Gradd Meistr Integredig	120	120	120	120	**480**
Tystysgrif Ôl-raddedig			20	40	**60**
Diploma Ôl-raddedig			30	90	**120**
Gradd Meistr			30	150	**180**

2.2 Bydd strwythur rhaglenni gradd modiwlaidd a addysgir fel a ganlyn:

Dyfarniad	Nifer y camau	Hyd y rhaglen
Tystysgrif Raddedig	1 cam	1 semester amser llawn 1 flwyddyn rhan-amser
Diploma Graddedig	1 cam	1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser
Gradd Baglor	3 cham	3 blynedd amser llawn 6 blynedd rhan-amser.
Gradd Ymsang Baglor	1 cam	1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser
Gradd Meistr Integredig	4 cam	4 blynedd amser llawn 8 mlynedd rhan-amser.

Tystysgrif Ôl-raddedig	1 cam	1 semester amser llawn neu 1 flwyddyn yn rhan-amser
Diploma Ôl-raddedig	1 cam	1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser
Gradd Meistr	1 cam 2 gam Diploma a Meistr 3 cham Tystysgrif, Diploma a Meistr	1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser 1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser 1 flwyddyn amser llawn 2 flynedd rhan-amser
Gradd Meistr Diploma Ôl-raddedig Tystysgrif ôl-raddedig	Datblygiad Proffesiynol Parhaus 1 cam	7 mlynedd

2.3 Bydd rhaglenni israddedig tri cham gyda blwyddyn o Ddysgu trwy Bofiad/Proffesiynol neu flwyddyn o astudio dramor yn cynnwys cam ychwanegol a 120 credyd ar lefel 5 neu 7.

2.4 Bydd rhaglenni israddedig pedwar cam gyda blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad/Proffesiynol neu flwyddyn o astudio dramor yn cynnwys cam ychwanegol a 120 credyd ar lefel 6 neu 7.

2.5 Bydd rhaglenni israddedig a addysgir gyda blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad/Proffesiynol neu flwyddyn o astudio dramor yn cynnwys cam ychwanegol a 120 credyd ar lefel 7 neu 7.

2.6 Gall myfyrwyr ymgymryd â chyfnod astudio cychwynnol, sy'n cynnwys 120 credyd ar lefel 3 neu uwch, a allai arwain at symud ymlaen i 1 neu ragor o Raglenni penodedig.

Terfynau Amser.

2.7 Y terfyn amser i fyfyrwyr i gwblhau eu Rhaglen yw dim mwy na 2 flynedd yn fwy na hyd cymeradwy'r Rhaglen.

2.8 Y dyddiad cyflwyno ar gyfer y traethawd hir ar Raglenni Meistr fydd:

.1 Yn achos Rhaglenni blwyddyn amser-llawn, rhaid i'r dyddiad cyflwyno beidio â bod yn fwy na 50 o wythnosau ar ôl dyddiad ymrestru, oni chaiff hynny ei amrywio fel arall o dan 2.7.3 isod.

.2 Yn achos Rhaglenni rhan-amser, rhaid i'r dyddiad beidio â bod yn llai na 28 wythnos a dim mwy na 50 wythnos o'r dyddiad symud ymlaen i'r Radd Meistr (cam y traethawd hir).

.3 Yn achos rhaglenni Meistr blwyddyn amser llawn sy'n cynnwys cryn waith ymgysylltu clinigol neu waith sy'n gysylltiedig â'r clinig ar adeg (traethawd hir) y radd Meistr, gall y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, ar argymhelliad Pennaeth Ysgol, gymeradwyo dyddiad priodol, yn achos rhaglenni penodedig, ar gyfer cyflwyno'r Traethawd Hir, a'r dyddiad hwnnw heb fod dros 18 mis ar ôl dyddiad y cofrestriad cychwynnol.

2.9 Ym mhob cam o raglen, rhaid pennu cyfres o fodiwlau cymeradwy. Bydd dynodiad modiwlau'n dod o fewn y mathau canlynol:

Modiwl Gofynnol: Modiwl y mae'n rhaid i bob myfyriwr sydd wedi'u cofrestru ar raglen benodol ei ddilyn a'i basio drwy gyflawni'r isafswm marc pasio. Os nad yw myfyrwyr yn pasio modiwl gofynnol ni fyddant yn gallu mynd ymlaen i gam nesaf y rhaglen, na graddio o'r rhaglen gyda'r dyfarniad bwriadedig.

Modiwl Craidd: Modiwl y mae'n rhaid i bob myfyriwr sydd wedi eu cofrestru ar raglen benodol ei astudio.

Modiwl Dewisol: Modiwl sy'n ddewisol i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglen.

Modiwl Unigol: Modiwl a all fod ar gael i unrhyw fyfyriwr neu grŵp penodol o fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglen. Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd Astudiaethau'n penderfynu ar y modiwlau a fydd ar gael i fyfyrwyr ar raglenni gradd fel modiwlau unigol, a gallant bennu unrhyw isafswm neu uchafswm lefelau derbyn neu gyfyngiadau eraill. Os bydd Bwrdd Astudiaethau'n penderfynu dileu unrhyw fodiwlau unigol, rhaid iddo hysbysu Pennaeth Ysgol pob rhaglen sy'n cynnig modiwlau unigol.

3. Cynnydd a Chymhwysedd i Ailasesu:

3.1 **Mae Rheolau Cynnydd** yn nodi'r amgylchiadau lle gall myfyrwyr symud ymlaen i'w cam astudio nesaf. I fynd ymlaen i gam nesaf eu rhaglen, rhaid i fyfyrwyr fod wedi cyflawni:

- nifer y credydau a bennwyd gan reolau cynnydd perthnasol eu rhaglen; **a**
- chredyd mewn unrhyw fodiwlau gofynnol; **a**
- phan yn berthnasol, y cymwyseddau proffesiynol gofynnol fel y nodwyd yng ngwybodaeth y rhaglen.

3.2 Rhaid i un o'r rheolau cynnydd a roddir isod gael eu pennu ar gyfer pob rhaglen. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a yw myfyrwyr yn gymwys i symud ymlaen o un cam o'r rhaglen i'r nesaf.

Rheolau cynnydd

rhaglenni modiwlaidd 3 blynedd is-raddedig a addysgir

Cam	Rheol cynnydd 1 (Pob Credyd yn ofynnol)	Rheol cynnydd 2 (Gall myfyrwyr gario 30 credyd a fethwyd).	Rheol cynnydd 3 (Ar gyfer rhaglenni lle mae myfyrwyr yn ymgymryd â modiwlau lefel 5 yn ail semester blwyddyn 1).
Ar ddiwedd lefel 4	120 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	90 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	60 Credyd ar Lefel 4 neu uwch
Ar ddiwedd lefel 5	240 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)	210 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 5 neu uwch)	240 credyd (gan gynnwys 180 ar Lefel 5 neu uwch)

Rhaglenni Meistr integredig modiwlaidd 4 blynedd israddedig a addysgir.

Cam	Rheol cynnydd 4 (Pob Credyd yn ofynnol)	Rheol cynnydd 5 (Gall myfyrwyr gario 30 credyd a fethwyd).
Ar ddiwedd lefel 4	120 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	90 Credyd ar Lefel 4 neu uwch
Ar ddiwedd lefel 5	240 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)	210 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 5 neu uwch)
Ar ddiwedd Lefel 6	360 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 6 neu uwch)	330 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 6 neu uwch)

Rhaglenni Modiwlaidd Pedair Blynedd israddedig a addysgir sy'n cynnwys blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Broffesiynol (E/PL) neu astudio dramor.

Cam	Rheol cynnydd 6	Rheol Cynnydd 7	Rheol cynnydd 8

	(Pob Credyd yn ofynnol)	(Gall myfyrwyr gario 30 credyd a fethwyd).	(Ar gyfer rhaglenni lle mae myfyrwyr yn ymgymryd â modiwlau lefel 5 yn ail semester blwyddyn 1).
Ar ddiwedd lefel 4	120 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	90 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	60 Credyd ar Lefel 4 neu uwch
Ar ddiwedd blwyddyn 2 (h.y. cyn y Flwyddyn o Ddysgu drwy Brofiad/Proffesiynol E/PL)	240 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)	210 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 5 neu uwch)	240 credyd (gan gynnwys 180 ar Lefel 5 neu uwch)
Ar ddiwedd lefel 5 (h.y. ar ddiwedd y flwyddyn o ddysgu drwy brofiad/proffesiynol (E/PL) neu astudio dramor)	360 credyd (gan gynnwys 240 ar Lefel 5 neu uwch)	330 credyd (gan gynnwys 210 ar Lefel 5 neu uwch)	360 credyd (gan gynnwys 300 ar Lefel 5 neu uwch)

Rhaglenni modiwlaidd 5 mlynedd Meistr israddedig sy'n cynnwys blwyddyn o Ddysgu drwy Brofiad a/neu Broffesiynol (E/PL) neu Astudio Dramor.

Lle ymgymerir â'r flwyddyn o Ddysgu drwy Brofiad a/neu Broffesiynol E/PL neu Astudio Dramor rhwng blynyddoedd 2 a 3:

Cam	Rheol cynnydd 9 (Pob Credyd yn ofynnol)	Rheol cynnydd 10 (Gall myfyrwyr gario 30 credyd a fethwyd).
Ar ddiwedd lefel 4	120 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	90 Credyd ar Lefel 4 neu uwch
Ar ddiwedd blwyddyn 2 (h.y. cyn y flwyddyn o ddysgu drwy brofiad/proffesiynol (E/PL) neu astudio dramor)	240 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)	210 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 5 neu uwch)

Ar ddiwedd Lefel 5 (h.y. ar ddiwedd y flwyddyn o ddysgu drwy brofiad/proffesiynol (E/PL) neu astudio dramor	360 credyd (gan gynnwys 240 ar Lefel 5 neu uwch)	330 credyd (gan gynnwys 210 ar Lefel 5 neu uwch)
Ar ddiwedd Lefel 6	480 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 6 neu uwch)	460 credyd (gan gynnwys 100 ar Lefel 6 neu uwch)

Lle ymgymerir â'r flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Broffesiynol E/PL neu Astudio Dramor rhwng blynyddoedd 3 a 4:

Cam	Rheol cynnydd 11 (Pob Credyd yn ofynnol)	Rheol cynnydd 12 (Gall myfyrwyr gario 30 credyd a fethwyd).
Ar ddiwedd lefel 4	140 Credyd ar Lefel 4 neu uwch	110 Credyd ar Lefel 4 neu uwch
Ar ddiwedd lefel 5	280 Credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)	250 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 5 neu uwch)
Ar ddiwedd blwyddyn 3 (h.y. cyn y Flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad/Proffesiynol E/PL)	400 credyd (gan gynnwys 120 ar Lefel 6 neu uwch)	370 credyd (gan gynnwys 90 ar Lefel 6 neu uwch)
Ar ddiwedd Lefel 6	520 credyd (gan gynnwys 240 ar Lefel 6 neu uwch)	490 credyd (gan gynnwys 210 ar Lefel 6 neu uwch)

Rhaglenni Meistr

	Rheol cynnydd 1 (rhaglenni 3 cham)	Rheol cynnydd 2 (rhaglenni 2 gam)	Rheol cynnydd 2 (rhaglenni sy'n cynnwys Blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad

	(Pob credyd yn ofynnol)	(Pob credyd yn ofynnol)	a/neu Ddysgu Proffesiynol (Pob credyd yn ofynnol)
Ar ddiwedd Cam y Diploma	Bydd myfyrwyr y dyfarnwyd 120 credyd iddynt ar Lefel 6 neu uwch, gydag o leiaf 90 ohonynt ar Lefel 7: • **naill ai'n** symud ymlaen i gam Gradd Meistr eu Rhaglen; • **neu** dyfernir Diploma Ôl-raddedig iddynt	Bydd myfyrwyr y dyfarnwyd 120 credyd iddynt ar Lefel 6 neu uwch, gydag o leiaf 90 ohonynt ar Lefel 7: • **naill ai'n** symud ymlaen i gam Gradd Meistr eu Rhaglen; • **neu** dyfernir Diploma Ôl-raddedig iddynt	Bydd myfyrwyr y dyfarnwyd 120 credyd iddynt ar Lefel 6 neu uwch, gydag o leiaf 90 ohonynt ar Lefel 7: • **naill** ai'n symud ymlaen i'r Flwyddyn Dysgu trwy Brofiad/Dysgu Proffesiynol; • **neu** dyfernir Diploma Ôl-raddedig iddynt
Ar ddiwedd y Flwyddyn Dysgu trwy Brofiad/ Dysgu Proffesiynol			Bydd myfyrwyr y dyfarnwyd 240 Credyd iddynt ar Lefel 6 neu uwch, gydag o leiaf 210 ohonynt ar Lefel 7: • **naill ai'n** symud ymlaen i gam Gradd Meistr eu Rhaglen; • **neu** dyfernir Diploma Ôl-raddedig iddynt

Gall myfyriwr, â chymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol, gychwyn ar waith paratoadol dan oruchwyliaeth neu heb fod o dan oruchwyliaeth ar gyfer y Traethawd Hir cyn cwblhau Cam y Diploma Ôl-raddedig, ond ni allant gyflwyno gwaith i'w arholi nes bydd Cam Diploma Ôl-raddedig y rhaglen wedi'i basio.

Rheolau ailsefyll

3.3 Os nad yw myfyriwr wedi ennill digon o gredydau i symud ymlaen, caniateir i'r myfyriwr hwnnw ailsefyll asesiadau/modiwl(au) a fethwyd yn ystod y Cyfnod Ailsefyll Arholiadau ar yr amod nad ydynt wedi methu mwy o gredydau nag a nodir yn y rheol ailsefyll a fabwysiadwyd gan ei Hysgol. Os yw swm y credyd a fethwyd yn fwy na'r hyn a ganiateir gan y rheol ailddechrau berthnasol, gellir caniatáu i fyfyrwyr ailadrodd eu hastudiaethau

os ydynt o fewn y trothwy a osodwyd ar gyfer y rheol Ailadrodd a fabwysiadwyd gan eu Hysgol (gweler 3.5 isod).

Cynhelir pob asesiad ail-sefyll yn y Cyfnod Ail-sefyll Arholiadau, cyn dechrau'r sesiwn academaidd ganlynol.

Rhaglenni israddedig a addysgir

	Credydau wedi eu methu
Rheol ailsefyll 1	60 credyd
Rheol ailsefyll 2	40 credyd

Rhaglenni Modiwlaidd Ôl-raddedig a Addysgir:

	Credydau wedi eu methu
Rheol ailsefyll PGT 1	60 credyd
Rheol ailsefyll PGT 2	40 credyd
Rheol ailsefyll PHGT 3	30 credyd

3.4 Lle mae myfyriwr wedi methu asesiadau/modiwl(au) **ac** mae ganddynt fodiwl(au) y caniateir iddynt eu (hail)gymryd fel cynnig cyntaf, (e.e. lle'r effeithiwyd ar asesiadau neu fodiwl(au) gan amgylchiadau esgusodol), bydd y Bwrdd Arholi yn penderfynu pa un a yw'n rhesymol i'r myfyriwr gael ei asesu ym mhob un o'r asesiadau/modiwlau hyn yn y cyfnod Ailsefyll Arholiadau.

Rheolau Ailadrodd

3.5 Os nad yw myfyriwr wedi sicrhau digon o gredydau i symud ymlaen neu i ailsefyll, caniateir i'r myfyriwr ailadrodd y modiwl(au) a fethwyd yn ystod y sesiwn academaidd ganlynol ar yr amod nad ydynt wedi methu mwy o gredydau nag a nodir yn y rheol a fabwysiadwyd gan ei Hysgol

Bydd asesiadau a ailadroddir yn cael eu cynnal yn y sesiwn academaidd ganlynol a bydd y modd presenoldeb ar gyfer asesiadau a ailadroddir yn cael eu cadarnhau gan Bennaeth yr Ysgol yn ddim hwyrach nag adeg ymrestru.

Rhaglenni israddedig a addysgir

	Credydau wedi eu methu
Rheol ailadrodd 1	60 credyd
Rheol ailadrodd 2	80 Credyd
Rheol ailadrodd 3	100 Credyd

Rhaglenni Modiwlaidd Ôl-raddedig a Addysgir:

	Credydau wedi eu methu
Rheol ailadrodd PGT 1	105 credyd
Rheol ailadrodd PGT 2	80 Credyd
Rheol ailadrodd PGT 3	60 credyd
Rheol ailadrodd PGT 4	90 credyd

3.6. Lle mae myfyriwr yn ailadrodd modiwl(au) fel myfyriwr mewnol, bydd y myfyriwr yn mynychu'r holl addysgu a chaiff ei asesu yn yr un ffordd â myfyrwyr eraill sy'n cymryd y modiwl yn ystod y sesiwn, a bydd yn ymgymryd â holl elfennau asesiadau a bennir ar gyfer y modiwl hwnnw, gan gynnwys unrhyw rai a basiwyd gan y myfyriwr mewn cynnig blaenorol.

3.7 Lle mae myfyriwr yn ailadrodd modiwl(au) fel myfyriwr allanol, ni fydd y myfyriwr yn gorfod mynychu sesiynau addysgu a chaiff ei asesu mewn elfennau o'r asesiad nad ydynt wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn y modiwl hwnnw, yn erbyn y deilliannau dysgu sy'n gymwys pan oedd y myfyriwr wedi rhoi cynnig ar y modiwl fel myfyriwr mewnol.

Gwahardd o raglen

3.8 Ni chaniateir i fyfyriwr barhau i ddilyn rhaglen oni bai ei bod yn bosibl iddynt gwblhau'r rhaglen o fewn y terfyn amser cymeradwy.

3.9 Bydd myfyriwr israddedig sydd wedi:

.1 methu un neu fwy o Fodiwlau Gofynnol neu Graidd ar 3 achlysur yn gorfod tynnu'n ôl o'r rhaglen

.2 Caniateir i fyfyriwr sydd wedi methu unrhyw Fodiwl Dewisol neu Unigol ar 3 achlysur ddewis modiwl dewisol arall ar yr amod y gall gwblhau'r rhaglen o fewn y terfyn amser.

3.10 Bydd myfyriwr ôl-raddedig sydd wedi

.1 methu un neu fwy o Fodiwlau Gofynnol neu Graidd ar 2 achlysur yn gorfod tynnu'n ôl o'r rhaglen

.2 Caniateir i fyfyriwr sydd wedi methu unrhyw Fodiwl Dewisol neu Unigol ar 2 achlysur ddewis modiwl dewisol arall ar yr amod y gall gwblhau'r rhaglen o fewn y terfyn amser.

3.11 Pan nad yw Bwrdd Arholi yn caniatáu i fyfyriwr gael ei ailasesu neu symud ymlaen i gyfnod academaidd nesaf y Rhaglen, bydd y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u rhaglen.

Myfyrwyr sy'n Methu wrth Gam y Gradd Meistr

3.12 **Methiant trwy beidio â chyflwyno:** Pan fydd myfyriwr sydd wedi symud ymlaen i Gam y Gradd Meistr yn methu â chyflwyno traethawd hir cyn y dyddiad cau penodedig, ac nid yw'r Brifysgol wedi caniatáu estyniad, bydd y myfyriwr wedi methu asesiad y Traethawd Hir trwy beidio â chyflwyno a sero fydd y marc a ddyfernir iddo.

3.13 Pan fydd myfyriwr wedi methu ei draethawd hir (gan gynnwys methiant trwy beidio â chyflwyno), caniateir un cyfle iddynt ailgyflwyno cyn pen chwe mis ar ôl cael gwybod yn ffurfiol am y marc a fethwyd.

3.14 Pan fydd traethawd hir yn cael ei ailgyflwyno yn y flwyddyn academaidd ganlynol, efallai y bydd rhaid i fyfyriwr ailgofrestru a thalu ffi ailgofrestru.

4. Dyfarniad

4.1 Bydd myfyriwr sydd wedi cyflawni'r nifer gofynnol o gredydau yn unol â'r tabl canlynol yn gymwys ar gyfer y dyfarniad a nodir, ar yr amod eu nod yn ymrestru ar raglen astudio berthnasol.

Cydnabyddiaethau	**Lefel 4 neu uwch**	**Lefel 5 neu uwch**	**Lefel 6 neu uwch**	**Lefel 7 neu uwch**	**Cyfanswm**
Tystysgrif AU	120				**120**
Diploma AU	120	120			**240**
Tystysgrif Raddedig		20	40		**60**
Diploma Graddedig		30	90		**120**
Gradd Baglor Pasio	120	120	80		**320**[1]

Gradd Baglor Anrhydedd	120	120	100		**340[1]**
Gradd Ymsang Baglor			120		**120**
Gradd Meistr Integredig	120	120	120	100	**460[1]**
Tystysgrif ôl-raddedig			20	40	**60[2]**
Diploma Ôl-raddedig			30	90	**120[2]**
Gradd Meistr			30	150	**180**

[1] bydd yn ofynnol i fyfyrwyr sydd ar raglenni sy'n cynnwys Blwyddyn o Ddysgi Trwy Brofiad neu Broffesiynol neu Astudio Dramor, gyflawni 120 o gredydau ychwanegol ar lefel a nodir yn y wybodaeth am y rhaglen.

[2] yn achos myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni Meistr, ni chaniateir i'r dyfarniad ymadael gynnwys credydau a ddyfarnwyd am draethawd neu brosiect cyfatebol.

4.2 Y **Dyfarniad Bwriadedig** yw'r dyfarniad a enwir sy'n cael ei ddilyn yn rhan o'r rhaglen astudio sydd wedi'i chofrestru. Dyfarniad amgen cymeradwy yw'r **Dyfarniad Ymadael (Atodol)** yw Dyfarniad Ymadael. Gellir ei ddyfarnu os nad yw myfyriwr wedi cyflawni gofynion llawn y dyfarniad a fwriadwyd, ond ei fod wedi cyflawni gofynion credyd digonol ar gyfer dyfarniad amgen sydd ar gael ar ei raglen astudio.

5. Dosbarthiad Dyfarniadau

5.1 Y marc terfynol a ddefnyddir i ddosbarthu graddau yw cyfartaledd cyfunol marciau'r modiwl (wedi'u cyfrifo'n unol â rheoliadau penodedig y modiwl) gan gyfrannu at y dyfarniad terfynol, wedi ei bwysoli'n ôl y rheol dosbarthiad ar gyfer y rhaglen a statws credyd y modiwlau a gyfrifwyd, wedi eu talgrynnu a'u cofnodi fel rhif cyfan.

5.2 Yn achos pob rhaglen, bydd un o'r rheolau dosbarthiad isod yn cael ei bennu i'w ddefnyddio i gyfrifo'r marc terfynol.

Rhaglenni i israddedigion

Rhaglenni (Gradd Ymsang) 1 Flwyddyn a lle mae myfyrwyr yn trosglwyddo i Brifysgol Caerdydd yn uniongyrchol i flwyddyn olaf graddau israddedig, naill ai drwy gytundebau mynegiant gyda sefydliadau eraill neu'n unigol drwy gael mynediad gyda statws uwch.

Rheol 1	
Lefel	Pwysoliad
6	100%

Rhaglenni 3 blynedd

Naill ai:

Rheol 2	
Lefel	Pwysoliad
5	30%
6	70%

Neu:

Rheol 3	
Lefel	Pwysoliad
5	40%
6	60%

Rhaglenni Meistr 4 blynedd integredig

Rheol 4	
Lefel	Pwysoliad
5	20%
6	30%
7	50%

Rhaglenni 4 blynedd lle mae blwyddyn 3 yn flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Broffesiynol a/neu flwyddyn dramor.

Naill ai:

Rheol 5	
Lefel	Pwysoliad
5	20%
Blwyddyn E/PL	10%
6	70%

Neu:

Rheol 6	
Lefel	Pwysoliad
5	30%
Blwyddyn E/PL	10%
6	60%

Rhaglenni Meistr Integredig 5 mlynedd lle mae blwyddyn 3 neu blwyddyn 4 yn flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Broffesiynol a/neu Flwyddyn Dramor:

Naill ai:

Rheol 7	
Lefel	Pwysoliad
5	10%
6	30%
Blwyddyn E/PL	10%
7	50%

Neu:

Rheol 8	
Lefel	Pwysoliad
5	10%
Blwyddyn E/PL	10%
6	30%
7	50%

Lle mae rhaglenni'n cynnig modiwlau lefel 6 ym mlwyddyn 2, bydd y pwysoliad lefel 5 yn cael ei weithredu i fodiwlau a ddilynir ym mlwyddyn 2.

Rhaglenni sy'n arwain at **ddyfarniad targed** Diploma Addysg Uwch:

Rheol 9	
Lefel	Pwysoliad
5 neu uwch	100%

Dyfarniadau Meistr

Rheol 1			Rheol 2	
	Pwysoliad			Pwysoliad
Modiwlau a addysgir	2/3 (66.6̇%)		Modiwlau a addysgir	1/2 (50%)
Cam Gradd Meistr	1/3 (33.3̇%)		Cam Gradd Meistr	1/2 (50%)

Rheol 3 (rhaglenni sy'n cynnwys Blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Ddysgu Proffesiynol (h.y. blwyddyn allan)	
	Pwysoliad
Modiwlau a addysgir	9/20 (45%)
Blwyddyn allan	1/10 (10%)
Cam Gradd Meistr	9/20 (45%)

Rheol 4 (Rhaglenni MBA)	
	Pwysoliad
Modiwlau a addysgir	5/6 (83.3̇%)
Cam Gradd Meistr	1/6 (16.6̇%)

Rheol 5 (Rhaglenni sy'n cynnwys Blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Ddysgu Proffesiynol h.y. blwyddyn allan)	
	Pwysoliad
Modiwlau a addysgir	60%
Blwyddyn allan	10%
Cam Gradd Meistr	30%

Rheol 6 (rhaglenni 1 cam)	
	Pwysoliad
Cam	100%

Rheol 7 1 (rhaglenni 1 cam sy'n cynnwys Blwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Ddysgu Proffesiynol h.y. blwyddyn allan)	
	Pwysoliad
Addysgir a thraethawd/modiwlau prosiect	90%

Blwyddyn allan	10%

5.3 Bydd y dosbarthiad cyffredinol ar gyfer myfyriwr yn cael ei bennu drwy gymhwyso'r marc terfynol fel y nodir isod:

Gradd Baglor Anrhydedd a Gradd Meistr Integredig

Marc Terfynol	**Dosbarthiad Graddau**
70% +	Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
60%<70%	Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1)
50%<60%	Anrhydedd Ail Ddosbarth, isadran II (2:2)
40%<50%	Anrhydedd Trydydd Dosbarth

Dyfarniadau a fwriadwyd o Ddiploma Addysg Uwch, Tystysgrif Raddedig, Diploma Graddedig, Gradd Meistr, Diploma Ôl-raddedig, Tystysgrif Ôl-raddedig

Marc Terfynol	**Dosbarthiad Graddau**
70% +	Rhagoriaeth
60%<70%	Teilyngdod

Os yw myfyriwr yn gymwys i gael dyfarniad nad yw wedi'i ddosbarthu, bydd yn cael ei ddynodi fel 'Pasio'.

5.4 Nid oes dosbarthiad ar gael ar gyfer y dyfarniadau canlynol:

Tystysgrif Addysg Uwch
Dyfarniadau Ymadael Diploma Addysg Uwch.

5.5 Yn ogystal â'r gofynion yn 5.3 uchod:

Ar gyfer Rhaglenni (Gradd Ymsang) 1 Flwyddyn
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 68% neu 69% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar Lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 60 credyd.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1) i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 58% neu 59% ar yr amod eu bod wedi

cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 sy'n werth o leiaf 60 credyd.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran II (2:2) i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 48% neu 49% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 50% neu ragor mewn modiwlau ar lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 60 credyd.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 38% neu 39% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 40% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 60 credyd.
Ar gyfer rhaglenni 3 blynedd
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68% neu 69% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58% neu 59% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran II (2:2) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48% neu 49% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 50% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar Lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 38% neu 39% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 40% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 sy'n werth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
Yn achos rhaglenni 4 blynedd lle mae blwyddyn 3 yn flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad Proffesiynol a/neu Ddysgu Proffesiynol neu flwyddyn dramor
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68% neu 69% yn amodol ar y canlynol: - eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 (heb gynnwys blwyddyn (E/PL) sy'n werth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar Lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58% neu 59% yn amodol ar y canlynol:

- eu bod wedi cael marc modiwl 2:1 o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 (heb gynnwys blwyddyn (E/PL) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran II (2:2) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48% neu 49% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 50% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 (heb gynnwys blwyddyn (E/PL) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 38% neu 39% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 40% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 5 neu lefel 6 (heb gynnwys blwyddyn (E/PL) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 6.
Yn achos rhaglenni Meistr integredig 4 blynedd
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68% neu 69% yn amodol ar y canlynol: - eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58% neu 59% yn amodol ar y canlynol: - eu bod wedi cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran II (2:2) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48% neu 49% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 50% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 38% neu 39% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 40% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
Yn achos rhaglenni 5 mlynedd lle mae blwyddyn 3 neu flwyddyn 4 yn flwyddyn o Ddysgu trwy Brofiad a/neu Broffesiynol neu Flwyddyn Dramor
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68% neu 69% yn amodol ar y canlynol: - eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 (heb gynnwys flwyddyn E/PL neu flwyddyn dramor) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a**

- bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran I (2:1) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58% neu 59% yn amodol ar y canlynol: - eu bod wedi cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 (heb gynnwys blwyddyn E/PL neu flwyddyn dramor) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth, Isadran II (2:2) i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48% neu 49% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 50% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 (heb gynnwys blwyddyn (E/PL) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
• Dyfernir Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 38% neu 39% ar yr amod: - eu bod wedi cael marc modiwl o 40% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 6 neu lefel 7 (heb gynnwys blwyddyn E/PL neu flwyddyn dramor) gwerth hyd at o leiaf 120 credyd; **a** - bod o leiaf 60 o'r credydau hyn wedi'u cyflawni ar lefel 7.
Ar gyfer Gradd Meistr:
• Dyfernir dosbarthiad Rhagoriaeth i fyfyrwyr sy'n ennill Marc Terfynol o 68% neu 69% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 7 sy'n werth hyd at o leiaf 90 credyd.
• Dyfernir dosbarthiad teilyngdod i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 58% neu 59% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 7 sy'n werth hyd at o leiaf 90 credyd.
Ar gyfer Diploma Ôl-raddedig
• Dyfernir dosbarthiad Rhagoriaeth i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 68% neu 69% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 70% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 7 sy'n werth hyd at o leiaf 60 credyd.
• Dyfernir dosbarthiad Teilyngdod i fyfyrwyr sy'n ennill marc terfynol o 58% neu 59% ar yr amod eu bod wedi cael marc modiwl o 60% neu fwy mewn modiwlau ar lefel 7 sy'n werth hyd at o leiaf 60 credyd.

Rheoliadau ar gyfer Meistr Ymchwil (MRes)

1. CYFFREDINOL

1.1 Bydd Rheoliadau'r Senedd ar gyfer Rhaglenni Modiwl a Addysgir yn berthnasol i Raglenni MRes oni nodir yn wahanol.

2. MODIWLAU

2.1 Bydd Modiwl Traethawd Hir ar gyfer Rhaglen MRes yn gyfwerth ag o leiaf 90 Credyd, a dim mwy na 120 Credyd, ar Lefel 7.

2.2 Ar gyfer rhaglenni MRes, gellir disodli 'Traethawd Ymchwil' traddodiadol â fformat amgen (gydag allbynnau unigol neu luosog i'w hasesu) sy'n cyflwyno canlyniadau ymchwil annibynnol.

Lle defnyddir fformat Traethawd Hir traddodiadol fel un o ofynion Rhaglen MRes, cyflwynir y gwaith wedi'i rwymo, a bydd uchafswm nifer y geiriau yn unol â'r canlynol:

Traethawd Hir 90 Credyd	30,000 o eiriau
Traethawd Hir 100 Credyd	33,000 o eiriau
Traethawd Hir 110 Credyd	37,000 o eiriau
Traethawd Hir 120 Credyd	40,000 o eiriau

3. STRWYTHUR

3.1 Oni chymeradwyir fel eithriad gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, bydd pob Rhaglen sy'n arwain at Radd MRes yn cael ei rhannu'n ddwy fel a ganlyn:

Cam Tystysgrif Ôl-raddedig;

Gradd Meistr (MRes).

Bydd strwythur Rhaglenni MRes yn cael ei amlinellu yn y Wybodaeth am y Rhaglen. Fan leiaf, bydd y strwythur yn glynu wrth y gofynion canlynol:

3.1.1 bydd Rhaglen modiwl sy'n arwain at ddyfarniad MRes yn cynnwys Modiwlau gwerth 180 Credyd o leiaf ar Lefel 7, a fydd yn cynnwys Traethawd Hir neu allbynnau ymchwil cyfatebol gwerth 90 Credyd o leiaf ar Lefel 7;

3.1.2 ni chaniateir ac ni fydd yn ofynnol i unrhyw fyfyriwr ddilyn a/neu gael ei asesu mewn Modiwlau sy'n werth:

mwy na 120 Credyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd; na
mwy na 180 Credyd mewn unrhyw flwyddyn galendr.

3.2 Bydd Gwybodaeth y Rhaglen yn pennu pob Dyfarniad Pwynt Gadael sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen a bydd yn amodi'r Modiwlau sy'n cyfrannu at bob dyfarniad.

4 DILYNIANT

4.1 I symud ymlaen o Dystysgrif Ôl-raddedig i Radd Meistr Rhaglen MRes, rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r canlynol:

- y Credydau a nodir isod;
- Credyd mewn unrhyw Fodiwlau Gofynnol; a
- lle bo'n berthnasol, y cymwyseddau proffesiynol gofynnol.

Ar ddiwedd Cam y Tystysgrif	Bydd myfyrwyr y dyfarnwyd 60 Credyd iddynt ar Lefel 7: • NAILL AI yn symud ymlaen i gam Meistr y Rhaglen MRes; • NEU dyfernir Tystysgrif Ôl-raddedig iddynt

4.2 Gall myfyriwr dyfarniad MRes, gyda chymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol, ddechrau gwaith paratoi dan oruchwyliaeth neu heb oruchwyliaeth ar gyfer y Traethawd Hir cyn cwblhau Tystysgrif Ôl-raddedig, ond ni chaiff gyflwyno gwaith i'w asesu oni bai a hyd nes ei fod yn pasio cam Tystysgrif Ôl-raddedig y Rhaglen.

5. DYFARNIAD

5.1 Yn amodol ar y cyfryw ofynion ychwanegol a ddarparwyd yng Ngwybodaeth y Rhaglen, bydd myfyriwr sydd wedi cyflawni lleiafswm o Gredydau fel y cânt eu darparu yn y tabl canlynol, gan gynnwys Credyd mewn unrhyw Fodiwlau Gofynnol, yn gymwys i gael y Dyfarniad a ddangosir.

Tystysgrif Ôl-raddedig	60 Credyd ar Lefel 7
Gradd Meistr	180 Credyd ar Lefel 7

6. DOSBARTHU DYFARNIADAU

6.1 Bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol lle mae myfyrwyr yn gymwys i gael dyfarniad MRes fel y nodir yn 5. uchod. At ddibenion dosbarthiad dyfarniadau MRes, bydd Marciau Modiwlau'n cael eu cyfuno a'u pwysoli yn ôl eu Pwysoliad Credyd i roi Marc Terfynol. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am Set y Dosbarthiad sy'n berthnasol i'w Rhaglen drwy Wybodaeth y Rhaglen a gyhoeddir iddynt.

Er mwyn cael dyfarniad Gradd MRes gyda Rhagoriaeth, rhaid i fyfyriwr:

- gyflawni Marc Terfynol o 70% neu uwch, A
- chyflawni marc o 70% o leiaf yn ei Draethawd Hir, A
- chyflawni marc o 65% o leiaf ar gyfartaledd yn y Modiwlau a addysgir.

Er mwyn cael dyfarniad Gradd MRes gyda Theilyngdod, rhaid i fyfyriwr:

- gyflawni Marc Terfynol o 60% neu uwch, A
- chyflawni marc o 60% o leiaf yn ei Draethawd Hir, A
- chyflawni marc cyfartalog o 55% o leiaf yn y Modiwlau a addysgir.

Rheoliadau Modiwlau

1. Mae modiwl yn gydran benodol o ddysgu gydag uned ddiffiniedig o gredyd a lefel credyd.

2. Bydd modiwlau'n cael eu cyflwyno mewn unedau o 10 credyd, 15 credyd (rhaglenni ôl-raddedig yn unig), 20 credyd, 30 credyd neu 40 credyd. Ni fydd dim modiwl yn fwy na modiwl 40 credyd nac yn para mwy nag un sesiwn, heblaw mewn prosiectau a thraethodau a chyfnodau o hyfforddiant proffesiynol/diwydiannol neu astudio/profiad gwaith dramor.

3. Bydd disgrifiad o fodiwl yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

    - Lefel CFQW/FHEQ ac oriau dysgu dan arweiniad,
    - deilliannau dysgu,
    - cynnwys y maes llafur,
    - sut bydd y modiwl yn cael ei asesu, gan gynnwys y pwysoli ar gyfer pob elfen o asesu,
    - cyfleoedd ar gyfer asesu ffurfiannol,
    - sut bydd y modiwl yn cael ei asesu

4. Gall modiwlau gynnwys y dynodiadau canlynol:

    Modiwl Cyn-ofynnol: Modiwl y mae'n rhaid i bob myfyriwr sydd wedi eu cofrestru ar raglen benodol ei astudio ar yr un pryd.

    Modiwl Rhagflaenol: Modiwl, sy'n cynnwys oriau astudio y bydd angen i fyfyriwr fod wedi'i gwblhau er mwyn gallu symud ymlaen i fodiwl penodol dilynol, ond sydd heb gael credyd ar ei gyfer o reidrwydd, cyn dechrau'r modiwl dilynol.

    Modiwl Rhagofynnol: Modiwl y bydd yn rhaid i fyfyriwr fod wedi derbyn credyd ar ei gyfer er mwyn symud ymlaen i fodiwl penodol dilynol.

    Ni chaiff unrhyw fodiwl sydd wedi'i amserlenni ar gyfer Semester yr Hydref fod yn rhagofyniad ar gyfer cael mynediad ar fodiwl sydd wedi'i amserlenni ar gyfer Semester y Gwanwyn sy'n dilyn yn union wedi hynny.

    Marc y Modiwl

5. Bydd y marc ar gyfer modiwl unigol yn cael ei gyfrifo'n ôl y pwysoliadau ar gyfer asesiad crynodol pob elfen a bennir yn y disgrifiad modiwl, wedi eu talgrynnu a'u cofnodi fel rhif cyfan. Bydd y marciau ar gyfer pob elfen o asesiad crynodol yn rhifau cyfain rhwng 0 a 100.

6. Y marc isaf i basio mewn modiwl yw:

.1 40% ar gyfer modiwlau lefel 3, 4, 5 a 6;

.2 50% ar gyfer modiwlau lefel 7 ac 8[1];

[1] yn achos myfyrwyr sy'n astudio modiwlau lefel 7 fel rhan o rhaglen Meistr Integredig a ddechreuodd cyn 2019/20, 40% fydd y marc pasio.

7. Bydd myfyriwr sy'n cael ei ailasesu mewn modiwl, sy'n ailsefyll, neu'n ailadrodd fel myfyriwr allanol ac sy'n pasio asesiad a fethwyd yn flaenorol, yn cael credyd o isafswm marc **asesu** am basio; os yw ailasesiad drwy asesiad synoptig, bydd marc y **modiwl** yn cael ei gapio ar y marc pasio isaf.

8. Os yw myfyriwr yn ailadrodd modiwl fel myfyriwr mewnol, bydd marc y **modiwl** yn cael ei gapio ar y marc pasio isaf.

Cynigion mewn modiwl

9. Yn amodol ar allu parhau ar raglen:

.1 caniateir tri chynnig i fyfyriwr israddedig ennill credyd mewn modiwl (cynnig cyntaf a dau gynnig ailasesiad). Caiff hwn ei gynnal fel arfer yn ystod y cyfnod ailsefyll a/neu drwy ailadrodd y sesiwn academaidd nesaf).

.2 caniateir dau gynnig i fyfyriwr ôl-raddedig i ennill credyd mewn modiwl (cynnig cyntaf a chynnig ailasesiad)

10. Ni chaniateir i fyfyriwr y dyfarnwyd credyd iddo mewn modiwl gael ei ailasesu yn y modiwl hwnnw i gael marc uwch.

Rhaglenni anfodiwlaidd

Rheoliadau MB BCh

1 CYFFREDINOL

1.1 Rhaid darllen y Rheoliadau hyn ar y cyd â:

- Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd;
- Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi;
- Rheoliadau'r Rhaglen ar gyfer y Flwyddyn Ragarweiniol.
- Canllaw Asesu a Chynnydd Blwyddyn MB BCh

1.2 Diffiniadau o dermau:

Graddau	Graddau Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth (MB BCh)
Uned(au) Astudio	Elfen adnabyddadwy ar wahân o'r dysgu.
Uned(au) Asesu	Elfen adnabyddadwy ar wahân o'r asesiad.
Profion cynnydd	Math o asesiad rhaglennol, lle defnyddir asesiad arhydol i adeiladu lluniau o gynnydd dysgwyr o fewn ac ar draws blynyddoedd academaidd.
Dull Rhaglennol	Dull sy'n defnyddio egwyddorion asesu rhaglennol, lle mae penderfyniadau am ganlyniadau academaidd yn cael eu gwneud ar sail perfformiad ar draws ac o fewn unedau asesu.

2 GOFYNION MYNEDIAD

2.1 Bydd rhaid i ymgeiswyr am fynediad i'r Rhaglenni 4-blynedd, 5-mlynedd a Rhaglenni 6-blynedd (Gweler Tabl 1) fodloni Gofynion Mynediad Cyffredinol Prifysgol Caerdydd ac, yn ychwanegol, bodloni gofynion Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd.

2.2 Gorwedd y penderfyniad ynghylch a fydd ymgeisydd yn cael ei dderbyn i'r Rhaglen MB BCh gyda Phennaeth yr Ysgol Deintyddiaeth.

Mynediad gydag Uwch-sefyllfa:

2.3 Bydd gan Bennaeth yr Ysgol Meddygaeth yr awdurdod i gymeradwyo mynediad gyda statws uwch i Flwyddyn astudio a bennir. Caiff cymeradwyaeth o'r fath ei gwneud ar sail un neu ragor o gyfnodau astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn lle cyfnod penodedig o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd lle bydd y cyfnod penodedig yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i ddim llai nag un sesiwn o astudio amser llawn.

2.4 Wrth bennu dosbarth y dyfarniad bydd y Bwrdd Arholi'n cynnwys yr Unedau Astudio perthnasol hynny y mae'r myfyriwr wedi rhoi cynnig arnynt fel myfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol yn unig.

2.5 Efallai yr ymgymerir â gwiriad unigol o'r cymwysterau academaidd a enillwyd cyn derbyn, naill ai yn ystod y broses dderbyn neu ar ôl cofrestru yn fyfyriwr. Fel rhan o'r cadarnhau hwn, efallai y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr/myfyrwyr ddarparu ardystiad i gadarnhau eu cymwysterau academaidd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu i gymhwyso'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr os na chaiff ardystiad eglur a chyflawn ei ddarparu ar gais ar gyfer y cyfryw wiriad.

3. STRWYTHUR Y RHAGLEN

Tabl 1: Amlinelliad o'r Rhaglen MB BCh

Rhaglen 6-blynedd (A104)	**Rhaglen 5-blynedd (A100)**	**Rhaglen 4-blynedd (Mynediad i Raddedigion) (A101)**
Blwyddyn Ragarweiniol		
Blwyddyn 1	Blwyddyn 1	
Blwyddyn 2	Blwyddyn 2	Blwyddyn 1
Blwyddyn 3	Blwyddyn 3	Blwyddyn 2
Blwyddyn 4	Blwyddyn 4	Blwyddyn 3
Blwyddyn 5	Blwyddyn 5	Blwyddyn 4

3.1 Bydd hon yn Rhaglen amser llawn.

3.2 Gellir eithrio ymgeiswyr am fynediad i'r Rhaglen sydd wedi cyflawni safon foddhaol, fel y'i pennir gan y Bwrdd Astudiaethau Meddygaeth, rhag unrhyw elfen neu holl elfennau'r Flwyddyn Ragarweiniol.

3.3 Caiff asesiadau ac arholiadau pob Blwyddyn astudio eu grwpio'n Unedau Asesu a gaiff eu hystyried gan y Bwrdd Arholi Priodol ar bwyntiau a bennir o fewn pob Blwyddyn yn y rhaglen.

3.4 Rhaid i'r holl ymgeiswyr fynychu pob Uned Astudio er boddhad y Brifysgol a'u cyflwyno eu hunain, a chyflawni safon foddhaol, yn asesiadau ac arholiadau'r Brifysgol. Gellir eithrio ymgeiswyr sy'n methu â chyflawni'r gofynion hyn o'r Rhaglen naill ai'n barhaol neu am gyfnod, neu gall fod gofyn iddynt ailadrodd Uned(au) Astudio neu Uned(au) Asesu'r Rhaglen.

3.5 Dyma drefn y Rhaglen:

Bydd y **Flwyddyn Ragarweiniol** fodiwlaidd yn para Dau Semester.

Bydd **Blwyddyn 1** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 30 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 4 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 2 (Blwyddyn 1 y Rhaglen 4 blynedd)** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 30 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 4 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 3 (Blwyddyn 2 y Rhaglen 4 blynedd)** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 45 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 6 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 4 (Blwyddyn 3 o Rhaglen 4 blynedd)** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 30 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 4 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 5 (Blwyddyn 4 o'r Rhaglen 4-blynedd)** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 40 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 7 FFCCHC.

3.6 Caiff y Rhaglen ei chynnal yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd ac mewn ysbytai, meddygfeydd a sefydliadau gofal iechyd eraill a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd Astudiaethau Meddygol. Rhaid i ymgeiswyr fynychu practis ysbyty neu ddilyn astudiaethau clinigol cymeradwy eraill yn ystod y rhaglen.

4. TERFYN AMSER

4.1 Fel arfer, caiff myfyriwr hyd at ddwy flynedd y tu hwnt i hyd arferol y Rhaglen fel y'i nodir yn y Rheoliadau Seneddol hyn i gwblhau'r Rhaglen. Caiff hyn ei ymestyn i dair blynedd ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn gradd ymsang. Dim ond y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd sy'n gallu estyn y cyfnod hwn a hynny dan amgylchiadau eithriadol ar argymhelliad y Bwrdd Astudiaethau Meddygol.

4.2 Ni chaniateir i fyfyrwyr ailadrodd mwy nag un flwyddyn o'r Rhaglen yn dilyn methiant academaidd.

5. RHAGLEN

5.1 Caiff yr Unedau Astudio, rheolau asesu, dilyniant a dyfarnu a gofynion yn ymwneud â chymhwysedd clinigol eu cadarnhau gan y Bwrdd Astudiaethau Meddygol.

5.2 Gall myfyrwyr sy'n dilyn Rhaglenni 5-mlynedd a 6-blynedd amharu ar eu hastudiaethau er mwyn ymgymryd â gradd ymsang os ydynt wedi llwyddo i gwblhau Blwyddyn 2. Rhoddir un cyfle i fyfyrwyr gwblhau gradd ymsang. Rhaid i'r myfyrwyr sy'n gwneud hyn ddychwelyd i'r Rhaglen ar ôl un blwyddyn academaidd.

6. ASESU

6.1 Ymgymerir ag asesu yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd ar gyfer Rhaglenni a Addysgir.

6.2 Pennir dull asesu pob Uned Astudio gan y Bwrdd Astudiaethau Meddygol a'u nodi yng nogfennau gwybodaeth y Rhaglen.

6.3 Rhaid i'r Bwrdd Arholi perthnasol benderfynu ar y marc a gafwyd gan bob myfyriwr unigol ym mhob Uned Astudio unigol.

6.4 Y marc pasio isaf ar gyfer pob Uned Asesu, gan gynnwys Profion Cynnydd Blwyddyn Olaf, fydd 50% fel arfer ar ôl i'r gosodiad safonol gael ei gymhwyso.

6.5 Ar gyfer Profion Cynnydd y Flwyddyn nad ydynt yn Derfynol, defnyddir dull rhaglennol i bennu canlyniadau, fel y nodir yn nogfennaeth y Rhaglen (Canllaw Asesu a Cynnydd).

6.6 Bydd myfyriwr sy'n pasio Uned Astudio neu Asesiad a'i fethodd yn flaenorol, fel arfer yn ennill y marc isaf er mwyn pasio.

6.7 Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n methu unrhyw rai o Unedau Asesu'r Rhaglen (fel y'i pennir gan y Bwrdd Astudiaethau Meddygol a'u nodi yn y cynllun marcio crynodol yng nogfennau gwybodaeth y Rhaglen) ailgyflwyno eu hunain i gael eu harholi neu eu hasesu ar y cyfle nesaf, ar ôl dilyn unrhyw gyfarwyddyd pellach a bennir gan y Bwrdd Arholi. Fel arfer ni chaniateir i ymgeiswyr o'r fath gael mwy nag un cynnig pellach ar yr Uned(au) Asesu.

6.8 Ar gyfer Profion Cynnydd y Flwyddyn nad ydynt yn Derfynol, mae'r dull rhaglennu o asesu yn golygu y darperir cyfleoedd lluosog ym mhob blwyddyn academaidd i ennill gradd basio. Ni fydd cyfleoedd pellach i ailasesu Profion Cynnydd ar gael oni bai bod gofyn i fyfyriwr ailadrodd blwyddyn (gweler 7.1.3 isod).

7. DILYNIANT

7.1 Ar ddiwedd pob Blwyddyn o'r Rhaglen ac yn dilyn digwyddiadau ailsefyll (lle bo hynny'n berthnasol), ac yn amodol ar ddarpariaethau 6.7 a 6.8, bydd y Bwrdd Arholi'n ystyried cynnydd pob myfyriwr ym mhob Uned Astudio neu Asesiad, gan gynnwys Asesiadau Ymddygiad Proffesiynol, ac yn pennu:

7.1.1 y caiff fynd ymlaen i Flwyddyn nesaf y Rhaglen neu fod yn gymwys am Ddyfarniad Pwynt Ymadael;

7.1.2 y caiff geisio adennill un neu fwy o Unedau Asesu a fethwyd cyn dechrau Blwyddyn nesaf y Rhaglen;

7.1.3 nad yw'n gymwys i symud ymlaen i Flwyddyn nesaf y Rhaglen nac yn gymwys i dderbyn dyfarniad a rhaid ailadrodd y flwyddyn yn ei chyfanrwydd fel myfyriwr mewnol.

7.1.4 ei fod yn gorfod tynnu'n ôl o'r rhaglen.

7.2 Ni chaniateir i fyfyriwr barhau i ddilyn y MB BCh oni bai bod modd iddo/iddi gwblhau'r Rhaglen ymhen y terfyn amser cymeradwy. Yn ogystal, bydd myfyrwyr sydd wedi methu un asesiad neu ragor ar ddau achlysur fel arfer yn gorfod tynnu'n ôl o'r Rhaglen.

7.3 Os caniateir i fyfyriwr geisio adennill un neu fwy o Unedau Astudio a fethwyd cyn dechrau'r Flwyddyn nesaf yn y Rhaglen, bydd y Bwrdd Arholi'n cyfarfod unwaith eto i ystyried perfformiad pob myfyriwr yn yr asesiadau hyn a bydd yn pennu statws y myfyriwr yn unol â 7.1 a 7.2 uchod.

8. STRWYTHUR A CHYNNWYS AILASESIADAU

8.1 Os yw'n ofynnol i fyfyriwr gael ei ailasesu am un Uned Astudio neu fwy cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, oni bai fod y Bwrdd Arholi'n pennu

nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i'r ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur â'r Asesiad ar adeg y methiant cychwynnol.

8.1.1 Ar gyfer ailasesiad o fewn un flwyddyn i'r methiant cychwynnol, oni bai fod y Bwrdd Arholi'n pennu nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i'r ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur â'r Asesiad ar adeg y methiant cychwynnol. Ym mhob achos bydd y Bwrdd Arholi'n sicrhau bod adfer methiant yn cael ei wneud naill ai drwy ailasesu gan ddefnyddio'r un dull(iau) neu trwy ddull(iau) y bwriedir iddynt ymdrin â'r holl ganlyniadau dysgu a fethwyd.

8.1.2 Ar gyfer ailasesu y tu hwnt i un flwyddyn o'r methiant cychwynnol, yn ôl disgresiwn Bwrdd yr Ysgol, gall yr ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur a addysgir i'r holl fyfyrwyr mewnol ar adeg yr ailasesiad.

8.2 Os caniateir i fyfyriwr ailadrodd y Flwyddyn gyfan fel myfyriwr mewnol fel y darperir yn 7.1.3 uchod, bydd gan yr ailasesiad yr un strwythur a bydd yn seiliedig ar y maes llafur a addysgir i'r holl fyfyrwyr ar adeg yr ailasesiad.

8.3 Os, dan 8.1.2 uchod, yw'n ofynnol i fyfyriwr gael ei ailasesu a bod strwythur yr asesiad yn wahanol i'r hyn yr oedd ar adeg y methiant cychwynnol a/neu os yw'r ailasesiad yn seiliedig ar faes llafur gwahanol, bydd y Pennaeth Ysgol perthnasol yn gwneud y trefniadau canlynol:

8.3.1 hysbysu'r myfyriwr am newidiadau yn strwythur yr asesiad a chynnwys y maes llafur; a

8.3.2 cynnig cyfle i'r myfyriwr, ar gost briodol, fynychu rhaglen addas o ddosbarthiadau a drefnir.

8.4 Bydd myfyriwr sy'n pasio Uned a fethodd yn flaenorol yn ennill marciau'n unol â 6.6 uchod.

9. DARPARIAETHAU AR GYFER DYFARNIADAU YMADAEL

9.1 Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir argymell myfyriwr nad yw'n cwblhau'r Rhaglen MB BCh yn llwyddiannus am un o'r dyfarniadau canlynol:

9.1.1 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau **Blwyddyn 1** (sy'n cyfateb i 120 o Gredydau ar Lefel 4 FFCCHC neu uwch) yn gymwys am ddyfarniad **Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol mewn Gwyddor Meddygol** sy'n ddyfarniad di-ddosbarth.

9.1.2 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau **Blwyddyn 2 (Blwyddyn 1 o'r Rhaglen 4-blynedd)** - sy'n cyfateb i 240 o Gredydau gan gynnwys o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 4 FFCCHC neu uwch ac o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 5 FFCCHC neu uwch - yn gymwys am ddyfarniad **Diploma Addysg Uwch y Brifysgol mewn Gwyddor Meddygol** sy'n ddyfarniad di-ddosbarth.

9.1.3 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau **Blwyddyn 3 (Blwyddyn 2 y Rhaglen 4 blynedd)** - sy'n cyfateb i 360 o Gredydau gan gynnwys o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 4 FFCCHC neu uwch, o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 5 FFCCHC, ac o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 6 FFCCHC neu uwch - yn gymwys am ddyfarniad **Baglor mewn Gwyddor Meddygol (BMedSc) gydag Anrhydedd.** Pennir dyfarniad y wobr yn unol â'r meini prawf a nodir yn 11.

9.2 Yn ogystal â 9.1.3, bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau **Blwyddyn 4 (Blwyddyn 3 o'r Rhaglen 4-blynedd)** - sy'n cyfateb i 480 o Gredydau gan gynnwys o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 4 FFCCHC neu uwch, o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 5 FFCCHC ac o leiaf 240 o Gredydau ar Lefel 6 FFCCHC neu uwch - yn gymwys am ddyfarniad Diploma **mewn Diploma i Raddedigion mewn Gwyddor Meddygol.** Pennir dyfarniad y wobr yn unol â'r meini prawf a nodir yn 11.

9.3 Ar ôl cael eu derbyn i un o'r dyfarniadau pwyntiau ymadael a nodir yn 9.1 uchod, ni fydd graddedigion bellach yn gymwys am ddyfarniad Gradd Baglor mewn Meddygaeth a Baglor Mewn Llawfeddygaeth.

10 DYFARNU GRADDAU

10.1 Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni gofynion y Rhaglen yn gymwys i ennill Gradd Baglor mewn Meddygaeth a Baglor Mewn Llawfeddygaeth.

10.2 Caiff Graddau Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth eu dosbarthu fel yr isod:

MB BCh gydag Anrhydedd
MB BCh gyda Chanmoliaeth
MB BCh

yn unol â'r meini prawf fel a nodir yn 11.

11 DOSBARTHIAD

MB BCh

11.1 Bydd y dosbarthiadau yn seiliedig ar berfformiad yn ystod y flwyddyn olaf ond un ac asesiadau'r flwyddyn olaf (fel y pennwyd gan Fwrdd Astudiaethau Meddygol ac a nodir yng nghynllun marcio Gwybodaeth y Rhaglen).

Caiff y myfyrwyr sydd wedi'u rhestru yn 10% uchaf o'r garfan eu dyfarnu â gradd MB BCh gydag Anrhydedd.

Caiff y myfyrwyr sydd wedi'u rhestru yn 11-20% uchaf y garfan eu dyfarnu â gradd MB BCh gyda Chanmoliaeth.

11.2 Cydnabyddir llwyddiant y myfyrwyr ym Mlynyddoedd 1-3 (Blynyddoedd 1-3 yn y Rhaglen 4-blynedd) drwy ddyfarnu gwobrau a thystysgrifau teilyngdod.

11.3 I fod yn gymwys ar gyfer graddau MB BCh gydag Anrhydedd neu Ganmoliaeth, mae'n rhaid bod myfyrwyr wedi cwblhau'r holl asesiadau gofynnol a nodir yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

BMedSci – dyfarniad pwynt gadael

11.4 Yn amodol ar bwynt 11.7 isod, bydd y dosbarthiad yn seiliedig ar berfformiad yn asesiadau Blwyddyn 3 (Blwyddyn 2 yn y rhaglen 4-blynedd) yn unig ac yn seiliedig ar y marc cyffredinol sy'n deillio o'r asesiadau a gwblhawyd yn ystod y Blynyddoedd hynny yn y Rhaglen yn unig.

11.5 Pennir dosbarthiad gan ddefnyddio'r gyfres ganlynol o reolau yn y lle cyntaf:

Anrhydedd dosbarth cyntaf	Marc terfynol o 70% neu uwch
Anrhydedd ail ddosbarth, isadran I (2:1)	Marc terfynol rhwng 60% a 69%
Anrhydedd ail ddosbarth, isadran II (2:2)	Marc terfynol rhwng 50% a 59%

11.6 Bydd myfyrwyr nad ydynt wedi cyflawni marc terfynol cyffredinol o 50% neu fwy, ond sydd wedi cyflawni o leiaf 50% yn gyffredinol yn y parth Gwyddorau yn gymwys i dderbyn Anrhydedd Trydydd Dosbarth.

11.7 BMedSci Rheol Eilaidd

Yn sgil yr uchod bydd y rheolau canlynol yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol sydd o fewn 2% i'r band uwch.

Dyfernir gradd dosbarth cyntaf i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68 neu 69 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 70 neu fwy ym Mlwyddyn 2 (Blwyddyn 1 yn y Rhaglen 4-blynedd).
Dyfernir 2:1 i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58 neu 59 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 60 neu fwy ym Mlwyddyn 2 (Blwyddyn 1 yn y Rhaglen 4-blynedd).
Dyfernir gradd trydydd dosbarth i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48 neu 49 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 50 neu fwy ym Mlwyddyn 2 (Blwyddyn 1 yn y Rhaglen 4-blynedd).

<u>Diploma Graddedig – dyfarniad pwynt gadael</u>

11.8 Yn amodol ar bwynt 11.11 isod, bydd y dosbarthiad yn seiliedig ar berfformiad yn asesiadau Blwyddyn 4 (Blwyddyn 3 yn y rhaglen 4-blynedd) yn unig ac yn seiliedig ar y marc cyffredinol sy'n deillio o'r asesiadau a gwblhawyd ym Mlwyddyn 4 (Blwyddyn 3 yn y Rhaglen 4-blynedd) o'r Rhaglen yn unig.

11.9 Pennir dosbarthiad gan ddefnyddio'r gyfres ganlynol o reolau yn y lle cyntaf:

Diploma Graddedig gyda Rhagoriaeth	Marc terfynol o 70% neu uwch
Diploma Graddedig gyda Theilyngdod	Marc terfynol rhwng 60% a 69%
Diploma Graddedig	Marc terfynol rhwng 50% a 59%

11.10 Bydd myfyrwyr nad ydynt wedi cyflawni marc terfynol cyffredinol o 50% neu fwy, ond sydd wedi cyflawni o leiaf 50% yn gyffredinol yn y parth Gwyddorau yn gymwys i dderbyn Diploma Graddedig.

11.11 Rheol Eilaidd Diploma Graddedig

Yn sgil yr uchod bydd y rheolau canlynol yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol sydd o fewn 2% i'r band uwch.

Dyfernir gradd Diploma Graddedig gyda Rhagoriaeth i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68 neu 69 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 70 neu fwy ym Mlwyddyn 3 (Blwyddyn 2 yn y Rhaglen 4-blynedd).
Dyfernir Diploma Graddedig gyda Theilyngdod i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58 neu 59 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 60 neu fwy ym Mlwyddyn 3 (Blwyddyn 2 yn y Rhaglen 4-blynedd).
Dyfernir Diploma Graddedig i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48 neu 49 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi llwyddo i gael marc o 50 neu fwy ym Mlwyddyn 3 (Blwyddyn 2 yn y Rhaglen 4-blynedd).

Rheoliadau BDS

1. CYFFREDINOL

1.1 Rhaid darllen y Rheoliadau hyn ar y cyd â:

- Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd;
- Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi;
- Rheoliadau'r Rhaglen ar gyfer y Flwyddyn Ragarweiniol.

1.2 Diffiniadau o dermau:

Uned(au) Astudio Elfen adnabyddadwy ar wahân i'r dysgu.

Uned(au) Asesu Elfen adnabyddadwy ar wahân i'r asesiad.

2. GOFYNION MYNEDIAD

2.1 Bydd rhaid i ymgeiswyr am fynediad fodloni Gofynion Mynediad Cyffredinol Prifysgol Caerdydd ac, yn ychwanegol, bodloni gofynion Ysgol Deintyddiaeth Prifysgol Caerdydd.

2.2 Pennaeth yr Ysgol Deintyddiaeth fydd yn penderfynu a fydd ymgeisydd yn cael ei dderbyn i'r Rhaglen BDS.

2.3 Bydd gan Bennaeth yr Ysgol Deintyddiaeth yr awdurdod i gymeradwyo mynediad gyda statws uwch i Flwyddyn astudio a bennir. Caiff cymeradwyaeth o'r fath ei gwneud ar sail un neu ragor o gyfnodau astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn lle cyfnod penodedig o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd lle bydd y cyfnod penodedig yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i ddim llai nag un sesiwn o astudio amser llawn.

2.4 Wrth bennu dosbarth y dyfarniad bydd y Bwrdd Arholi'n cynnwys yr Unedau Astudio perthnasol hynny y mae'r myfyriwr wedi rhoi cynnig arnynt fel myfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol yn unig.

2.5 Efallai yr ymgymerir â gwiriad unigol o'r cymwysterau academaidd a enillwyd cyn derbyn, naill ai yn ystod y broses dderbyn neu ar ôl cofrestru yn fyfyriwr. Fel rhan o'r gwirio hwn, efallai y gofynnir i geiswyr/myfyrwyr gyflwyno tystysgrifau i gadarnhau eu cymwysterau academaidd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu i gymhwyso'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr os na chaiff ardystiad eglur a chyflawn ei ddarparu ar gais ar gyfer y cyfryw wiriad.

3. STRWYTHUR Y RHAGLEN

Tabl 1: Amlinelliad o'r Rhaglen BDS

Rhaglen 6-blynedd (A204)	**Rhaglen 5-blynedd (A200)**
Blwyddyn Ragarweiniol	
Blwyddyn 1	Blwyddyn 1

Blwyddyn 2	Blwyddyn 2
Blwyddyn 3	Blwyddyn 3
Blwyddyn 4	Blwyddyn 4
Blwyddyn 5	Blwyddyn 5

3.1 Bydd hon yn Rhaglen amser llawn.

3.2 Gellir eithrio ymgeiswyr am fynediad i'r Rhaglen sydd wedi cyflawni safon foddhaol, fel y'i pennir gan Fwrdd Astudiaethau'r BDS, rhag unrhyw elfen neu holl elfennau'r Flwyddyn Ragarweiniol.

3.3 Caiff asesiadau ac arholiadau pob Blwyddyn astudio eu grwpio'n Unedau Asesu a gaiff eu hystyried gan y Bwrdd Arholi Priodol ar bwyntiau a bennir o fewn pob Blwyddyn yn y Rhaglen.

3.4 Rhaid i'r holl ymgeiswyr fynychu pob Uned Astudio er boddhad y Brifysgol a'u cyflwyno eu hunain, a chyflawni safon foddhaol, yn asesiadau ac arholiadau'r Brifysgol. Gellir eithrio ymgeiswyr sy'n methu â chyflawni'r gofynion hyn o'r Rhaglen naill ai'n barhaol neu am gyfnod, neu gall fod gofyn iddynt ailadrodd Uned(au) Astudio neu Uned(au) Asesu'r Rhaglen.

3.5 Bydd y Flwyddyn Ragarweiniol fodiwlaidd yn para Dau Semester.

Bydd **Blwyddyn 1** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 30 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 4 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 2** yn anfodiwlaidd ac o leiaf 45 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 5 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 3** yn anfodwilaidd ac o leiaf 45 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 6 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 4** yn anfodwilaidd ac o leiaf 45 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 6 FFCCHC neu uwch.

Bydd **Blwyddyn 5** yn anfodwilaidd ac o leiaf 40 wythnos o hyd, ac yn cyfateb i 120 o gredydau ar lefel 7 FFCCHC.

3.6 Caiff y Rhaglen ei chynnal yn Ysgol Deintyddiaeth Prifysgol Caerdydd ac mewn ysbytai, meddygfeydd a sefydliadau gofal iechyd eraill a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd Astudiaethau. Rhaid i ymgeiswyr fynychu practis ysbyty neu ddilyn astudiaethau clinigol cymeradwy eraill yn ystod y rhaglen.

4. TERFYN AMSER

4.1 Y terfyn amser i fyfyriwr gwblhau'r Rhaglen fel arfer fydd dim mwy na dwy flynedd y tu hwnt i hyd arferol y rhaglen fel y'i nodir yn y Rheoliadau Seneddol hyn. Gall y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd estyn y cyfnod hwn o dan amgylchiadau eithriadol ar argymhelliad y Bwrdd Astudiaethau.

4.2 Ni chaniateir i fyfyrwyr ailadrodd mwy nag un flwyddyn o'r Rhaglen yn dilyn methiant academaidd.

6. RHAGLEN

5.1 Caiff yr Unedau Astudio, rheolau asesu, dilyniant a dyfarnu a gofynion yn ymwneud â chymhwysedd clinigol eu cadarnhau gan y Bwrdd Astudiaethau.

6. ASESU

6.1 Ymgymerir ag asesu yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd ar gyfer Rhaglenni a Addysgir

6.2 Pennir dull asesu pob Uned Astudio gan y Bwrdd Astudiaethau a'u nodi yng Ngwybodaeth y Rhaglen

6.3 Fel arfer, y marc pasio isaf ar gyfer pob Uned Astudio fydd 50% ar ôl gosod y safonau.

6.4 Bydd myfyriwr sy'n pasio Uned Astudio y methodd yn flaenorol yn ennill y marc isaf er mwyn pasio.

6.5 Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n methu unrhyw rai o Unedau Asesu'r Rhaglen (fel y'i pennir gan y Bwrdd Astudiaethau a'u nodi yn y cynllun marcio crynodol yng Ngwybodaeth y Rhaglen) eu hailgyflwyno eu hunain i'w harholi neu asesu ar y cyfle nesaf, ar ôl dilyn unrhyw gyfarwyddyd pellach a bennir gan y Bwrdd Arholi. Fel arfer ni chaniateir i ymgeiswyr o'r fath ymgeisio'r Uned(au) Asesu ar fwy na dau achlysur pellach.

7. DILYNIANT

7.1 Ar ddiwedd pob Blwyddyn o'r Rhaglen ac yn dilyn digwyddiadau ailsefyll ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau 6.5, bydd y Bwrdd Arholi'n ystyried cynnydd pob myfyriwr ym mhob Uned Astudio, gan gynnwys Asesiadau Ymddygiad Proffesiynol, ac yn pennu:

7.1.1 y caiff fynd ymlaen i Flwyddyn nesaf y Rhaglen neu fod yn gymwys am Ddyfarniad Pwynt Ymadael;

7.1.2 y caiff geisio adennill un neu fwy o Unedau Asesu a fethwyd cyn dechrau Blwyddyn nesaf y Rhaglen;

7.1.3 nad yw'n gymwys i symud ymlaen i Flwyddyn nesaf y Rhaglen nac yn gymwys i dderbyn dyfarniad a rhaid ailadrodd y flwyddyn yn ei chyfanrwydd fel myfyriwr mewnol.

7.1.4 ei bod yn ofynnol i'r myfyrwyr dynnu'n ôl o'r Rhaglen.

7.2 Ni chaniateir i fyfyriwr barhau i ddilyn y BDS oni bai ei bod yn bosibl iddo gwblhau'r Rhaglen, a gwneud hynny o fewn y terfyn amser cymeradwy. Yn ogystal, bydd myfyrwyr sydd wedi methu un asesiad neu fwy ar dri achlysur yn gorfod tynnu'n ôl o'r Rhaglen.

7.3 Os caniateir i fyfyriwr geisio adennill un neu fwy o Unedau Astudio a fethwyd cyn dechrau'r Flwyddyn nesaf yn y Rhaglen, bydd y Bwrdd Arholi'n cyfarfod unwaith eto i ystyried perfformiad pob myfyriwr yn yr asesiadau hyn a bydd yn pennu statws y myfyriwr yn unol â 7.1 a 7.2 uchod.

8. STRWYTHUR A CHYNNWYS AILASESIADAU

8.1 Os yw'n ofynnol i fyfyriwr gael ei ailasesu am un Uned Astudio neu fwy cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, oni bai fod y Bwrdd Arholi'n pennu nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i'r ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur â'r Asesiad ar adeg y methiant cychwynnol.

8.1.1 Ar gyfer ailasesiad o fewn un flwyddyn i'r methiant cychwynnol, oni bai fod y Bwrdd Arholi'n pennu nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i'r ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur â'r Asesiad ar adeg y methiant cychwynnol. Ym mhob achos bydd y Bwrdd Arholi'n sicrhau bod adfer methiant yn cael ei wneud naill ai drwy ailasesu gan ddefnyddio'r un dull(iau) neu trwy ddull(iau) y bwriedir iddynt ymdrin â'r holl ganlyniadau dysgu a fethwyd.

8.1.2 Ar gyfer ailasesu y tu hwnt i un flwyddyn o'r methiant cychwynnol, yn ôl disgresiwn Bwrdd yr Ysgol, gall yr ailasesiad fod â'r un strwythur ac yn seiliedig ar yr un maes llafur a addysgir i'r holl fyfyrwyr mewnol ar adeg yr ailasesiad.

8.2 Os caniateir i fyfyriwr ailadrodd y Flwyddyn gyfan fel myfyriwr mewnol fel y darperir yn 7.1.3 uchod, bydd gan yr ailasesiad yr un strwythur a bydd yn seiliedig ar y maes llafur a addysgir i'r holl fyfyrwyr ar adeg yr ailasesiad.

8.3 Os, dan 8.1.2 uchod, yw'n ofynnol i fyfyriwr gael ei ailasesu a bod strwythur yr asesiad yn wahanol i'r hyn yr oedd ar adeg y methiant cychwynnol a/neu os yw'r ailasesiad yn seiliedig ar faes llafur gwahanol, bydd y Pennaeth Ysgol perthnasol yn gwneud y trefniadau canlynol:

8.3.1 hysbysu'r myfyriwr am newidiadau yn strwythur yr asesiad a chynnwys y maes llafur; a

8.3.2 cynnig cyfle i'r myfyriwr, ar gost briodol, fynychu rhaglen addas o ddosbarthiadau a drefnir.

8.4 Bydd myfyriwr sy'n pasio Uned y methodd yn flaenorol yn ennill marciau'n unol â 6.4 uchod.

9. GOFYNION AR GYFER DYFARNIADAU YMADAEL

9.1 Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, gellir argymell myfyriwr nad yw'n cwblhau'r Rhaglen BDS yn llwyddiannus am un o'r dyfarniadau canlynol:

9.1.1 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau wedi'u pwysoli (anghlinigol) **Blwyddyn 1** - sy'n cyfateb i 120 o Gredydau ar Lefel 4 CQFW neu uwch - yn gymwys am ddyfarniad **Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol mewn Gwyddor Ddeintyddol** sy'n ddyfarniad di-ddosbarth.

9.1.2 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau wedi'u pwysoli (anghlinigol) **Blwyddyn 2** - sy'n cyfateb i 240 o Gredydau gan gynnwys o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 4 CQFW neu uwch ac o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 5 CQFW neu uwch - yn gymwys am ddyfarniad **Diploma Addysg Uwch y Brifysgol mewn Gwyddor Ddeintyddol** sy'n ddyfarniad di-ddosbarth.

9.1.3 Bydd myfyriwr sydd wedi cwblhau holl elfennau wedi'u pwysoli (anghlinigol) **Blwyddyn 3** - sy'n cyfateb i 360 o Gredydau gan gynnwys o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 4 CQFW neu uwch, o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 5 CQFW ac o leiaf 120 o Gredydau ar Lefel 6 CQFW neu uwch - yn gymwys

am ddyfarniad **Baglor mewn Gwyddoniaeth mewn Gwyddor Ddeintyddol**.

9.2 Ar ôl cael eu derbyn i un o'r Dyfarniadau Pwyntiau Ymadael a nodir yn 9.1 uchod ni fydd graddedigion bellach yn gymwys am ddyfarniad Gradd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol.

10 DYFARNU GRADDAU

10.1 Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni gofynion y Rhaglen yn gymwys am ddyfarniad Gradd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol.

10.2 Bydd dosbarthiad Gradd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol yn unol â'r meini prawf yn 11. isod ac yn seiliedig ar y pwysoliadau canlynol:

Blwyddyn 1 BDS Sylfaenol	6%
Blwyddyn 2 BDS Sylfaenol	9%
Cyfanswm Cyfraniad BDS Sylfaenol	**15%**
Blwyddyn 3 BDS Canolradd	**25%**
Blwyddyn 4 a 5 BDS Terfynol	**60%**
Cyfanswm BDS	**100%**

11. DOSBARTHIAD

BDS

11.1

Anrhydedd	Marc terfynol o 70% neu fwy
Canmoliaeth	Marc terfynol rhwng 60% a 69%
Pasio	Marc terfynol rhwng 60% a 69%

11.2 Yn ogystal â'r gofynion yn 11.1 uchod:

Dyfernir Gradd Anrhydedd i fyfyrwyr sy'n cyflawni Marc Terfynol o 68% neu 69% yn amodol ar y canlynol:-

- Maent wedi cyflawni 70% neu ragor yn y BDS Terfynol (Blynyddoedd 4 a 5)

Dyfernir Gradd Canmoliaeth i fyfyrwyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58% neu 59% yn amodol ar y canlynol:-

- Maent wedi cyflawni 60% neu ragor yn y BDS Terfynol (Blynyddoedd 4 a 5).

Dyfernir Gradd Llwyddo i fyfyrwyr sy'n cyflawni Marc Terfynol o 48% neu 49% yn amodol ar y canlynol:-

- Maent wedi cyflawni 50% neu ragor yn y BDS Terfynol (Blynyddoedd 4 a 5).

BSc Gwyddor Ddeintyddol - dyfarniad Pwynt Ymadael

11.3 Bydd y dosbarthiad yn seiliedig ar berfformiad yn asesiadau Blwyddyn 2 a 3 yn unig ac yn seiliedig ar y marc cyffredinol sy'n deillio o'r asesiadau a gwblhawyd yn ystod y Blynyddoedd hynny yn y Rhaglen yn unig.

11.4 Pennir dosbarthiad gan ddefnyddio'r set ganlynol o reolau yn y lle cyntaf:

Anrhydedd dosbarth cyntaf	Marc terfynol o 70% neu fwy
Anrhydedd ail ddosbarth, isadran I (2:1)	Marc terfynol rhwng 60% a 69%
Anrhydedd ail ddosbarth, isadran II (2:1)	Marc terfynol rhwng 50% a 59%

11.5 Bydd myfyrwyr nad ydynt wedi cyflawni Marc Terfynol cyffredinol o 50% neu fwy, ond sydd wedi cyflawni o leiaf 50% yn gyffredinol yn y parth Gwyddor Ddeintyddol yn gymwys i dderbyn Anrhydedd Trydydd Dosbarth.

11.6 Rheol Eilaidd BSc Gwyddor Ddeintyddol

Yn sgil yr uchod bydd y rheolau canlynol yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol sydd o fewn 2% i'r band uwch.

Dyfernir gradd dosbarth cyntaf i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 68 neu 69 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi cyflawni marc o 70 neu uwch ym Mlwyddyn 2.
Dyfernir 2:1 i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 58 neu 59 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi cyflawni marc o 60 neu uwch ym Mlwyddyn 2.
Dyfernir gradd trydydd dosbarth i ymgeiswyr sy'n cyflawni marc terfynol o 48 neu 49 yn amodol ar y canlynol: Eu bod wedi cyflawni marc o 50 neu uwch ym Mlwyddyn 2.

Rhaglenni Ôl-raddedig Anfodiwlaidd a Addysgir

1. CYFFREDINOL

1.1 Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â'r Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi.

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bob Rhaglen anfodiwlaidd ôl-raddedig a addysgir.

1.3 Gall Pennaeth Ysgol, fel eithriad, ofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i amrywio'r Rheoliadau hyn mewn perthynas ag un neu ragor o Raglenni

2. DIFFINIADAU

Uned(au) Astudio Elfen adnabyddadwy ar wahân i'r dysgu.

Uned(au) Asesu Elfen adnabyddadwy ar wahân i'r asesiad.

3. DERBYN

3.1 Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd am fynediad i Raglenni Anfodiwlaidd Ôl-raddedig a Addysgir:

3.1.1 fodloni anghenion Gofyniad Mynediad Cyffredinol y Brifysgol; a

3.1.2 bodloni unrhyw anghenion penodol y Rhaglen y gwnaed cais ar ei chyfer, fel a fanylir yng Ngwybodaeth y Rheoliadau Rhaglen berthnasol.

3.2 Gorwedd y penderfyniad ynghylch a fydd ymgeisydd yn cael ei dderbyn i Raglen gyda'r Pennaeth Ysgol perthnasol. Hefyd, bydd Penaethiaid Ysgolion yn cadw'r hawl i bennu uchafswm ac isafswm y nifer a dderbynnir ar gyfer Unedau Astudio unigol, cyn belled na wrthodir mynediad i ymgeisydd i unrhyw Uned Astudio Ofynnol neu Uned Astudio Graidd sy'n cyfrannu at y Rhaglen y mae ef/hi wedi cofrestru ar ei chyfer.

3.3 Efallai yr ymgymerir â gwiriad unigol o'r cymwysterau academaidd a enillwyd cyn derbyn, naill ai yn ystod y broses dderbyn neu ar ôl ymrestru'n fyfyriwr. Fel rhan o'r gwirio hwn, efallai y gofynnir i geiswyr/myfyrwyr gyflwyno tystysgrifau i gadarnhau eu cymwysterau academaidd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu i gymhwyso'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr os na chaiff ardystiad eglur a chyflawn ei ddarparu ar gais ar gyfer y fath wiriad.

4. GWYBODAETH Y RHAGLEN AR GYFER MYFYRWYR

4.1 Ar gyfer pob Rhaglen ôl-raddedig gymeradwy, ceir Gwybodaeth y Rhaglen gymeradwy a fydd yn cynnwys:

Gofynion Mynediad;
Disgrifiad o'r rhaglen gan gynnwys unrhyw ofynion Proffesiynol, Statudol a Chyrff Rheoleiddio;
Strwythur y Rhaglen;

Disgrifiadau o'r Unedau Astudio;
Rheolau ynghylch Asesu, Dilyniant a Dyfarnu.

5. UNEDAU ASTUDIO

5.1 Os oes Uned Astudio ar gael i fwy nag un Rhaglen, gall ei statws fel Uned Astudio Ofynnol, Uned Astudio Graidd neu Uned Astudio Ddewisol amrywio rhwng Rhaglenni.

5.2 Gellir diffinio Rhagflaenwyr, Rhagofynion a/neu Gydofynion ar gyfer unrhyw Uned Astudio neu ar gyfer Uned Astudio mewn Rhaglen benodedig.

5.3 Bydd unrhyw ofynion Gwaith Maes yn ffurfio rhan neu'r cyfan o un Uned Astudio benodedig neu fwy yn amodol ar unrhyw amserlennu neu gyfyngiadau eraill.

6. STRWYTHUR

6.1 Nodir strwythur y Diploma Ôl-raddedig neu Radd Meistr yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

6.1.1 Gall ymgeiswyr fod yn gymwys i dderbyn Tystysgrif Ôl-raddedig ar ôl dilyn a chwblhau'n rhannol lwyddiannus Rhaglen gymeradwy a Addysgir (Cam Diploma Ôl-raddedig) ar Lefel Gradd Meistr (Lefel 7). Bydd Gwybodaeth y Rhaglen yn nodi'r amodau lle y gellir dyfarnu Tystysgrif Ôl-raddedig, a all gynnwys cwblhau un neu fwy o Unedau Astudio penodol yn llwyddiannus. Ni ddyfernir Tystysgrif Ôl-raddedig oni bai bod o leiaf 50% o'r Unedau Astudio sy'n cyfrannu at Gam Diploma Ôl-raddedig wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

6.1.2 Gall Ymgeiswyr fod yn gymwys am Ddiploma Ôl-raddedig ar ôl dilyn a chwblhau Rhaglen gymeradwy a addysgir (Cam Ddiploma Ôl-raddedig) ar Lefel Gradd Meistr (Lefel 7) yn llwyddiannus.

6.1.3 Gall Ymgeiswyr fod yn gymwys am Radd Meistr ar ôl dilyn a chwblhau Rhaglen gymeradwy a addysgir (Cam Diploma Ôl-raddedig) ar Lefel Gradd Meistr (Lefel 7) a Thraethawd Hir a gyflwynwyd i'w arholi (Cam Gradd Meistr) yn llwyddiannus.

6.1.4 Bydd pwysoliad cymharol Cam y Diploma Ôl-raddedig a Cham y Gradd Meistr yn unol â'r hynny a fanylwyd yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

6.1.5 Ni fydd y Traethawd Hir yn hirach nag 20,000 o eiriau.

6.2 DERBYN I RAN DDIWEDDARACH, HEPGOR UNEDAU ASTUDIO A CHYFNEWID UNEDAU ASTUDIO

6.2.1 Derbyn gyda Statws Uwch - Dylai Penaethiaid Ysgolion gyfeirio'n uniongyrchol at y gofynion penodol yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol a Chydnabod Dysgu Trwy Brofiad Blaenorol.

Lle y mae myfyriwr yn llwyddo i gwblhau cam Tystysgrif Ôl-raddedig neu Ddiploma Ôl-raddedig Rhaglen ac yn gadael â'r dyfarniad, ac wedyn yn dymuno dychwelyd i gwblhau camau nesaf yr un Rhaglen, bydd modd iddo wneud hynny **cyn pen tair blynedd** yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau amser llymach a nodir yng Ngwybodaeth y Rhaglen. Lle mae'r bwlch amser yn hwy dylid gwneud cais arbennig i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd fesul unigolyn neu fesul rhaglen i'w gymeradwyo.

6.2.2 Hepgor Uned Astudio – bydd gan Benaethiaid Ysgolion yr hawl, mewn achosion eithriadol, i ganiatáu i fyfyrwyr hepgor Unedau Astudio penodol uchod, ac yn sgil cyflwyno cais arbennig unigol a ddylai gynnwys sail resymegol a thystiolaeth i ddangos fod protocolau lleol trylwyr wedi'u creu i bennu cyfatebiaeth, i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i'w gymeradwyo wedyn.

6.2.3 Cyfnewid Uned Astudio – bydd gan Benaethiaid Ysgolion yr hawl, mewn amgylchiadau eithriadol, i gymeradwyo Rhaglen Astudio arall sy'n caniatáu i fyfyrwyr gyfnewid hyd at un rhan o chwech o'r Rhaglen bresennol am Uned(au) Astudio eraill.

6.2.4 Lle y derbynnir myfyriwr i Ran Ddiweddarach neu lle yr Hepgorir Unedau Astudio yn unol â 6.2.1 neu 6.2.2 uchod, nodir hynny ar gyfer yr Uned(au) Astudio perthnasol yng nghofnodion y myfyriwr. Wrth bennu'r Asesiad Terfynol bydd Bwrdd Arholi yn cynnwys yr Unedau Astudio perthnasol hynny y mae'r myfyriwr wedi rhoi cynnig arnynt fel myfyriwr cofrestredig ar y Rhaglen.

6.2.5 Bydd derbyn i Ran Ddiweddarach Cwrs, Hepgor Unedau Astudio a Chyfnewid Unedau Astudio ar gael fel arfer wrth gydnabod astudiaethau blaenorol ac/neu brofiad a ymgymerwyd ag ef neu a enillwyd yn ystod y tair blynedd cyn y derbyn i'r Rhaglen.

6.3 RHAGLEN ASTUDIO

6.3.1 Ar ddechrau'r Sesiwn, rhaid i bob myfyriwr gofrestru ar Raglen a chadarnhau eu Rhaglen Astudio ar gyfer y Sesiwn er cymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol.

6.3.2 Ar ôl cofrestru, gall myfyriwr geisio cymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol i ddiwygio ei Raglen Astudio o fewn tair wythnos gyntaf Semester.

6.4 CWBLHAU RHAGLEN

6.4.1 Caiff dyddiad priodol cyflwyno'r Traethawd Hir ar gyfer Rhaglenni Meistr ei bennu yng Ngwybodaeth y Rhaglen. Yn achos Rhaglenni blwyddyn amser-llawn, rhaid i'r dyddiad beidio â bod mwy na 50 o wythnosau ar ôl dyddiad y cofrestriad cychwynnol, oni chaiff hynny ei amrywio fel arall o dan 6.4.2 isod. Yn achos rhaglenni rhan-amser, rhaid i'r dyddiad beidio â bod llai na 28 wythnos a mwy na blwyddyn o ddyddiad dechrau cam (traethawd hir) y Radd Meistr.

6.4.2 Yn achos rhaglenni Meistr blwyddyn amser llawn sy'n cynnwys cryn ymwneud clinigol neu gysylltiedig-â-chlinigol adeg Cam (traethawd hir) y radd Meistr, gall y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, ar argymhelliad Pennaeth Ysgol, gymeradwyo dyddiad priodol, yn achos rhaglenni penodedig, ar gyfer cyflwyno Traethawd Hir, a'r dyddiad hwnnw heb fod dros 18 mis ar ôl dyddiad y cofrestriad cychwynnol.

6.4.3 Os yw ymgeisydd am Gradd Meistr yn methu â chyflwyno Traethawd Hir erbyn y dyddiad a amodwyd, dyfernir marc sero iddo/iddi am y Traethawd Hir.

6.4.4 Rhaid i'r Terfyn amser cyffredinol ar gyfer Cwblhau Rhaglen beidio â bod yn fwy na dwy flynedd y tu hwnt i gyfnod arferol y Rhaglen fel y'i nodwyd yng Ngwybodaeth y Rhaglen. Gellir ymestyn y Terfyn Amser mewn amgylchiadau eithriadol gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd.

6.4.5 Ymestynnir tri mis ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Traethawd Hir Rhaglenni Meistr, yn achos rhaglenni amser llawn lle caniateir i ymgeisydd, ar ddiwedd y Cyfnod Diploma, ailsefyll Modiwlau yn y Cyfnod Ailsefyll Arholiadau nesaf.

7. ASESU

7.1 Ymgymerir ag asesu yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd ar gyfer Rhaglenni a Addysgir*:*

7.2 Caiff Ffurfiau Asesu pob Uned Astudio, gan gynnwys sut y pwysolir pob elfen o'r Asesiad, ei ddangos yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

7.3 50% fydd y marc pasio ym mhob Uned Astudio.

8. PENNU CANLYNIADAU UNED ASTUDIO A CHAMAU

8.1 Fel sy'n briodol i strwythur a/neu ddull y rhaglen, bydd Bwrdd Arholi Rhaglen neu Fwrdd Arholi Cyfun yn cyfarfod ar ddiwedd pob Cam, Sesiwn neu Flwyddyn Galendr, i ystyried:

8.1.1 pherfformiad myfyrwyr ym mhob Uned Astudio a gwblhawyd yn ystod y Cyfnod, Sesiwn neu Flwyddyn Galendr a bydd yn ystyried holl elfennau Asesiad yr Uned Astudio; a

8.1.2 dilyniant myfyrwyr a/neu Ddyfarniad terfynol.

8.2 PENNU CANLYNIADAU UNED ASTUDIO

8.2.1 Bydd y Bwrdd Arholi sy'n cyfarfod i ystyried cyflawniad pob myfyriwr ym mhob Uned Astudio yn penderfynu:

.1 a yw'r myfyriwr wedi llwyddo yn yr Uned Astudio; neu

.2 a yw'r myfyriwr wedi methu'r Uned Astudio; neu

.3 a yw'r myfyriwr wedi profi Amgylchiadau Esgusodol a effeithiodd ar ei Asesiad(au). Yn y fath achosion, bydd y Bwrdd Arholi yn delio â'r myfyriwr yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd.

8.2.2 Ni chaniateir i Fyrddau Arholi newid marciau Unedau Astudio unigol.

8.3 PENNU CANLYNIAD CYFNODAU A DILYNIANT

8.3.1 I fod yn gymwys i ddyfarnu Diploma Ôl-raddedig, a/neu i fynd ymlaen o Gam y Diploma Ôl-raddedig i Gam y Radd Meistr, rhaid ennill marc cyffredinol o 50% o leiaf yn arholiad Cam y Diploma Ôl-raddedig, yn unol â'r pwysoliad a osodwyd yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

8.3.2 Gall ymgeisydd, â chymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol, gychwyn ar waith paratoadol dan oruchwyliaeth neu heb fod o dan oruchwyliaeth ar gyfer y Traethawd Hir cyn cwblhau Cam y Diploma Ôl-raddedig, ond ni allant gyflwyno gwaith i'w arholi oni bai bod Cam Diploma Ôl-raddedig y rhaglen wedi'i basio ac nid cyn hynny.

8.3.3 Ar sail penderfyniad y Bwrdd Arholi ynghylch canlyniad pob myfyriwr ym mhob Uned Astudio, bydd y Bwrdd Arholi yn pennu, fel sy'n briodol ac yn unol â Gwybodaeth gymeradwy'r Rhaglen, p'un ai:

.1 a ganiateir i'r myfyriwr fynd ymlaen i Gam Gradd Meistr y Rhaglen ac, fel sy'n briodol i strwythur y Rhaglen, a fydd yn gymwys i dderbyn Cymhwyster Pwynt Gadael y Diploma Ôl-raddedig;

.2 a wrthodir i'r myfyriwr fynd ymlaen i Gam Gradd Meistr y Rhaglen ac na fydd yn gymwys i dderbyn Cymhwyster Pwynt Gadael y Diploma Ôl-raddedig;

.3 a ddyfernir cymhwyster terfynol Diploma Ôl-raddedig neu Radd Meistr i'r myfyriwr;

.4 a wrthodir dyfarnu cymhwyster terfynol Diploma Ôl-raddedig neu Radd Meistr i'r myfyriwr;

.5 a fydd yn ofynnol i'r myfyrwyr dynnu'n ôl o'r Rhaglen.

8.3.4 Bydd Gwybodaeth y Rhaglen yn hysbysu myfyrwyr o'r Set Dilyniant ac unrhyw ofynion eraill yn y Rhaglen sy'n gymwys i'w Rhaglen.

8.3.5 Traethawd Hir Gradd Meistr

Caiff Traethawd Hir pob ymgeisydd am radd Meistr ei asesu gan o leiaf ddau aelod o'r Bwrdd Arholi.

8.4 Ni chaniateir i Fyrddau Arholi newid marciau Unedau Astudio unigol.

9. DYFARNIADAU

9.1 I fod yn gymwys ar gyfer dyfarnu Diploma Ôl-raddedig neu Radd Meistr iddo/iddi, bydd yn ofynnol bod myfyriwr wedi bodloni gofynion y dyfarniad ac wedi ennill marc cyffredinol nad yw'n llai na 50% yn unol â'r fath bwysoliad ac unrhyw feini prawf ychwanegol ag y priodolir yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

10. DOSBARTHIAD

10.1 Bydd y darpariaethau canlynol yn cael eu cymhwyso lle y bo myfyrwyr yn gymwys am ddyfarniad fel y dangosir yn 9. uchod. Gellir dyfarnu'r cymhwyster gyda Rhagoriaeth neu Deilyngdod yn y Diploma Ôl-raddedig neu'r Radd Meistr a, lle y darperir ar ei gyfer yn 6.1.1 uchod, y Dystysgrif Ôl-raddedig.

10.2 I fod yn gymwys ar gyfer dyfarnu Rhagoriaeth:

10.2.1 Yn y Diploma Ôl-raddedig, a, lle y darperir ar ei gyfer yn 6.1.1 uchod, y Dystysgrif Ôl-raddedig, rhaid bod myfyriwr wedi bodloni gofynion y dyfarniad ac wedi ennill cyfartaledd sydd o leiaf 70% ar draws yr Unedau Astudio yn unol â'r fath bwysoliad ag y priodolir i'r Unedau Astudio yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

10.2.2 Yn y Radd Meistr, rhaid bod myfyriwr wedi bodloni gofynion y dyfarniad ac wedi:

- cyflawni Marc Terfynol o 70% neu uwch, A
- cyflawni marc o 70% o leiaf wrth Gam y Gradd Meistr, A

- chyflawni marc cyfartalog o 65% o leiaf ar draws yr Unedau Astudio a addysgir yn unol â'r fath bwysoliad ag y priodolir i'r Unedau Astudio yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

10.3 I fod yn gymwys ar gyfer dyfarnu Teilyngdod:

10.3.1 yn y Diploma Ôl-raddedig a, lle y darperir ar ei gyfer yn 6.1.1 uchod, y Dystysgrif Ôl-raddedig,rhaid bod myfyriwr wedi bodloni gofynion y dyfarniad ac wedi ennill cyfartaledd o fwy na 60% a llai na 70% ar draws yr Unedau Astudio yn unol â'r fath bwysoliad ag y priodolir i'r Unedau Astudio yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

10.3.2 Yn y Radd Meistr, rhaid bod myfyriwr wedi bodloni gofynion y dyfarniad ac wedi:

- wedi cyflawni Marc Terfynol o 60% neu uwch, A
- cyflawni marc o 60% o leiaf wrth Gam y Gradd Meistr, A
- chyflawni marc cyfartalog o 55% o leiaf ar draws yr Unedau Astudio a addysgir yn unol â'r fath bwysoliad ag y priodolir i'r Unedau Astudio yng Ngwybodaeth y Rhaglen.

11. AILSEFYLL ARHOLIADAU AC AILASESIADAU

CAMAU I'W CYMRYD Â MYFYRWYR AFLWYDDIANNUS: CYFNOD Y DIPLOMA ÔL-RADDEDIG

11.1 Os na fu'n ofynnol i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r Rhaglen Astudio, bydd y Bwrdd Arholi yn pennu p'un ai:

.1 a yw'n ofynnol ail-asesu'r myfyriwr yn yr Arholiadau, Profion Dosbarth, Asesiadau Gwaith Cwrs neu'r Arholiadau Ymarferol sy'n ffurfio Cyfnod y Diploma, yn gyfan gwbl; neu

.2 a yw'n ofynnol ail-asesu'r myfyriwr mewn rhannau (Unedau Astudio) o Gyfnod y Diploma.

11.2 Bydd y Bwrdd Arholi yn pennu ymhellach a ganiateir i'r myfyriwr gael ei ail-asesu unwaith yn unig yn yr Uned(au) Astudio a fethwyd naill ai:

.1 yn ystod y Cyfnod Ailsefyll Arholiadau nesaf; neu

.2 â phresenoldeb neu heb fod yn bresennol ar yr Uned(au) Astudio yn ystod y sesiwn neu'r flwyddyn galendr ganlynol.

11.3 Caiff myfyriwr y caniateir iddo/iddi gael ei ailasesu/hailasesu mewn unrhyw ffurf o Waith Cwrs, yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, naill ai ailgyflwyno fersiynau diwygiedig o'i waith/gwaith gwreiddiol, neu gyflwyno gwaith newydd i'w asesu ar destunau gwahanol i'r rheiny a fethodd â bodloni'r Arholwyr yn wreiddiol.

11.4 Ym mhob achos bydd y Bwrdd Arholi yn sicrhau bod adfer methiant yn cael ei wneud naill ai drwy ailasesu gan ddefnyddio'r un dull(iau) neu trwy ddull(iau) y bwriedir iddynt ymdrin â'r holl ganlyniadau dysgu a fethwyd.

11.5 Os bydd myfyriwr wedi methu â bodloni'r arholwyr wrth asesu'r Cam Diploma Ôl-raddedig ar ddau achlysur bydd yn ofynnol iddo dynnu'n ôl o'r

Rhaglen neu, yn unol â gofynion 6.1.1 uchod, gall dderbyn Tystysgrif Ôl-raddedig.

CAMAU I'W CYMRYD GYDA MYFYRWYR AFLWYDDIANNUS: CAM GRADD MEISTR

11.6 Ystyrir bod ymgeisydd am radd Meistr sy'n methu â chyflwyno Traethawd Hir erbyn y dyddiad cau penodedig, ac nad yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno wedi cael ei estyn gan y Brifysgol, wedi methu asesiad y Traethawd Hir trwy fethu â'i gyflwyno a dyfernir marc sero iddi/iddo.

11.7 Os na fydd Traethawd Hir ymgeisydd wedi llwyddo i fodloni'r Bwrdd Arholi (gan gynnwys methu drwy beidio â chyflwyno), caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno'r Traethawd Hir i'w ailasesu ar un achlysur yn unig, heb fod yn hwy na chwe mis ar ôl dyddiad cyfleu'r canlyniad yn swyddogol i'r ymgeisydd.

11.8 Pan ganiateir i ymgeisydd ailgyflwyno traethawd hir ac mae hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol, efallai y bydd rhaid i fyfyriwr o'r fath ailgofrestru a thalu ffi ailgofrestru.

CYNFYFYRWYR

11.9 Gall Penaethiaid Ysgolion ganiatáu i gynfyfyrwyr yn Brifysgol sydd wedi cwblhau eu hastudiaethau yn y Brifysgol adennill methiant mewn Unedau Astudio penodol, trwy bresenoldeb neu heb fod yn bresennol, ar ôl talu ffi briodol. Ni fydd adennill Modiwlau a fethwyd fel hyn yn cyfrannu at unrhyw ddyfarniad gan y Brifysgol.

Rheoliadau Graddau Ymchwil

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Graddau Ymchwil. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran safonau	**Disgwyliadau o ran ansawdd**
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae gan y darparwr system dderbyn ddibynadwy, deg a chynhwysol.
	Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
	Pan fydd y darparwr yn cynnig graddau ymchwil mae'n cyflawni'r rhain mewn

	amgylcheddau ymchwil priodol a chefnogol.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran safonau	**Arferion cyffredin o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau'n rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

Rheoliadau Graddau Ymchwil

1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae'r rheoliadau hyn ar gyfer rhaglenni gradd ymchwil sy'n arwain at ddyfarnu'r graddau canlynol: PhD (Doethur mewn Athroniaeth); MD (Doethur mewn Meddygaeth); EngD (Doethur mewn Peirianneg); Graddau Doethurol drwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil (Doethuriaethau Proffesiynol); ac MPhil (Meistr mewn Athroniaeth).

1.2 Os oes rheoliadau penodol ar gyfer dyfarniadau unigol, caiff y rhain eu diffinio isod. Os na chyfeirir at raddau penodol, mae'r rheoliadau yn berthnasol ar gyfer yr holl raddau ymchwil a enwir uchod.

1.3 Nid yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i'r PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd, Doethuriaethau Uwch, neu raglenni MRes (Meistr mewn Ymchwil).

1.4 Mae rhaglen gradd ymchwil yn canolbwyntio ar astudiaeth ac ymchwil annibynnol. Mae hefyd yn cynnwys i gefnogi gwaith academaidd y myfyriwr ymchwil a'u datblygiad fel ymchwilydd proffesiynol yn fwy eang.

1.5 Wrth ymgymryd â rhaglen gradd ymchwil, disgwylir i'r myfyriwr gymryd cyfrifoldeb dros gynnydd a gonestrwydd ei waith academaidd, ei ddatblygiad fel ymchwilydd proffesiynol ac, oni bai mewn amgylchiadau eithriadol nad oedd modd eu rhagweld, cyflwyno eu traethawd ymchwil terfynol o fewn y cyfnod a ganiateir ar gyfer eu gradd a'r dull astudio.

1.6 Bydd disgwyl i'r holl fyfyrwyr gymryd ran mewn gweithgareddau hyfforddiant perthnasol a chyfrannu at yr amgylchedd ymchwil mewn modd mor gyflawn

â'r hyn sy'n gymwys ochr yn ochr â chwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus ac yn brydlon.

2. Gofynion Mynediad

2.1 Bydd gofyn i ymgeisydd sy'n ceisio am le ar raglen gradd ymchwil:

.1 gyflawni amodau'r Gofynion Mynediad Cyffredinol a Gofynion Rhaglen y Radd fel y nodir yn y Rheoliadau Derbyn Myfyrwyr;

.2 bodloni gofynion penodol rhaglen y radd ymchwil;

.3 lle bo'n berthnasol, bodloni'r Ysgol ei fod yn meddu ar brofiad ac/neu wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd proffesiynol ar lefel briodol i allu rhoi'r cyd-destun proffesiynol ar gyfer cwblhau'r rhaglen;

.4 bodloni'r Ysgol ei fod yn meddu ar y gallu academaidd i gwblhau'r rhaglen radd ymchwil.

2.2 Gall myfyriwr ymchwil ddechrau eu cyfnod ymchwil yn ffurfiol ar y diwrnod cyntaf o Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf ar yr amod bod Pennaeth yr Ysgol neu ei enwebai yn cytuno, neu yn unol â'r wybodaeth berthnasol am y rhaglen yn achos Doethuriaethau Proffesiynol.

2.3 Pennaeth yr Ysgol neu ei enwebai fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn myfyrwyr yn unol â Gofyniad Mynediad Cyffredinol Prifysgol Caerdydd a'r Rheoliadau Derbyn Myfyrwyr.

3. Dull Astudio

3.1 Gall ymgeisydd astudio ar gyfer gradd ymchwil fel myfyriwr amser llawn neu ran-amser, neu os ydynt yn aelod o staff yn y Brifysgol, gall wneud hynny fel ymgeisydd staff[1] yn amodol ar gyfyngiadau canlynol y rhaglen:

.1 dim ond ar sail amser llawn cyn ennill cymhwyster proffesiynol y gellir astudio DClinPsy a DEdPsy, neu'n rhan-amser yn unig ar ôl ennill cymhwyster proffesiynol, y gellir astudio DClinPsy a DEdPsy;

.2 dim ond ar sail amser llawn y gellir astudio EngD.

3.2 Bydd myfyriwr ymchwil amser llawn yn ymgymryd â'u rhaglen astudio ac ymchwil yn y Brifysgol, ar wahân i yn ystod cyfnod(au) astudio mewn sefydliad partner a gefnogir gan gytundeb a gymeradwyir gan y Brifysgol, neu pan ganiateir y myfyriwr i ddilyn ymchwil amser llawn mewn lleoliad cyflogaeth allanol.

[1] Cyfyngir ymgeisyddiaeth i aelodau staff sydd â chytundeb gwaith cyflogedig sydd yn cyfateb i o leiaf un rhan o dair o'r hyn ydyw aelod amser llawn a berthyn i'r math hwnnw o staff.

3.3 Pan fydd Ysgol yn ystyried derbyn myfyriwr fydd yn gwneud gwaith ymchwil amser llawn mewn lleoliad cyflogaeth allanol, rhaid i'r cyflogwr ddarparu'r sicrwydd ysgrifenedig canlynol:

.1 bydd y myfyriwr yn gweithio ar ymchwil amser llawn ac ar brosiect penodol, y cytunwyd arno;

.2 caiff y gwaith ymchwil ei wneud o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth prif-oruchwylydd o'r Brifysgol a enwebwyd gan Bennaeth yr Ysgol (yn unol ag adran 6 isod); gall camau rheoli o'r fath gynnwys hawl y goruchwylydd i gael mynediad rhesymol i'r myfyriwr a'i waith yn lleoliad eu gwaith.

3.4 Gall myfyrwyr ymchwil wneud cais i newid o fod yn amser llawn i fod yn rhan-amser, ac i'r gwrthwyneb, yn ystod y cyfnod pan mae ffioedd yn daladwy[2]. Rhaid i astudiaeth ran-amser fod yn hafal i o leiaf 50% o'r hyn sy'n cyfateb i amser llawn. Os caiff ei gymeradwyo, bydd cyfnod cofrestru diwygiedig a dyddiadau cynharaf/hwyraf ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil yn cael eu pennu ar sail pro-rata.

4. Cyfnodau Astudio

4.1 Dylai myfyrwyr ymchwil gofrestru yn y Brifysgol, talu'r ffi ofynnol a dilyn y rhaglen yn ystod y cyfnod astudio a ddiffinnir isod, sef y cyfnod pan mae ffioedd yn daladwy:

.1 PhD fel myfyriwr amser llawn neu aelod staff[3]: isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 4 blynedd (ar wahân i'r model 2+2);

.2 PhD fel myfyriwr rhan-amser, neu ar sail ran-amser fel aelod o staff, lle gwelir tystiolaeth bod y cyfnod o gofrestru yn gymesur ag astudio'n rhan-amser: o leiaf 5 mlynedd ac uchafswm o 7 mlynedd;

.3 PhD model 2+2 fel myfyriwr amser llawn, isafswm o 2 flynedd ac uchafswm o 3 blynedd ar gyfer eu cam PhD;

.4 PhD model 2+2 fel myfyriwr rhan-amser, isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 5 mlynedd ar gyfer eu cam PhD;

.5 MD fel myfyriwr amser llawn, neu fel aelod o staff: isafswm o 2 flynedd ac uchafswm o 3 blynedd[4];

.6 MD fel myfyriwr rhan-amser, neu ar sail rhan-amser fel aelod o staff, lle gwelir tystiolaeth bod y cyfnod o gofrestru yn gymesur ag astudio'n rhan-amser: o leiaf 3 mlynedd ac uchafswm o 5 mlynedd;

[2] Dylai myfyrwyr a ariennir wirio telerau ac amodau eu cyllid cyn gwneud cais i newid eu dull astudio.
[3] Ar gyfer ymgeisydd PhD staff a ddechreuodd ei astudiaeth cyn 1 Awst 2017, 7 mlynedd yw'r cyfnod hiraf a ganiateir.
[4] Ar gyfer pob ymgeisydd staff MD a ddechreuodd eu hastudiaethau cyn 1 Awst 2017, 5 mlynedd yw'r cyfnod hiraf.

.7 EngD fel myfyriwr amser llawn, isafswm o 4 blynedd ac uchafswm o 4 blynedd a 6 mis;

.8 Doethuriaeth Broffesiynol fel myfyriwr amser llawn, isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 4 blynedd;

.9 Doethuriaeth Broffesiynol fel myfyriwr rhan-amser, neu ar sail rhan-amser fel aelod o staff, lle gwelir tystiolaeth bod y cyfnod o gofrestru yn gymesur ag astudio'n rhan-amser: o leiaf 5 mlynedd ac uchafswm o 7 mlynedd;

.10 MPhil fel myfyriwr amser llawn, neu fel aelod o staff: isafswm o flwyddyn ac uchafswm o 2 flynedd[5];

.11 MPhil fel myfyriwr rhan-amser, neu ar sail ran-amser fel aelod o staff, lle gwelir tystiolaeth bod y cyfnod o gofrestru yn gymesur ag astudio'n rhan-amser: o leiaf 2 flynedd ac uchafswm o 3 blynedd[6].

4.2 Ni chaiff myfyrwyr doethurol gyflwyno eu traethawd ymchwil mwy na 6 mis cyn diwedd y cyfnod pan mae eu ffioedd yn daladwy.

4.3 Ni chaiff myfyrwyr MPhil gyflwyno eu traethawd ymchwil mwy na mis cyn diwedd y cyfnod pan mae eu ffioedd yn daladwy.

4.4 Gall myfyriwr sydd wedi cwblhau gofynion ei radd doethur yn llwyddiannus ac yn cael ei dderbyn ar gyfer y dyfarniad, ofyn am ymestyn i'w gofrestriad ar ei raglen ddoethurol am gyfnod o hyd at 12 mis er mwyn ymgymryd â gweithgareddau sy'n gymesur â chyfnerthu eu hyfforddiant doethurol a chefnogi eu cyfnod pontio i lwybr gyrfa ôl-ddoethuriaeth: megis cyhoeddi eu gwaith, gwneud ceisiadau am grant, datblygu rhwydweithiau proffesiynol. Bydd y cyfnod cofrestru estynedig yn caniatáu mynediad at adnoddau TG y Brifysgol (ebost, mewnrwyd ac adnoddau llyfrgell electronig).

5. Mynediad gydag Uwch-sefyllfa:

5.1 Caiff myfyrwyr ddechrau rhaglen gradd ymchwil gyda statws uwch yn ôl penderfyniad Pennaeth yr Ysgol neu ei enwebai, o fewn y cyfyngiadau isod.

5.2 Gellir eithrio myfyrwyr PhD o fod wedi cofrestru'n amser llawn am uchafswm o flwyddyn, neu gofrestru'n rhan-amser am 2 flynedd os ydynt yn gallu dangos eu bod wedi **paratoi'n eithriadol o dda** ar gyfer rhaglen y radd ymchwil. Ym mhob achos, dylent feddu ar o leiaf radd Meistr ôl-raddedig mewn maes perthnasol a/neu fod wedi gwneud o leiaf flwyddyn (neu gyfnod rhan-amser cyfatebol) o waith academaidd o dan oruchwyliaeth yn yr un ddisgyblaeth.

[5] Ar gyfer myfyriwr MPhil amser llawn a ddechreuodd ei astudiaeth cyn 1 Awst 2016, 3 blynedd yw'r cyfnod hiraf a ganiateir.
[6] Ar gyfer myfyriwr MPhil rhan-amser a ddechreuodd ei astudiaeth cyn 1 Awst 2016, 5 mlynedd yw'r cyfnod hiraf a ganiateir.

5.3 Gellir eithrio myfyrwyr EngD a Doethuriaeth Broffesiynol rhag elfennau o'r gydran ddysgu cyfeiriedig a asesir yn eu rhaglen.

5.4 Bydd myfyrwyr DClinPsy a DEdPsy a dderbynnir ar gyfer y llwybr rhan-amser ôl-gymhwyster yn cael eu derbyn gyda statws uwch yn unol â gofynion y rhaglen.

5.5 Gall myfyrwyr ymchwil drosglwyddo o brifysgol arall, naill ai er mwyn dod gyda goruchwylydd neu o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau yn eu cyn-sefydliad, ar yr amod:

.1 bydd y cyfnodau cofrestru cyfun yn cyfateb i'r cyfnod byrraf o astudio a ganiateir ar gyfer y dyfarniad gan Brifysgol Caerdydd, neu fod yn hwy na hynny;

.2 bod Pennaeth yr Ysgol neu ei enwebai yn fodlon bod y myfyriwr wedi gwneud cynnydd digonol i allu cwblhau'r rhaglen ymchwil yn y cyfnod sy'n weddill;

.3 yn yr achosion hynny lle y trosglwyddir am resymau heblaw dilyn y goruchwylydd, mae'r myfyriwr yn cofrestru ac yn talu'r ffi ofynnol am 12 mis, o leiaf, yn amser-llawn neu am 18 mis yn rhan-amser, pa gyfnod bynnag o astudio sydd eisoes wedi'i gyflawni yn y brifysgol arall;

.4 bod cytundebau ar gyfer y trosglwyddiad a pherchnogaeth data ymchwil, fel y bo'n briodol, rhwng yr adrannau/penaethiaid Ysgol sy'n colli/ennill myfyrwyr.

6. Goruchwylio a Monitro

6.1 Penaethiaid Ysgolion sy'n gyfrifol am benodi tîm goruchwyliol yn unol â'r Polisi Goruchwylio Myfyrwyr Ymchwil.

6.2 Mae goruchwylwyr yn gyfrifol am gefnogi'r myfyrwyr ymchwil sydd wedi'u dyrannu ar eu cyfer yn unol â'r Polisi ar Gyfrifoldebau Goruchwylwyr.

6.3 Y Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil yw'r dull ffurfiol o fonitro cynnydd myfyriwr ar eu rhaglen gradd ymchwil. Mae parhau i fod yn gofrestredig ar raglen gradd ymchwil yn dibynnu ar p'un a yw'r myfyriwr yn gwneud cynnydd boddhaol a ddangosir drwy'r Gweithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil.

6.4 Mae cydymffurfio â'r Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil yn orfodol ac yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gyfer graddau ymchwil, gan gynnwys rhai amser llawn, rhan-amser ac ymgeiswyr staff.

6.5 Os oes unrhyw bryderon ynghylch cynnydd myfyriwr, bydd y Polisi a'r Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil) yn mynd i'r afael â'r rhain.

7. Terfynau Amser.

7.1 Rhaid i fyfyrwyr ymchwil gyflwyno eu traethawd ymchwil i'w arholi ymhen y cyfnodau astudio hiraf a ganiateir ar gyfer eu gradd.

.1 PhD, amser llawn: 4 blynedd

.2 PhD o dal fodel 2+2, amser llawn: 3 mlynedd (cam PhD)

.3 PhD, rhan-amser 7 mlynedd

.4 PhD o dal fodel 2+2, rhan-amser: 5 mlynedd (cam PhD);

.5 MD, amser llawn 3 blynedd

.6 MD, rhan-amser: 5 mlynedd

.7 MPhil, amser llawn 2 flynedd[7];

.8 MPhil, rhan-amser 3 blynedd[8];

.9 EngD: 4 blynedd a 6 mis

.10 Doethuriaethau Proffesiynol Amser Llawn: yn unol â gwybodaeth y rhaglen ac ymhen uchafswm o 4 blynedd;

.11 Doethuriaethau Proffesiynol Rhan-amser: yn unol â gwybodaeth y rhaglen ac ymhen uchafswm o 7 blynedd.

7.2 Rhaid i fyfyrwyr ymchwil sy'n cael eu derbyn gyda statws uwch gyflwyno eu traethawd ymchwil i'w asesu ymhen yr amser a ganiateir sy'n weddill ar gyfer y rhaglen.

7.3 Bydd methu â cyflwyno o fewn y terfyn-amser, a ddiffinnir fel y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno (neu'r diwrnod gwaith nesaf os yw'r Brifysgol ar gau), os nad yw'r Brifysgol wedi ymestyn y dyddiad, yn golygu dod â'r rhaglen i ben.

8. Gohiriadau ac Estyniadau i Derfynau Amser

8.1 Gall y Brifysgol darfu ar gyfnod astudio neu estyn terfyn amser yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Gohirio ac Estyn Terfynau Amser (Myfyrwyr Ymchwil).

[7] Os dechreuwyd astudio ar ôl 1 Awst 2016.
[8] Os dechreuwyd astudio ar ôl 1 Awst 2016.

9. Terfyn Amser Cyffredinol[9]

9.1 Os bydd y Brifysgol yn cymeradwyo cais i ohirio a/neu estyn, bydd hynny'n arwain at addasu'r dyddiad diweddaraf y gall y myfyriwr gyflwyno eu traethodau ymchwil. Ni all yr addasiad cyffredinol sy'n deillio o un neu ragor o ohiriadau a/neu estyniadau fynd y tu hwnt i'r terfyn amser cyffredinol a ganiateir ar gyfer y rhaglen.

9.2 Y terfyn amser cyffredinol ar gyfer pob rhaglen gradd ymchwil yw'r cyfnod hiraf o astudio a ddiffinnir uchod, a dwy flynedd.

9.3 Os oes angen, caiff y terfyn amser cyffredinol ei ymestyn er mwyn i'r Bwrdd Arholi allu argymell penderfyniad i ailgyflwyno.

[9]Mae'r terfyn amser cyffredinol yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dechrau astudio ar ôl 1 Awst 2019.

Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae gan y darparwr system dderbyn ddibynadwy, deg a chynhwysol.
Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, teg a thryloyw.	Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
	Pan fydd y darparwr yn cynnig graddau ymchwil mae'n cyflawni'r rhain mewn amgylcheddau ymchwil priodol a chefnogol.

	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran safonau	**Arferion cyffredin o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau'n rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.
	Mae agwedd y darparwr tuag at reoli ansawdd yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd allanol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir

1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i PhD drwy Waith a Gyhoeddir yn unig.

1.2 Mae'r llwybr Gwaith Cyhoeddedig tuag at ddyfarniad PhD yn agored i'r ymgeiswyr hynny sydd, dros gyfnod o flynyddoedd, wedi bod ynghlwm wrth ysgolheictod ac ymchwil annibynnol. Mae ymgeisydd yn cael ei asesu ar sail y gwaith a wneir ac a gyhoeddir cyn bod yr ymgeisydd yn cofrestru, yn hytrach na gwaith a wneir fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod cyfnod cofrestru'r ymgeisydd, bydd yn creu sylwebaeth werthusol i gyd-fynd â'r gwaith a llunio rhan o'r cyflwyniad.

1.3 Caiff cyflwyniad PhD drwy Waith a Gyhoeddir ei asesu yn erbyn y meini prawf a ddiffinnir yn y Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil ar gyfer dyfarniadau doethurol Prifysgol Caerdydd.

2. Diffiniad o Waith Cyhoeddedig

2.1 At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid ystyrir bod gwaith yn gyhoeddedig oni bai modd ei olrhain drwy gatalogau, crynodebau neu fynegeion dyfyniadau cyffredin, a bod copïau ar gael yn gyhoeddus. Nid yw adroddiadau ymchwil sydd wedi'u paratoi ar gyfer cylch cyfyngedig o ddarllenwyr a/neu'n gyfrinachol yn gymwys i'w cynnwys mewn cyflwyniad ar gyfer y radd hon.

2.2 Mae'r canlynol yn ambell enghraifft o waith cyhoeddedig: papurau academaidd; erthyglau cyfnodolion; monograffau; penodau; llyfrau.

2.3 Gallai gwaith electronig fod yn gymwys pan mae'r ymgeisydd yn rhoi tystiolaeth y bydd y gwaith yn parhau i fod ar gael yn gyhoeddus hyd y gellir rhagweld, yn ei ffurf bresennol.

2.4 Ni ddylai'r gwaith fod wedi'i gyhoeddi fwy na degawd cyn y dyddiad cofrestru ar gyfer y radd.

2.5 Dylai'r gwaith cyhoeddedig fod o safon y gellir ei chymharu â chynnwys traethawd ymchwil PhD traddodiadol, ac yn dangos cyfraniad gwreiddiol yr ymgeisydd at ddysgu.

2.6 At hynny, dylai'r gwaith cyhoeddus gynnwys corff o waith sy'n nes at fod yn draethawd hir cydlynol, yn hytrach na chyfres o gyhoeddiadau heb gysylltiad.

2.7 Bydd nifer y gwaith yn dibynnu ar y maes academaidd a'r math o waith cyhoeddedig sydd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad. Mae'n rhaid i'r gwaith cyhoeddedig fod yn ddigonol o ran maint a safon er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarniad doethurol.

2.8 Gall ymgeisydd gynnwys gwaith sydd wedi'u cyd-ysgrifennu yn eu cyflwyniad. Rhaid i fwyafrif y gwaith fod gan awdur unigol, neu awdur cyntaf. Rhaid i'r ymgeisydd allu dangos yn glir beth yw cyfraniad yr ymgeisydd mewn unrhyw waith a gyd-ysgrifennir.

3. Pwy sy'n gymwys

3.1 I fod yn gymwys i gofrestru ar gyfer y PhD drwy waith cyhoeddedig, mae'n rhaid i ymgeisydd fodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

.1 yn fyfyriwr gradd Prifysgol Caerdydd, neu Brifysgol Cymru yn dilyn ymgeisyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ers o leiaf chwe blynedd cyn cofrestru;

.2 yn aelod o staff ym Mhrifysgol Caerdydd ers o leiaf chwe blynedd cyn cofrestru am y radd;

.3 yn ddeiliad teitl anrhydeddus Prifysgol Caerdydd ers o leiaf chwe blynedd cyn cofrestru.

3.2 Ni all ymgeisydd ar gyfer PhD drwy Waith Cyhoeddedig fod hefyd wedi cofrestru ar yr un pryd ar raglen PhD ym Mhrifysgol Caerdydd neu unrhyw sefydliad dyfarnu arall.

3.3 Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer PhD drwy Waith Cyhoeddedig fodloni amodau Gofyniad Mynediad Cyffredinol y Brifysgol.

4. Cyfnod Astudio a Ffioedd

4.1 Mae'n ofynnol i ymgeisydd ar gyfer PhD drwy waith cyhoeddedig ymrestru yn y Brifysgol a thalu'r ffi priodol.

4.2 Bydd yr ymgeisydd wedi cofrestru am gyfnod o hyd at 12 mis o'r dyddiad ymrestru ymlaen, a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno ar gyfer gradd PhD drwy Waith Cyhoeddedig heb fod yn hwyrach na 12 mis o'r dyddiad pan wnaeth ymrestru.

4.3 Mae'r ffi gofrestru a chyflwyno ar y cyd ar gyfer PhD drwy Waith Cyhoeddedig yn cyfateb i'r ffi ddysgu flynyddol safonol y mae'r Brifysgol yn ei chodi ar fyfyrwyr PhD rhan-amser, fel y mae hi adeg ymrestru.

4.4 Nid oes rhaid i aelodau staff Prifysgol Caerdydd dalu'r ffi gofrestru, ond mae'n ofynnol iddynt dalu ffi gyflwyno sy'n cyfateb i'r hynny a godir ar staff sy'n ymgeisio ar gyfer PhD safonol.

5. Y Cynghorwyr

5.1 Bydd Pennaeth y r Ysgol/enwebai'n penodi cynghorydd neu gynghorwyr ar gyfer cyfnod cofrestru ymgeisydd. Bydd o leiaf un o'r cynghorwyr yn aelod staff o'r Ysgol o dan sylw.

5.2 Bydd gan gynghorydd(ion) yr ymgeisydd yn ddealltwriaeth briodol o'r pwnc a bydd(ant) â phrofiad o oruchwylio ac arholi PhD.

5.3 Bydd y cynghorydd(ion) yn cefnogi, cynghori ac arwain yr ymgeisydd drwy'r broses o ddrafftio'r adolygiad beirniadol sy'n cyd-fynd â'r gwaith cyhoeddedig, yn unol ag atodlen o gysylltiadau, a'r broses o gyflwyno ac arholi.

5.4 Ni fydd y Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Monitro Myfyrwyr Ymchwil, na'r Polisi ar Oruchwylio Myfyrwyr Ymchwil yn gymwys.

6. Tarfu ar Derfynau Amser, ac Estyniadau Iddynt

6.1 Gall y Brifysgol darfu ar y cyfnod cofrestru neu ei ymestyn yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Gohirio ac Estyn Terfynau Amser (Myfyrwyr Ymchwil).

7. Asesu

7.1 Caiff cyflwyniad PhD drwy Waith Cyhoeddedig ei asesu yn unol â'r Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil ar gyfer dyfarniadau doethurol Prifysgol Caerdydd.

Rheoliadau ar gyfer Doethuriaethau Uwch

1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer Doethuriaethau Uwch Prifysgol Caerdydd. Mae'r Doethuriaethau Uwch sydd ar gael wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Dyfarniadau: Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd.

1.2 Mae Doethuriaethau Uwch yn ddyfarniadau a enillir yn y Brifysgol, sy'n cael eu dyfarnu i gydnabod rhagoriaeth o ran ysgolheictod academaidd, gyda thystiolaeth yn sgîl cyflwyno cyhoeddiadau.

1.3 Gallai'r cyhoeddiad a gyflwynwyd fod yn unrhyw gyfuniad o lyfrau, erthyglau a gwaith cyhoeddedig, wedi'u hargraffu neu fel arall wedi'u hailgynhyrchu, y gellir eu holrhain drwy gatalogau, crynodebau neu fynegeion dyfyniadau cyffredin, a'u bod ar gael yn gyhoeddus.

2. Pwy sy'n gymwys

2.1 I fod yn gymwys i wneud cais am Ddoethuriaeth Uwch, rhaid i ymgeisydd fodloni un o'r meini prawf canlynol:

.1 bod yn aelod o staff Prifysgol Caerdydd am o leiaf chwe blynedd, a bod yn ddeiliad doethuriaeth, neu radd Meistr neu Faglor am o leiaf wyth mlynedd o unrhyw Brifysgol neu awdurdod dyfarnu cydnabyddedig; neu

.2 bod yn gynfyfyriwr Prifysgol Caerdydd (yn cynnwys graddedigion Prifysgol Cymru a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd neu un o'i rhagflaenwyr sefydliadol), ac wedi cael doethuriaeth neu radd Meistr neu Faglor o'r Brifysgol ers o leiaf wyth mlynedd.

3. Ymgeisio ac Asesu

3.1 Bydd ymgeisio ac asesu yn unol â'r Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cais, Cyflwyno ac Asesu Doethuriaethau Uwch.

3.2 Codir ffi wrth ddau gam: blaendal wrth wneud cais a'r gweddill wrth asesiad llawn pan mae cyflwyniad yn cael ei gyfeirio'n llwyddiannus yn dilyn adolygiad cychwynnol.

4. Meini prawf y dyfarniad

4.1 Bydd gofyn i'r cyflwyniad ddangos y canlynol:

.1 rhagoriaeth o ran ysgolheictod academaidd;

.2 gwaith o safon uchel ac unigryw;

.3 gwaith sy'n sylweddol o ran graddfa a chyfraniad parhaus at wybodaeth;

.4 pwysigrwydd rhyngwladol a chyrhaeddiad byd-eang;

.5 effaith y gwaith ar eraill yn y maes.

5. Ailgyflwyno cais

5.1 Mae ymgeisydd sydd heb gael gwahoddiad i asesiad llawn, neu nad oedd y cyflwyniad llawn yn deilwng o Ddoethuriaeth Uwch, yn gymwys i ailgyflwyno cais ar un achlysur arall.

Asesu

Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymderadwyo'r Rheoliadau Asesu a'r Bwrdd Arholi. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ynghylch Asesu, Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr, ac Arbenigedd Allanol yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r ddarparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
Mae'r darparwr yn sicrhau bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir eu cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, bydd wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau ei ddyfarniadau'n gredadwy ac yn ddiogel waeth ble neu ym mha fodd y darperir cyrsiau, neu bwy sy'n eu darparu.	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.

Mae’r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy’n ddibynadwy, teg a thryloyw.	Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau addysg.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran safonau	**Arferion cyffredin o ran ansawdd**
Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau’n rheolaidd ac yn defnyddio’r canlyniadau i sbarduno gwelliant.	Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio’r canlyniadau i sbarduno gwelliant.
	Mae agwedd y darparwr tuag at reoli ansawdd yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd allanol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

Rheoliadau Asesu a’r Bwrdd Arholi

1. **Cyffredinol**

1.1 Mae’r rheoliadau hyn yn gymwys i bob myfyriwr ar raglenni Is-raddedig ac Ôl-raddedig a addysgir sy’n arwain at un o ddyfarniadau penodol y Brifysgol.

2. **Asesu ac Arholi drwy gyfrwng y Gymraeg**

2.1 Mae’r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a, phan yn bosibl, bydd ceisiadau i gael asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu caniatáu.

2.2 Rhaid i unrhyw fyfyriwr sy’n dymuno cael ei arholi’n gyfan gwbl neu’n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg hysbysu Cofrestrydd Academaidd o’r cais, yn ysgrifenedig, cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd **wythnos 9** o bob semester, i sicrhau bod modd gwneud trefniadau priodol.

2.3 Os na fydd yn bosibl i wneud trefniadau priodol ar gyfer asesiad, bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu’n brydlon ac yn ysgrifenedig, gan nodi’r rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

3. **Cadw Gwyliau Crefyddol**

3.1 Rhaid i unrhyw fyfyriwr sy'n rhagweld na fydd yn gallu sefyll arholiadau na chymryd rhan mewn unrhyw asesiad arall, am resymau crefyddol, ar ddyddiau penodol gyflwyno cais ysgrifenedig i Gofrestrydd Academaidd cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd **wythnos 3** o bob semester, fan bellaf, i sicrhau bod modd ystyried yr amgylchiadau.

3.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd defodau crefyddol, ac er y bydd yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer ceisiadau o'r fath, efallai na fydd hi'n bosib eu bodloni ym mhob achos. Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y myfyriwr yn cael y penderfyniad, yn ysgrifenedig, ynghyd â'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

4. **Myfyrwyr sy'n Ofalwyr**

4.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod efallai y bydd myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofal angen addasiadau i'w rhaglen astudio i'w galluogi i chwarae rhan lawn a theg yn rhaglenni'r Brifysgol. Dylai myfyriwr sy'n ofalwr, ac sy'n rhagweld y bydd angen addasiadau i'w rhaglen o ganlyniad i'r cyfrifoldebau gofal, wneud cais i Bennaeth yr Ysgol am addasiadau.

4.2 Gellir gwneud addasiadau i alluogi myfyrwyr i ddilyn eu hastudiaethau, er enghraifft, drwy adolygu dyddiadau cyflwyno asesiadau, pan fydd arholiadau'n cael eu cynnal, neu'r modd astudio. Ni ellir gwneud newidiadau i'r cynnwys academaidd nac i ofynion dulliau asesu.

4.3 Gall myfyrwyr a fydd yn profi newidiadau i'w cyfrifoldebau gofal, a fydd yn effeithio ar asesiadau lle nad oes addasiadau wedi'u gwneud, wneud cais am amgylchiadau esgusodol o dan y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol.

5. **Myfyrwyr ag anableddau**

5.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod efallai y bydd angen addasiadau i asesiadau ar fyfyrwyr ag anableddau er mwyn eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn rhaglenni'r Brifysgol. Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, bydd y Brifysgol yn ystyried addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ag anableddau, ar yr amod na fydd hynny'n effeithio ar safonau cymhwysedd academaidd.

5.2 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Addasiadau Rhesymol yn cynnwys manylion am y broses sy'n galluogi myfyrwyr ag anableddau i ofyn am addasiadau rhesymol.

5.3 Bydd unrhyw addasiadau i asesiad yn parhau i ddangos y bydd myfyrwyr yn gallu cyflawni'r deilliannau neu'r cymwyseddau dysgu penodol ac na fydd safonau academaidd a, phan yn berthnasol, safonau cyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol yn cael eu peryglu.

6. Amgylchiadau Esgusodol

6.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd adegau pan fydd amgylchiadau personol myfyrwyr yn gallu effeithio ar eu hastudiaethau. Diffinnir Amgylchiadau Esgusodol fel rhai sydd:

- yn ddifrifol ac eithriadol; a
- heb eu rhagweld neu na ellid eu hosgoi; a
- yn digwydd yn agos at amser yr asesiad, neu lle gall y myfyriwr ddangos bod yr amgylchiadau wedi parhau i gael effaith ar eu perfformiad academaidd yn yr asesiad.

6.2 Gellir barnu bod amgylchiadau o'r fath wedi cael effaith niweidiol ar berfformiad academaidd y myfyriwr mewn asesiad a/neu eu bod wedi atal myfyriwr rhag cyflwyno asesiad gwaith cwrs a/neu fynychu asesiad a oedd wedi'i drefnu.

6.3 Mae'r **Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol** yn nodi sut y dylai myfyrwyr wneud cais i ofyn am i effaith yr amgylchiadau hyn ar asesiadau ac arholiadau gael eu hystyried. Os derbynnir fod amgylchiadau esgusodol, bydd y Bwrdd Arholi'n gweithredu'r datrysiad priodol. Bydd myfyrwyr yn cael manylion am y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol ar ddechrau bob sesiwn gan Bennaeth yr Ysgol.

7. Cyflwyno Gwaith Cwrs yn Hwyr

7.1 Bydd myfyrwyr yn cael eu hysbysu o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs a'r gofyniad i'w gyflwyno erbyn dyddiad penodedig. Mewn achosion lle bydd gwaith cwrs yn cael ei gyflwyno'n hwyr, a lle nad oes amgylchiadau esgusodol:

.1 Os bydd yr asesiad yn cael ei gyflwyno'n ddim mwy na 24 awr ar ôl y dyddiad cwblhau, bydd y marc ar gyfer yr asesiad yn cael ei gapio ar isafswm y marc pasio;

.2 Os bydd yr asesiad yn cael ei gyflwyno'n hwyrach na 24 awr ar ôl y dyddiad cwblhau, bydd marc o 0 yn cael ei roi am yr asesiad.

7.2 Gall myfyrwyr sy'n cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr yn gyson gael eu cyfeirio at Gefnogi a Lles Myfyrwyr neu, pan fo'n briodol, gael eu hystyried dan Weithdrefn Ymyrryd Cymorth i Fyfyrwyr.

8. Arholiadau

Trefniadaeth Arholiadau

8.1 Bydd pob Arholiad ar gyfer rhaglenni modiwlaidd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnodau arholi dynodedig neu'r cyfnod ailsefyll arholiadau. Cofrestrydd Academaidd fydd yn gyfrifol am amserlennu'r arholiadau.

8.2 Caiff cyfnodau arholi semester yr Hydref a'r Gwanwyn eu neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer cynnal arholiadau ac ar gyfer cyfnodau astudio preifat y myfyrwyr.

8.3 Bydd dyddiadau arholiadau'n cael eu trefnu'n unol â'r canllawiau a nodir yn y weithdrefn arholi.

8.4 Mae'r fformat ar gyfer cyfarwyddiadau'r papur arholiad wedi'u nodi yn y weithdrefn arholi.

Arholiadau y tu allan i Gaerdydd

8.5 Mae'r Brifysgol yn caniatáu i fathau o asesiadau, gan gynnwys arholiadau, gael eu cynnal mewn lleoliadau y tu allan i Gaerdydd a Phrifysgol Caerdydd.

8.6 Mae'r Brifysgol yn fodlon ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr unigol i ymgymryd ag asesiadau, gan gynnwys arholiadau, y tu allan i Gaerdydd yn ystod cyfnod ailsefyll arholiadau'r haf, ac mewn amgylchiadau eithriadol, a cheisiadau gan fyfyrwyr unigol i ymgymryd ag asesiadau, gan gynnwys arholiadau, y tu allan i Gaerdydd ar adegau eraill.

8.7 Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau ysgrifenedig i Bennaeth yr Ysgol sy'n disgrifio'r rheswm dros gyflwyno'r cais. Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd yn rhaid i'r myfyriwr dalu'r ffi a'r costau sy'n gysylltiedig â threfnu'r arholiad.

8.8 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn penderfynu a yw'n briodol i'r asesiad gael ei gynnal y tu allan i Gaerdydd a bydd yn anfon y cais hwn ymlaen gydag argymhelliad at Gofrestrydd Academaidd. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Gofrestrydd Academaidd.

8.9 Ni fydd Cofrestrydd Academaidd'n cymeradwyo'r cais os na ellir trefnu bod yr arholiadau'n cael eu cynnal ar yr un adeg yn y lleoliad arall a Chaerdydd, ac os nad yw Pennaeth yr Ysgol yn barod i bapur arholi gwahanol gael ei gyflwyno. Bydd Cofrestrydd Academaidd'n hysbysu'r myfyriwr a Phennaeth yr Ysgol yn ysgrifenedig o'r penderfyniad.

8.10 Os na fydd yn bosibl i wneud trefniadau boddhaol i gynnal yr arholiadau y tu allan i Gaerdydd, bydd yn rhaid i'r myfyriwr ddychwelyd i Gaerdydd i sefyll yr arholiad.

Cynnal Arholiadau

8.11 Mae disgwyliadau o ran ymddygiad myfyrwyr yn lleoliad yr arholiadau, ac mae manylion am eiriaduron a chyfrifianellau a ganiateir mewn arholiadau wedi'u nodi yn y Weithdrefn Arholi.

8.12 Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio mewn arholiadau, gan gynnwys nifer y goruchwylwyr a'u dyletswyddau, wedi'u nodi yn y Weithdrefn Arholi.

9. Marcio ac Adborth

9.1 Rhaid i Ysgolion roi gwybodaeth i'r myfyrwyr am asesiadau ymlaen llaw, gan bennu'r safonau a ddisgwylir yn yr asesiad hwnnw ac sy'n nodi'r meini prawf asesu a/neu'r cynlluniau marcio a ddefnyddir.

9.2 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn sefydlu gweithdrefnau a phrosesau sy'n sicrhau tegwch, cysondeb a thryloywder wrth farcio.

9.3 Rhaid i bob asesiad, lle bo modd, gael ei farcio yn ôl rhif.

9.4. Bydd Penaethiaid Ysgol yn rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod marciau'n cael eu rhoi i fyfyrwyr yn brydlon. Bydd myfyrwyr yn cael adborth fel y nodir yn y Polisi Adborth Academaidd i Fyfyrwyr a Addysgir.

9.5 Mae'n ofynnol i Benaethiaid Ysgol roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gan aseswyr y sgiliau priodol i asesu gwaith myfyrwyr.

9.6 Bydd y polisi marcio'n cynnwys rhagor o wybodaeth o ran disgwyliadau wrth farcio asesiadau.

9.7 Rhaid i bob papur arholiad, ac unrhyw asesiadau eraill sy'n cael eu hysgrifennu â llaw gan fyfyrwyr, fod yn ddarllenadwy. Os bydd marciwr yn barnu nad yw asesiad yn ddarllenadwy, bydd yn ei gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Arholi i'w ystyried. Os bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n cytuno ei fod yn annarllenadwy, gellir cymryd camau fel y nodwyd yn y Gweithdrefnau Arholi.

10. Arholwyr Allanol

10.1 Penodir arholwyr allanol i roi cyngor amhleidiol ac annibynnol, i wneud sylwadau ar ansawdd a safon y rhaglen(ni) o ran safonau a fframweithiau cenedlaethol, ac i wneud sylwadau ar gymharedd â safonau prifysgolion eraill y DU. Gofynnir i arholwyr allanol hefyd gadarnhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n sicrhau cywirdeb academaidd wedi cael eu gweithredu'n gyson a theg, ac i wneud sylwadau ar ymarfer da ac i wneud argymhellion ar eu gwella.

10.2 Bydd gan arholwyr allanol fri, hygrededd ac ehangder profiad digonol yn y ddisgyblaeth fel eu bod yn ennyn parch cymheiriaid academaidd a, lle bo hynny'n briodol, cymheiriaid proffesiynol;

10.3 Bydd arholwyr allanol yn cael ei penodi ar gyfer Byrddau Rhaglen/Cyfansawdd a Phwnc sy'n ystyried modiwlau neu unedau astudio sy'n cyfrannu tuag at y dyfarniad terfynol.

10.4 Bydd arholwyr allanol yn cael eu penodi gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn unol ag argymhelliad Pennaeth yr Ysgol.

10.5 Mae rôl a dyletswyddau arholwyr allanol, gwybodaeth am y trefniadau cynefino, a gofynion adrodd wedi'u nodi yn y Polisi Arholwyr Allanol.

11. Byrddau Arholi

11.1 Rôl Bwrdd Arholi yw:

- ystyried perfformiad pob myfyriwr mewn asesiadau;
- cadarnhau marciau modiwlau/unedau a chadarnhau penderfyniadau ar gynnydd myfyrwyr;
- argymell i Bwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol y dyfarniadau, a phan yn briodol, y dosbarthiad, i fyfyrwyr;
- monitro ansawdd a safon dyfarniadau a gwneud argymhellion yn ymwneud â gwella ansawdd a safonau i'r Bwrdd Astudiaethau.

11.2 Ni fydd Byrddau Arholi'n newid, yn diwygio nac yn amcangyfrif marciau.

Strwythur Byrddau Arholi

11.3 Bydd Byrddau Arholi'n cael eu sefydlu gan Benaethiaid Ysgol, yn unol ag un o'r strwythurau canlynol:

11.3.1 Strwythur Unedol

Bwrdd Arholi Rhaglen: Mae Bwrdd Arholi Rhaglen yn llwyr gyfrifol am un rhaglen neu fwy heb gyfeiriad at Fwrdd Arholi Pwnc. Bydd Byrddau Arholi Rhaglen, pan yn briodol, yn:

.1 ystyried unrhyw ddiffygion neu anghysondebau wrth gynnal arholiadau;

.2 penderfynu ar y camau sydd i'w cymryd yn achos myfyriwr sydd ag amgylchiadau esgusodol;

.3 cael cofnod o bob myfyriwr sydd wedi cyflwyno cais am addasiadau rhesymol, a chofnodi a yw'r addasiad rhesymol wedi'i gymeradwyo;

.4 cael cofnod o'r myfyrwyr hynny y caniatawyd iddynt sefyll asesiad atodol neu gael estyniad i ddyddiad cyflwyno gwaith cwrs;

.5 cadarnhau marciau pob myfyriwr am fodiwlau neu unedau astudio unigol;

.6 cadarnhau a yw pob myfyriwr wedi pasio neu fethu pob modiwl neu uned astudio;

.7 cadarnhau'r cyfleoedd, os oes rhai, i adfer y modiwlau neu'r unedau astudio a fethwyd;

.8 cadarnhau a gaiff myfyriwr symud ymlaen i gam nesaf y rhaglen;

.9 cadarnhau a fydd myfyriwr yn gymwys ai peidio i gael unrhyw ddyfarniad pwynt ymadael ar gyfer y rhaglen, pe bai'n tynnu'n ôl yn ddiweddarach neu fel arall yn methu cwblhau'r rhaglen;

.10 cadarnhau a ddylai'r myfyriwr dderbyn y dyfarniad a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen;

.11 cadarnhau, lle bo hynny'n briodol, ddosbarthiad pob myfyriwr.

11.3.2 **Strwythur 2 Haen**

Bwrdd Arholi Pwnc: Mae Bwrdd Arholi Pwnc yn is-fwrdd sy'n gyfrifol am un neu ragor o fodiwlau neu unedau astudio ac sy'n gwneud argymhellion i Fwrdd Arholi Cyfun. Bydd Byrddau Arholi Pwnc yn gwneud argymhellion, yn ysgrifenedig, i'r Bwrdd Arholi Cyfun ar:

.1 y marciau sydd i'w rhoi i bob myfyriwr am bob modiwl neu uned astudio unigol;

.2 unrhyw ddiffygion neu anghysondebau wrth gynnal arholiadau.

Bwrdd Arholi Cyfun: Mae Bwrdd Arholi Cyfun yn gyfrifol am un neu ragor o raglenni a chaiff argymhellion gan un neu ragor o Fyrddau Arholi Pwnc. Bydd Byrddau Arholi Cyfun, os yw'n briodol, yn:

.1 ystyried unrhyw ddiffygion neu anghysondebau wrth gynnal arholiadau, ac argymhellion y Bwrdd Arholi Pwnc yn eu cylch, os oes rhai;

.2 penderfynu ar y camau sydd i'w cymryd yn achos myfyriwr sydd ag amgylchiadau esgusodol;

.3 cael cofnod o bob myfyriwr sydd wedi cyflwyno cais am addasiadau rhesymol, a chofnodi a yw'r addasiad rhesymol wedi'i gymeradwyo;

.4 cael cofnod o'r myfyrwyr hynny y caniatawyd iddynt sefyll asesiad atodol neu gael estyniad i ddyddiad cyflwyno gwaith cwrs;

.5 cadarnhau marciau pob myfyriwr am fodiwlau neu unedau astudio unigol;

.6 cadarnhau a yw pob myfyriwr wedi pasio neu fethu pob modiwl neu uned astudio;

.7 cadarnhau'r cyfleoedd, os oes rhai, i adfer y modiwlau neu'r unedau astudio a fethwyd;

.8 cadarnhau a gaiff myfyriwr symud ymlaen i flwyddyn nesaf neu gam academaidd nesaf y rhaglen;

.9 cadarnhau a fydd myfyriwr yn gymwys ai peidio i gael unrhyw ddyfarniad pwynt ymadael ar gyfer y rhaglen, pe bai'n tynnu'n ôl yn ddiweddarach neu fel arall yn methu cwblhau'r rhaglen;

.10 cadarnhau a ddylai'r myfyriwr dderbyn y dyfarniad dynodedig ar gyfer y Rhaglen;

.11 cadarnhau, lle bo hynny'n briodol, ddosbarthiad pob myfyriwr.

Aelodaeth

11.4 Bydd aelodaeth Byrddau Arholi yn cynnwys:

.1 Cadeirydd y Bwrdd Arholi;

Cadeirydd Rhaglen neu Fwrdd Arholi Rhaglen fydd Pennaeth yr Ysgol neu bydd aelod arall o staff yn cael ei enwebu. Os bydd Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd y Bwrdd yn penodi dirprwy, o blith y staff uwch sy'n bresennol yn y cyfarfod lle bo hynny'n bosibl.

.2 Yr Arholw(y)r Mewnol;

Caiff Arholwyr Mewnol eu penodi gan Bennaeth yr Ysgol ar sail cyngor Bwrdd yr Ysgol, a bydd yn cynnwys llefarydd ar gyfer pob modiwl/uned astudio.

Bydd disgwyl i bob **Arholwyr Mewnol** fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd Arholi oni chafodd eu habsenoldeb ei awdurdodi gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi.

.3 Yr Arholw(y)r Allanol, os oes modiwl neu uned astudio sy'n cyfrannu at yr asesiad terfynol yn cael eu hystyried.

.4 Cadeirydd y Grŵp Amgylchiadau Esgusodol neu enwebai.

.5 Aelodau Ymgynghorol

Gall Cadeirydd Bwrdd Arholi wahodd unigolion priodol i ddod i gyfarfod o Fwrdd Arholi i weithredu fel ymgynghorwyr. Ni fydd gan yr unigolion hynny hawliau pleidleisio.

Datgan Budd Personol

11.5 Rhaid i staff hysbysu Pennaeth eu Hysgol o unrhyw fudd personol sy'n gysylltiedig â myfyriwr, a hynny cyn gynted â phosibl er mwyn gallu rhoi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu uniondeb yr asesiad..

11.6 Os bydd aelod o staff wedi hysbysu Pennaeth yr Ysgol o fudd personol sy'n gysylltiedig â myfyriwr, bydd Pennaeth yr Ysgol, ar ôl ymgynghori â Chofrestrydd Academaidd, fel y barno'n briodol:

.1 yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau nad yw'r aelod o'r staff yn gyfrifol am osod papurau cwestiwn arholiad sydd i'w sefyll gan y myfyriwr na marcio unrhyw un o asesiadau'r myfyriwr, a rhaid iddo/iddi hysbysu Cofrestrydd Academaidd o'r mesurau a gymerwyd;

.2 yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd Arholi o fudd yr aelod o staff yn gysylltiedig â'r myfyriwr a bod gofyn i'r aelod hwnnw dynnu'n ôl o'r cyfarfod o'r Bwrdd Arholi pan drafodir achos y myfyriwr;

.3 yn cyfarwyddo Cadeirydd y Bwrdd Arholi i sicrhau bod datganiad o fudd, a'r ffaith bod yr aelod o'r staff wedi tynnu'n ôl o'r Bwrdd Arholi, gael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Arholi.

Cworwm

11.7 Bydd cworwm ar gyfer Byrddau Arholi pan fydd y Cadeirydd yn fodlon bod llefarydd/llefarwyr priodol ar gyfer pob modiwl/uned astudio yn bresennol.

Gweithrediad Byrddau Arholi

11.8 Mae'r Rheolau Dadlau ar gyfer Byrddau Arholi wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog, Ordinhad 11.

11.9 Bydd Byrddau Arholi yn ystyried perfformiad pob myfyriwr yn unol â Rheoliadau'r Senedd, a rheolau Cynnydd y Rhaglen, y rheolau Ailsefyll ac Ailadrodd, a'r Rheolau Dyfarniadau a Dosbarthiadau. Bydd Bwrdd Arholi Rhaglen neu Fwrdd Arholi Cyfun yn cadarnhau'r canlynol ar gyfer pob myfyriwr:

.1 marc y modiwl ar gyfer pob modiwl **ac** a yw'r myfyriwr:

- yn gymwys i gael credyd; **neu**
- wedi methu'r Modiwl a cymhwysedd ar gyfer ailasesiad; **ac**
- wedi profi amgylchiadau esgusodol a effeithiodd ar asesiad(au).

.2 y penderfyniad ar gynnydd neu argymhelliad ar gyfer dyfarnu'n seiliedig ar y rheol cynnydd. rheol ailsefyll/ailadrodd, a'r rheol dyfarnu a dosbarthu priodol.

<u>Cydoddefiad</u>

11.10 Bydd Bwrdd Arholi'n dyfarnu credyd i fyfyriwr mewn modiwl(au) i ganiatáu cynnydd neu ddyfarniad lle mae:

.1 ar gyfer **credyd lefel 3, 4, 5, 6% neu 7[1]** mae marc modiwl o 35%, 36%, 37%, 38% neu 39% wedi'i gyflawni **ac** mae canlyniad lefel/blwyddyn y myfyriwr yn y lefel/blwyddyn astudio honno, ym mhob modiwl sy'n cyfrannu, yn 45% o leiaf;

neu

ar gyfer **credyd lefel 7**[2] **ac 8** mae **marc** modiwl o 45%, 46%, 47%, 48% neu 49% wedi'i gyflawni ac **mae** canlyniad lefel/blwyddyn y myfyriwr yn y lefel/blwyddyn astudio honno, ym mhob modiwl sy'n cyfrannu, yn 55% o leiaf;

ac yn cael ei

.2 **nid** yw'r modiwl(au) yn fodiwl(au) gorfodol; **ac**

.3 yn achos modiwl lle y mae marc cymhwyso yn ofynnol ar gyfer un neu fwy o gydrannau asesiad, mae'r marc(iau) cymhwyso wedi eu cyflawni; **ac**

.4 nid yw'r myfyriwr wedi methu dim mwy na'r terfynau a gydoddefir ac sydd wedi'u nodi yn y tabl isod:

Hyd y rhaglen (mewn camau)	Credyd y gellir ei gydoddef mewn 1 cam (uchafswm)	Credyd y gellir ei gydoddef mewn 1 rhaglen (uchafswm)
Rhaglenni i israddedigion		
1 neu 2	30	30
3 neu ragor	30	60
Rhaglenni Meistr a Diploma Ôl-raddedig		
1 neu ragor	30	30

[1] Rhaglenni i israddedigion
[2] Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir

11.11 Wrth ddyfarnu credyd, ni chaiff marc y modiwl a gadarnhawyd gan y Bwrdd Arholi ei newid, a bydd yn cael ei ddefnyddio, pan yn gymwys, wrth gyfrifo dosbarthiad unrhyw ddyfarniad, a bydd yn ymddangos yn y trawsgrifiad. Ni chaniateir i Fyrddau Arholi newid marciau modiwl unigol.

11.12 Ni fydd cydoddefiad yn cael ei weithredu mewn modiwlau a effeithir gan amgylchiadau esgusodol, oni bai bod modd argymell y myfyriwr am ddyfarniad a fwriadwyd. Os yw cydoddefiad yn cael ei weithredu mewn modiwlau sy'n cael eu heffeithio gan amgylchiadau esgusodol, bydd y modiwl yn parhau'n gymwys ar gyfer diystyru dosbarthiad y dyfarniad.

11.13 **Ni chaiff cydoddefiad ei weithredu:**

.1 lle mae myfyriwr wedi methu mwy o gredydau na'r hyn sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod **nac**;

.2 mewn Modiwlau Gofynnol; **nac**

.3 yn achos modiwl lle mae marc cymhwyso'n ofynnol ar gyfer un gydran neu fwy o'r asesiad, lle **na chyrhaeddwyd** y marc(iau) cymhwyso.

.4 Lle nad yw Corff Proffesiynol, Statudol, neu Reoleiddiol yn caniatáu cydoddefiad, neu'n cyfyngu at uchafswm y cydoddefiad a ganiateir. Mewn achosion o'r fath, rhaid i Bennaeth yr Ysgol sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu o unrhyw amrywiad i'r rheoliadau cydoddef at ddechrau'r rhaglen.

Diystyru

11.14 Gall Byrddau Arholi Terfynol ddiystyru marciau modiwl sydd wedi'u heffeithio gan amgylchiadau esgusodol neu ddiffyg neu anghysondeb yn y modd y cafodd yr asesiad ei gynnal wrth gyfrifo'r marc terfynol i ddosbarthu dyfarniad myfyriwr, **os:**

.1 nad oes unioni digonol wedi'i weithredu'n flaenorol;

.2 os yw o fudd i'r myfyriwr;

.2 bod y myfyriwr wedi cyflawni digon o gredydau i gael y dyfarniad.

11.15 Gellir diystyru uchafswm o 1/6ed o gyfanswm y credydau a addysgir, ac eithrio blwyddyn o Ddysgu drwy Brofiad, neu flwyddyn dramor, sy'n cyfrannu at y dyfarniad terfynol.

11.16 Mewn amgylchiadau eithriadol gall Pennaeth Ysgol wneud cais i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd i ganiatáu i'r Bwrdd Arholi ddiystyru rhagor o gredydau o ddosbarthiad y dyfarniad.

12. Dyfarniadau Aegrotat - Rhaglenni a Addysgir

12.1 Os bydd salwch neu resymau meddygol eraill yn atal ymgeisydd rhag cwblhau arholiadau terfynol neu asesiadau terfynol eraill mewn rhaglen, gall y Bwrdd Arholi, ar ôl ystyried y dystiolaeth berthnasol (a ddylai gynnwys tystysgrif feddygol foddhaol) argymell i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, drwy'r Cofrestrydd Academaidd, bod dyfarniad *Aegrotat* yn cael ei wneud.

12.2 Rhaid i Fwrdd Arholi sy'n argymell dyfarnu dyfarniad Aegrotat gael ei fodloni bod perfformiad blaenorol yr ymgeisydd yn dangos, yn ôl pob tebygolrwydd, y byddai wedi pasio oni bai am y salwch/y digwyddiad dan sylw. Rhaid i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd gael ei fodloni nad yw'r ymgeisydd yn debygol o allu dychwelyd i gwblhau ei astudiaethau ar ddyddiad diweddarach o fewn cyfnod rhesymol.

12.3 Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ofyn bod y myfyriwr yn cadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn barod i dderbyn dyfarniad Aegrotat. Bydd cadarnhad a lofnodwyd gan y myfyriwr sy'n nodi eu parodrwydd i dderbyn dyfarniad Aegrotat yn cael ei gyflwyno gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi gyda'r argymhelliad i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd i wneud dyfarniad Aegrotat.

12.4 Os nad yw myfyriwr yn barod i dderbyn dyfarniad Aegrotat, gall y Bwrdd Arholi ystyried, pan yn briodol, ddyfarniad ymadael neu gall ofyn am estyniad priodol i gyfnod astudio'r myfyriwr a chaniatáu i'r myfyriwr gwblhau'r arholiadau/asesiadau'n ddiweddarach.

12.5 Bydd gradd, diploma neu dystysgrif Aegrotat yn ddi-ddosbarth, ac ni fydd yn cael eu graddio fel arall. Ni fydd dyfarniad Aegrotat o reidrwydd yn rhoi hawl i'r deilydd i gofrestru gyda chorff proffesiynol, nac yn eu heithrio rhag gofynion unrhyw gymhwyster proffesiynol, nac yn caniatáu iddynt symud

ymlaen i raglen academaidd arall neu gam arall mewn rhaglen a allai fod yn gysylltiedig mewn modd arall â'r rhaglen dan sylw.

12.6 Ni chaiff unrhyw ymgeisydd ei eithrio rhag cyflwyno traethawd hir Meistr (neu gyflwyniad cyfatebol) os yw'n ofynnol gwneud hynny. Dim ond os oes modd asesu'r traethawd hir y gellir dyfarnu graddau Meistr Aegrotat a addysgir. Nid yw'r gofyniad hwn yn atal rhoi unrhyw ddyfarniad perthnasol i'r myfyriwr y gellid ei wneud mewn perthynas â gwaith astudio a gwblhawyd yn flaenorol.

13. Dyfarniadau ar ôl Marwolaeth - Rhaglenni a Addysgir

13.1 Gall Bwrdd Arholi, drwy'r Cofrestrydd Academaidd, argymell y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd i gyflwyno dyfarniad ar ôl marwolaeth lle mae ymgeisydd sy'n gweithio tuag at ddyfarniad a addysgir wedi marw ac mae'r Bwrdd Arholi yn fodlon, ar sail tebygolrwydd, bod perfformiad yr ymgeisydd ar y rhaglen yn dangos y byddai wedi pasio.

14. Canlyniadau, Trawsgrifiadau, a Datgelu Marciau

14.1 Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn hysbysu myfyrwyr yn ysgrifenedig o'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd/Byrddau Arholi mewn perthynas â marciau modiwlau, canlyniadau modiwlau, cynnydd, dyfarniadau a dosbarthiadau, fel y bo'n briodol.

14.2 Ar ôl cwblhau astudiaethau myfyriwr, bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cyflwyno trawsgrifiad i bob myfyriwr, mewn ffurf gymeradwy, a phan yn briodol tystysgrif radd.

14.3 Ni chodir ffi am gyhoeddi'r trawsgrifiad a'r dystysgrif. Codir ffi weinyddol am dystysgrif neu drawsgrifiad newydd.

15. Ffioedd Ailgofrestru

15.1 Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn hysbysu myfyrwyr yn ysgrifenedig o unrhyw Ffioedd ailgofrestru sy'n daladwy gan ymgeiswyr sydd am gael eu hailasesu mewn un neu fwy o fodiwlau neu unedau astudio.

16. Eithriadau

16.1 Mewn achosion lle byddai cymhwyso'r rheoliadau hyn yn rhoi myfyriwr unigol dan anfantais annheg, ond heb effeithio ar safonau academaidd, gall Cadeirydd Bwrdd Arholi ofyn i'r Rhag Is-Ganghellor (Profiad y Myfyriwr a Safonau Academaidd) i eithrio myfyriwr o ran o'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Asesu Graddau Ymchwil. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Côd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol yn arbennig o berthnasol.

Disgwyliadau o ran safonau	**Disgwyliadau o ran ansawdd**
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa arno.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr, wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohoni.
Arferion craidd o ran safonau	**Arferion craidd o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, teg a thryloyw.	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
	Pan fydd y darparwr yn cynnig graddau ymchwil mae'n cyflawni'r rhain mewn amgylcheddau ymchwil priodol a chefnogol.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran safonau	**Arferion cyffredin o ran ansawdd**
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau'n rheolaidd ac	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac

yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.	yn defnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant.
	Mae agwedd y darparwr tuag at reoli ansawdd yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd allanol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil

1. **Datganiadau Cyffredinol**

1.1 Mae'r rheoliadau asesu hyn ar gyfer rhaglenni gradd ymchwil sy'n arwain at ddyfarnu'r graddau canlynol: PhD (Doethur mewn Athroniaeth), gan gynnwys PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd; MD (Doethur mewn Meddygaeth); EngD (Doethur mewn Peirianneg); Graddau Doethurol drwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil (Doethuriaethau Proffesiynol), gan gynnwys EngD (Doethur mewn Peirianneg); ac MPhil (Meistr mewn Athroniaeth).

1.2 Gall y Brifysgol gyflwyno gradd ymchwil i gydnabod bod rhaglen astudiaeth ac ymchwil annibynnol wedi'i chwblhau yn llwyddiannus, a allai fod wedi cynnwys cyfnodau o ymarfer proffesiynol cymeradwy.

1.3 Mae'r asesiad ar gyfer dyfarnu gradd ymchwil yn cynnwys asesu traethawd ymchwil, neu fformat arall cyfatebol a gymeradwyir, ac amddiffyniad yr ymgeisydd o'r traethawd hwnnw drwy arholiad llafar. Mae asesiad ar gyfer dyfarnu Gradd Ddoethurol drwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil (Doethuriaeth Broffesiynol) yn cynnwys hefyd arholiad o gydraddau a addysgir a/neu ymarfer proffesiynol.

2. **Meini prawf ar gyfer Dyfarnu'r Radd**

2.1 **Er mwyn dyfarnu gradd ddoethurol**, ystyrir bod canlyniadau'r rhaglen astudio annibynnol a'r ymchwil yn gyfraniad gwreiddiol at ddysgu ac yn dystiolaeth o:

.1 greu a dehongli gwybodaeth newydd, drwy gyfrwng ymchwil gwreiddiol sy'n ehangu'r ddisgyblaeth ac sydd o ansawdd sy'n bodloni adolygiad gan gymheiriaid, ac yn haeddu ei chyhoeddi;

.2 dealltwriaeth systematig o gorff sylweddol o wybodaeth sydd ar flaen y ddisgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol;

.3 y gallu i gysylltu canlyniadau astudiaeth o'r fath â chorff cyffredinol gwybodaeth yn y ddisgyblaeth;

.4 y gallu i gysyniadu, dylunio a rhoi prosiect ar waith ar gyfer creu gwybodaeth, cymwysiadau neu ddealltwriaeth, ac addasu dyluniad y prosiect yng ngoleuni problemau nas rhagwelwyd;

.5 dealltwriaeth fanwl o dechnegau a dulliau cymwys ar gyfer ymchwil ac ymchwiliad academaidd uwch;

.6 gwerthusiad o dechnegau a methodolegau, datblygu beirniadaeth a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd.

2.2 **Ar ben hynny, mewn perthynas â dyfarniad MD,** bernir bod canlyniadau'r astudiaeth ac ymchwil yn gyfystyr â chyfraniad gwreiddiol at wybodaeth feddygol neu lawfeddygol, a bydd yn darparu tystiolaeth o wreiddioldeb naill ai trwy ddarganfod ffeithiau newydd neu drwy arfer pŵer beirniadol annibynnol. Bydd yr ymgeisydd yn dangos sut mae'r traethawd ymchwil yn hyrwyddo ymarfer a/neu wybodaeth glinigol.

2.3 **Hefyd, o ran Graddau Doethurol drwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil (Doethuriaethau Proffesiynol)**, rhaid pasio cydrannau a addysgir a/neu broffesiynol a'r cydrannau ymchwil annibynnol (y gellir cyfeirio ato fel 'traethawd ymchwil' neu 'bortffolio ymchwil') er mwyn cymhwyso ar gyfer y dyfarniad.

2.4 **Er mwyn dyfarnu gradd MPhil**, ystyrir bod canlyniadau'r rhaglen astudio annibynnol a'r ymchwil yn werthusiad beirniadol ac yn ddadansoddiad o gorff o wybodaeth, ac er mwyn rhoi tystiolaeth o:

.1 ddealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth gritigol o broblemau cyfredol a/neu ddealltwriaeth newydd, llawer ohono ar flaen y pwnc academaidd, y maes astudio, neu'r maes ymarfer proffesiynol neu'n seiliedig arno;

.2 dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n berthnasol i'r ymchwil neu'r ysgoloriaeth uwch;

.3 gwreiddioldeb wrth ddefnyddio gwybodaeth, a dealltwriaeth ymarferol o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y pwnc

.4 dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi gwerthusiad beirniadol o ymchwil gyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth, ac o dechnegau a dulliau.

3. **Asesu Cydrannau a Addysgir a/neu Ymarfer Proffesiynol (Doethuriaethau Proffesiynol)**

3.1 Bydd Gwybodaeth y Rhaglen yn cynnwys manylion:

.1 natur ac amseriad asesiadau;

.2 y penderfyniadau sy'n agored i Fyrddau Arholi, gan gynnwys unrhyw ddilyniant;

.3 penderfyniadau a chyfleoedd i ailasesu asesiadau a fethwyd;

.4 amseriad asesiadau.

3.2 Bydd asesu cydraddau a addysgir a gwerthuso ymarfer proffesiynol, lle bo'n berthnasol, yn cynnwys asesiadau o gymeriad uwch mewn meysydd astudio a nodwyd yn y wybodaeth am y rhaglen.

3.3 Bydd y Bwrdd Arholi sy'n gweithredu yn unol â Rheoliadau Asesu'r Senedd ar gyfer Rhaglenni a Addysgir yn asesu'r cydrannau a addysgir a/neu ymarfer proffesiynol.

3.4 Bydd ymgeisydd sy'n methu arholiad o gydran a addysgir neu ymarfer yn cael, os yw'r Bwrdd Arholi yn caniatáu, ailsefyll yr arholiad un waith eto yn unig. Bydd rhaid talu ffi ail-arholi.

4. Asesiad o'r Traethawd/Portffolio Ymchwil

4.1 Bydd pob traethawd ymchwil (a ddyfernir fel 'portffolio ymchwil' o ran Doethuriaethau Proffesiynol) a gaiff eu derbyn ar gyfer arholiad yn llawn neu'n rhannol er mwyn bodloni anghenion y dyfarniad a asesir gan y Bwrdd Arholi a ymgynullir yn unol â'r Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Penodi Byrddau Arholi Graddau Ymchwil (Viva).

4.2 Mae'r arholiad llafar (viva) yn elfen annatod a gorfodol o'r broses arholi. Caiff ei drefnu a'i gynnal yn unol â'r Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Cynnal arholiadau Graddau Ymchwil.

4.3 Gall yr arholwyr hepgor yr gofyniad i gynnal ail viva ar gyfer traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd, ond rhaid iddynt fod yn unfrydol eu barn bod y traethawd ymchwil yn bodloni gofyniad y dyfarniad o dan sylw.

4.4 Rhaid i'r viva gael ei gynnal wyneb yn wyneb yn y Brifysgol gyda phawb sy'n berthnasol yn bresennol yn yr un ystafell ar yr un amser, oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi i gynnal y viva drwy gyfryngau electronig neu y tu allan i'r Brifysgol yn unol â'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Trefnu a Chynnal Arholiadau Gradd Ymchwil (Viva) mewn Fformatau Amgen.

5. Argymhellion ar gyfer y Dyfarniad

5.1 Wrth argymell yr ymgeisydd ar gyfer y radd, bydd y Bwrdd Arholi yn cadarnhau bod y traethawd ymchwil/portffolio ymchwil a gyflwynwyd yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ar ôl asesu'r gwaith, bydd yn gwneud un o'r argymhellion canlynol:

.1 Graddau doethurol <u>ar wahân i</u> DClinPsy, DEdPsy a PhD drwy Waith a Gyhoeddir

- Cymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer y dyfarniad.

  Gall yr arholwyr ofyn am ddim cywiriadau neu am fân gywiriadau sillafu i'r traethawd ymchwil. Caiff unrhyw gywiriadau eu gwneud ymhen 1 wythnos ar ôl yr arholiad ac nid ydynt fel arfer yn rhai y byddai'r arholwr yn gwirio eu bod wedi'u cwblhau'n ddigonol fel arfer.

- Caiff yr ymgeisydd ei gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad ar ôl cwblhau cywiriadau a newidiadau.

  Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cywiriadau a newidiadau a nodwyd gan yr arholwyr, ymhen 12 wythnos ar ôl yr arholiad. Gofynnir i un o'r arholwyr, neu'r ddau ohonynt, gadarnhau bod y cywiriadau wedi'i cwblhau'n foddhaol.

- Gwahoddir yr ymgeisydd i adolygu ac ailgyflwyno ei draethawd ymchwil ar gyfer y dyfarniad.

  Caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno ei draethawd ymchwil unwaith yn ychwanegol yn unig. Rhaid ailgyflwyno'r traethawd ymchwil rhwng 12 wythnos a dim mwy na 1 flwyddyn ar ôl dyddiad yr arholiad. Rhaid asesu'r traethawd ymchwil o'r newydd, gan yr arholwyr gwreiddiol fel arfer. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu ffi ailgyflwyno.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer dyfarniad doethurol ond fe'i cymeradwyir ar gyfer MPhil neu'r is-ddyfarniad a nodwyd ar gyfer y rhaglen.

  Gall yr arholwyr ofyn am ddim cywiriadau neu am fân gywiriadau sillafu i'r traethawd ymchwil. Caiff unrhyw gywiriadau eu gwneud ymhen 1 wythnos ar ôl yr arholiad ac nid ydynt fel arfer yn rhai y byddai'r arholwr yn gwirio eu bod wedi'u cwblhau'n ddigonol fel arfer.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer dyfarniad doethurol ond fe'i cymeradwyir ar gyfer MPhil neu'r is-ddyfarniad a nodwyd ar gyfer y rhaglen ar ôl cwblhau cywiriadau a newidiadau.

  Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cywiriadau a newidiadau a nodwyd gan yr arholwyr, ymhen 12 wythnos ar ôl yr arholiad. Gofynnir i un o'r arholwyr, neu'r ddau ohonynt, gadarnhau bod y cywiriadau wedi'i cwblhau'n foddhaol.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer dyfarniad doethurol ond fe'i gwahoddir i adolygu ac ailgyflwyno ei draethawd ymchwil ar gyfer MPhil neu'r is-ddyfarniad a nodwyd ar gyfer y rhaglen.

  Caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno ei draethawd ymchwil ar gyfer is-ddyfarniad unwaith yn ychwanegol yn unig. Rhaid ailgyflwyno'r traethawd ymchwil rhwng 12 wythnos a dim mwy na 1 flwyddyn ar ôl dyddiad y broses arholi. Rhaid asesu'r

traethawd ymchwil o'r newydd, gan yr arholwyr gwreiddiol fel arfer. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu ffi ailgyflwyno.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd i gael y dyfarniad ac ni chaniateir cyflwyniad arall.

.2 DClinPsy a DEdPsy: asesiad o gydran ymchwil o bwys

- Mae'r ymgeisydd wedi'i gymeradwyo i basio eu traethawd ymchwil neu eu portffolio ymchwil.

  Gall yr arholwyr ofyn am ddim cywiriadau neu am fân gywiriadau sillafu i'r traethawd ymchwil/portffolio. Caiff unrhyw gywiriadau eu gwneud ymhen 1 wythnos ar ôl yr arholiad ac nid ydynt fel arfer yn rhai y byddai'r arholwr yn gwirio eu bod wedi'u cwblhau'n ddigonol fel arfer.

- Caiff yr ymgeisydd ei gymeradwyo i basio ei draethawd ymchwil neu bortffolio ymchwil ar ôl cwblhau cywiriadau a newidiadau.

  Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cywiriadau a newidiadau a nodwyd gan yr arholwyr, ymhen 12 wythnos ar ôl yr arholiad. Gofynnir i un o'r arholwyr, neu'r ddau ohonynt, gadarnhau bod y cywiriadau wedi'i cwblhau'n foddhaol.

- Gwahoddir yr ymgeisydd i adolygu ac ailgyflwyno ei draethawd ymchwil neu bortffolio ymchwil.

  Caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno ei draethawd ymchwil/portffolio unwaith yn ychwanegol yn unig. Rhaid ailgyflwyno'r traethawd/portffolio ymchwil rhwng 12 wythnos a dim mwy na 1 flwyddyn ar ôl dyddiad yr arholiad. Rhaid asesu'r traethawd ymchwil/portffolio o'r newydd, gan yr arholwyr gwreiddiol fel arfer. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu ffi ailgyflwyno.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd i basio ei draethawd ymchwil neu bortffolio ymchwil ac ni chaniateir unrhyw gyflwyniad pellach.

.3 DClinPsy a DEdPsy: asesu'r rhaglen

- Bydd Bwrdd Arholi'r Rhaglen yn ystyried yr holl asesiadau terfynol o gydrannau clinigol, ymchwil ac a addysgir ar ddiwedd y rhaglen.

.4 MPhil

- Cymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer y dyfarniad.

  Gall yr arholwyr ofyn am ddim cywiriadau neu am fân gywiriadau sillafu i'r traethawd ymchwil. Caiff unrhyw gywiriadau eu gwneud ymhen 1 wythnos ar ôl yr arholiad ac nid ydynt fel arfer yn rhai y byddai'r arholwr yn gwirio eu bod wedi'u cwblhau'n ddigonol fel arfer.

- Caiff yr ymgeisydd ei gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad ar ôl cwblhau cywiriadau a newidiadau.

  Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cywiriadau a newidiadau a nodwyd gan yr arholwyr, ymhen 12 wythnos ar ôl yr arholiad. Gofynnir i un o'r arholwyr, neu'r ddau ohonynt, gadarnhau bod y cywiriadau wedi'i cwblhau'n foddhaol.

- Gwahoddir yr ymgeisydd i adolygu ac ailgyflwyno ei draethawd ymchwil ar gyfer y dyfarniad.

  Caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno ei draethawd ymchwil unwaith yn ychwanegol yn unig. Rhaid ailgyflwyno'r traethawd ymchwil rhwng 12 wythnos a dim mwy na 1 flwyddyn ar ôl dyddiad yr arholiad. Rhaid asesu'r traethawd ymchwil o'r newydd, gan yr arholwyr gwreiddiol fel arfer. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd dalu ffi ailgyflwyno.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd i gael y dyfarniad ac ni chaniateir cyflwyniad arall.

.5 PhD drwy Waith a Gyhoeddir

- Cymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer y dyfarniad.

  Gall yr arholwyr ofyn am ddim cywiriadau neu am fân gywiriadau sillafu i'r sylwadau beirniadol. Caiff unrhyw gywiriadau eu gwneud ymhen 1 wythnos ar ôl yr arholiad ac nid ydynt fel arfer yn rhai y byddai'r arholwr yn gwirio eu bod wedi'u cwblhau'n ddigonol fel arfer.

- Caiff yr ymgeisydd ei gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad ar ôl cwblhau cywiriadau a newidiadau.

  Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau cywiriadau a newidiadau o'r sylwadau beirniadol, fel y nodwyd gan yr arholwyr, ymhen 12 wythnos ar ôl yr arholiad. Gofynnir i un o'r arholwyr, neu'r ddau ohonynt, gadarnhau bod y cywiriadau wedi'i cwblhau'n foddhaol.

- Ni chymeradwyir yr ymgeisydd ar gyfer y dyfarniad.

  Pan mae Bwrdd Arholi yn argymell peidio â chymeradwyo ymgeisydd PhD gan Waith Cyhoeddedig ar gyfer y dyfarniad, gall y Bwrdd benderfynu argymell y dylid caniatáu ymgeisydd i wneud cyflwyniad arall ar ôl talu ffi ailgyflwyno, er mwyn cynnwys rhagor o waith cyhoeddedig. Rhaid ailgyflwyno ymhen 5 mlynedd ar ôl dyddiad yr arholiad.

6. Dyfarniadau aegrotat : graddau ymchwil

6.1 Gellir dyfarnu gradd ymchwil os na all myfyriwr gwblhau ei raglen astudio oherwydd salwch angheuol. Lle cyflwynir dyfarniad aegrotat, bydd y Brifysgol yn cytuno y byddai'r myfyriwr, heblaw am ei salwch, wedi cwblhau'r radd

ymchwil.

6.2 Gellir dyfarnu gradd ymchwil o dan yr amgylchiadau canlynol:

.1 Yn dilyn y viva lle byddai salwch y myfyriwr yn eu hatal rhag gwneud addasiadau i'r traethawd ymchwil, neu rhag ailgyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi ymhellach.

.2 Ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno (neu ailgyflwyno) ond cyn yr arholiad viva (lle bo angen ailgyflwyno) ac ni all y myfyriwr fynd i'r arholiad viva.

.3 Cyn i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno i'w arholi, lle bod digon o waith wedi cael ei gyflawni at safon gyfatebol i ofynion y radd o dan archwiliad.

6.3 Rhaid i'r myfyriwr roi tystiolaeth feddygol o'i gyflwr a chadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn fodlon derbyn dyfarniad aegrotat cyn i'r broses asesu ddechrau.

Ystyried dyfarniad aegrotat yn dilyn y viva

6.4 Os oes arholiad viva wedi'i gynnal ac mae salwch y myfyriwr yn eu hatal rhag gwneud adolygiadau i'r traethawd ymchwil sy'n ofynnol gan yr arholwyr i ddyfarniad gael ei argymell yn y ffordd arferol, gellir gofyn i arholwyr ystyried argymell dyfarniad aegrotat.

Ystyried dyfarniad aegrotat ar ôl i draethawd ymchwil gael ei gyflwyno

6.5 Ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno (neu ailgyflwyno) ond cyn yr arholiad viva (lle bo angen ailgyflwyno) ac ni all y myfyriwr fynd i'r arholiad viva, penodir arholwyr, a chaiff y traethawd hir ei asesu yn y ffordd arferol. Bydd yr arholwyr yn cael gwybod na fydd arholiad viva yn cael ei gynnal, ac ni fydd angen cywiro nac adolygu'r traethawd hir.

Ystyried dyfarniad aegrotat cyn i draethawd ymchwil gael ei gyflwyno

6.6 Os na fydd myfyriwr wedi cyflwyno ei draethawd hir eto, mae'n rhaid i ddigon o waith gael ei gyflawn, o safon sy'n gymesur â'r dyfarniad. Gall y cyflwyniad gynnwys drafft llawn y traethawd ymchwil, traethawd ymchwil rhannol, penodau drafft, ac/neu unrhyw ddeunydd cysylltiedig a fydd wedi cael eu hymgorffori i'r traethawd ymchwil.

6.7 Gall goruchwylwyr y myfyrwyr gefnogi'r myfyrwyr i lunio eu cyflwyniad ond ni allant wella gwaith y myfyriwr. Mae'n rhaid i brif oruchwyliwr y myfyriwr ddarparu datganiad ysgrifenedig o gymorth, sy'n esbonio pam y dylid argymell dyfarniad aegrotat. Gall y goruchwyliwr gynnwys adroddiadau

cynnydd a thystiolaeth eraill (e.e. o gyflawniadau penodol y myfyriwr) gyda'i ddatganiad o gefnogaeth.

6.8 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi adolygydd annibynnol sy'n arbenigwr priodol yn y maes pwnc er mwyn ystyried lle bo digon o ddeunydd i gynrychioli'r traethawd ymchwil, a chynghori a ddylid derbyn y traethawd ymchwil i'w arholi.

6.9 Pan mae'r cyngor yn dweud parhau i gael ei arholi, penodir arholwyr yn y ffordd arferol. Bydd yr arholwyr yn ystyried cyflwyniadau'r myfyrwyr a datganiad o gefnogaeth y goruchwyliwr. Bydd yr arholwyr yn cael gwybod na fydd arholiad viva yn cael ei gynnal, ac ni fydd angen cywiro nac adolygu'r traethawd hir.

6.10 Gall yr arholwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y goruchwylwyr cyn gwneud eu hargymhelliad.

Argymhelliad a chynnig dyfarniad aegrotat

6.11 Gall yr arholwyr wneud un o'r argymhellion canlynol:

- dyfarniad aegrotat ar gyfer y radd y'i bwriadwyd
- dyfarniad ymadael aegrotat, os yw ar gael
- dim dyfarniad

6.12 Os bydd yr arholwyr wedi argymell i ddyfarniad aegrotat gael ei wneud, bydd Pennaeth yr Ysgol yn cyflwyno'r argymhelliad hwn i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, drwy'r Cofrestrydd Academaidd.

6.13 Bydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd yn cael cadarnhad ysgrifenedig gan y myfyriwr yn cadarnhau ei fod yn fodlon derbyn dyfarniad aegrotat, datganiad o gefnogaeth y goruchwyliwr (lle bo'n gymwys) ac adroddiadau'r arholwyr ar y traethawd hir neu'r gwaith a ystyriwyd ar gyfer y dyfarniad. Hefyd, bydd Pennaeth yr Ysgol yn argymell i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd a ddylai'r gwaith, os fe'i gymeradwyir ar gyfer dyfarniad, fod ar gael yn ystorfa ddigidol y Brifysgol: os yw'n berthnasol, gellir ychwanegu nodyn yn esbonio bod natur y dyfarniad yn golygu gall y traethawd hir fod yn anghyflawn neu gynnwys rhai gwallau.

6.14 Nid yw dyfarniad aegrotat o reidrwydd yn rhoi’r hawl i'r deiliad gofrestru gyda chorff proffesiynol na chael ei eithrio rhag gofynion unrhyw gymhwyster proffesiynol.

6.15 Bydd dyfarniad aegrotat yn cael ei ystyried ar ddiwedd cofrestriad myfyriwr ar y rhaglen gradd ymchwil.

7. Dyfarniadau posthumous: graddau ymchwil

7.1 Gall Bwrdd Arholi, drwy'r Cofrestrydd Academaidd, argymell y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd i gyflwyno dyfarniad ar ôl marwolaeth pan mae ymgeisydd gradd ymchwil ôl-raddedig wedi marw:

.1 ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei arholi, neu ei gyflwyno i'w arholi, ond cyn y gallai'r arholiad llafar (os oedd angen) gael ei gynnal.
Mewn achos o'r fath, bydd y Bwrdd yn ystyried y gwaith a gyflwynwyd ac, os yw'n fodlon mai gwaith yr ymgeisydd sydd wedi'i gyflwyno (drwy dderbyn adroddiadau gan Bennaeth yr Ysgol a'r goruchwylydd), gall benderfynu argymell y dylid cyflwyno dyfarniad.

.2 cyn cyflwyno'r traethawd hir.
Mewn achos o'r fath, bydd y Bwrdd yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o'r gwaith ymchwil a gwblhawyd gan y myfyriwr. Fel arfer, bydd tystiolaeth o'r fath yn cael ei chyflenwi gan oruchwylydd y myfyriwr, a fydd hefyd yn cyflwyno adroddiad i'w ystyried gan yr arholwyr. Bydd Pennaeth yr Ysgol dan sylw hefyd yn cyflwyno argymhelliad a drafodwyd ynghylch dyfarnu'r radd. Rhaid bodloni'r meini prawf canlynol hefyd:

- rhaid bod digon o'r prosiect ymchwil wedi'i gwblhau i allu cynnal asesiad trylwyr o gwmpas y traethawd hir;

- rhaid i safon y gwaith ymchwil a gwblhawyd gyrraedd yr hyn sydd fel arfer yn ofynnol i allu dyfarnu'r radd o dan sylw, a rhaid iddo ddangos dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r pwnc;

- rhaid i'r deunydd ysgrifenedig sydd ar gael (penodau drafft, gwaith a gyhoeddwyd, gwaith oedd wedi'i baratoi i'w gyhoeddi, cyflwyniadau ar gyfer cynadleddau/seminarau, adroddiadau cynnydd gan yr ymgeisydd ar gyfer ei ysgol/sefydliad/noddwr) ddangos gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu traethawd ymchwil hyd at y safon ofynnol.

Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu â Myfyrwyr. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Cod Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ynghylch Pryderon, Cwynion ac Apeliadau, Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr, a Dysgu ac Addysgu yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa arno
Arferion craidd o ran ansawdd
Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau addysg.
Mae gan y darparwr weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac apeliadau sydd ar gael i bob myfyriwr.
Arferion cyffredin o ran ansawdd
Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i achosi gwelliant

Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr

1. **Cyflwyniad**

1.1. Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raddau neu fodiwlau a addysgir ac ymchwil a all gynnwys ymgysylltu, boed yn astudio wyneb yn wyneb, dysgu o bell neu gyfunol, neu leoliad neu gyfnod o astudio dramor.

1.2. Disgwylir i fyfyrwyr y Brifysgol ymgysylltu'n llawn â'u rhaglen astudio yn unol â rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol ac unrhyw ofynion ychwanegol y rhaglen. Bydd presenoldeb yn yr holl sesiynau astudio a chyfranogi yng nghymuned a

gwasanaethau'r Brifysgol sydd ar gael yn arwain at brofiad mwy positif a chynhyrchiol i'r myfyriwr.

1.3. Mae pob myfyriwr yn elwa drwy ymgysylltu'n llawn yn eu hastudiaethau, ac mae gan staff y Brifysgol gyfrifoldeb i ymateb i unrhyw bryder am batrwm o absenoldeb a/neu ddiffyg ymgysylltu ar ran myfyrwyr.

1.4. Gall digwyddiadau neu amgylchiadau effeithio ar allu myfyrwyr i fynychu ac i ymgysylltu'n ôl y disgwyl. Beth bynnag fo'r rheswm, dylai myfyrwyr siarad â'u tiwtor personol neu oruchwyliwr ynglŷn ag unrhyw absenoldeb neu ddiffyg ymgysylltu. Bydd eu tiwtor neu oruchwyliwr yn gallu eu helpu drwy eu cynghori neu eu helpu, neu drwy eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol.

1.5. Os ydych chi'n fyfyriwr anabl a bod angen addasu'r weithdrefn hon i'ch galluogi i ymgysylltu'n llawn â'r broses, cysylltwch â Chofrestrydd Academaidd i drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

2. Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Myfyrwyr

2.1. Rydym yn disgwyl i fyfyrwyr ymgysylltu â'u rhaglen ar ei hyd ac i fodloni pwyntiau ymgysylltu penodedig y Brifysgol. Disgwylir y bydd myfyrwyr hefyd yn dangos eu bod yn mynychu sesiynau astudio ac yn gwneud cynnydd academaidd boddhaol yn ogystal â chyflawni'r pwyntiau ymgysylltu penodedig a nodir isod.

2.2. Rhaid i bob myfyriwr newydd ac sy'n parhau gwblhau eu hymrestriad a dangos tystiolaeth bod ganddynt yr hawl i astudio yn y Brifysgol, yn ddim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl dechrau unrhyw flwyddyn academaidd. Bydd myfyrwyr yn cael eu cerdyn myfyriwr ar ôl cwblhau ymrestru.

2.3. Dylai pob myfyriwr fod wedi gorffen ymrestru a gyda cherdyn myfyriwr dilys yn eu meddiant i fynychu unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig ag astudio. Gallai hyn gynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, a bod ar y campws.

2.4. Disgwylir i fyfyrwyr dysgu o bell gwblhau ymrestru ar-lein o fewn 14 diwrnod o ddyddiad dechrau eu cwrs. Gall yr Ysgol drefnu i gyhoeddi Cardiau Myfyrwyr os bydd angen.

2.5. Bydd angen i chi hysbysu eich Ysgol o bob absenoldeb o'r rhaglen am unrhyw reswm. Os byddwch yn absennol am fwy na'r cyfnod a nodwyd yn y Weithdrefn Gohirio Astudiaethau, dylech naill ai wneud cais i ohirio astudiaethau neu, yn achos myfyrwyr a addysgir, wneud cais am amgylchiadau esgusodol fel y nodir yn y Polisi Amgylchiadau Esgusodol.

2.6. Disgwylir i fyfyrwyr ymateb yn brydlon i unrhyw gais gan y Brifysgol ynglŷn â'u presenoldeb neu eu llesiant, a dylent edrych at eu cyfrif e-bost Prifysgol Caerdydd yn rheolaidd am unrhyw hysbysiadau.

Cyfrifoldebau staff

2.7. Mae'r Cofrestrydd Academaidd yn gyfrifol am sicrhau bod pob myfyriwr yn cael gwybodaeth am sut i gofrestru â'r Brifysgol bob blwyddyn, a bod pob myfyriwr (ac eithrio myfyrwyr dysgu o bell) yn cael Cerdyn Myfyrwyr.

2.8. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth am lefel y ffioedd sy'n daladwy a sut i dalu ffi i'r Brifysgol.

2.9. Mae Pennaeth Ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu am ofynion eu rhaglen, gan gynnwys pwyntiau ymgysylltu gofynnol, unrhyw bwyntiau ymgysylltu atodol - er enghraifft, fel sy'n ofynnol gan Gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio - gofynion academaidd y rhaglen, a gofynion unrhyw leoliadau dysgu perthnasol.

- sicrhau bod pwyntiau ymgysylltu ac unrhyw absenoldeb yn cael eu cofnodi yn achos pob myfyriwr sy'n astudio yn eu Hysgol;

- dechrau'r weithdrefn berthnasol os nad yw'r pwyntiau ymgysylltu'n cael eu cyflawni os nad yw'r rhesymau am absenoldeb myfyriwr heb eu cofnodi;

- ymateb i bryderon lle nad yw myfyrwyr yn bodloni gofyniad academaidd eu rhaglen astudio;

- hysbysu Pennaeth yr ysgol bartner lle mae myfyriwr ar raglen cydanrhydedd neu radd ymchwil sy'n cael ei goruchwylio ar y cyd os oes unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb neu ymgysylltiad y myfyriwr;

- cysylltu ag unrhyw sefydliad partner os oes unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb neu ymgysylltiad y myfyriwr.

2.10. Gall swyddogion y Brifysgol enwebu dirprwyon i weithredu ar eu rhan.

3. **Pwyntiau ymgysylltu**

3.1. Mae presenoldeb yn cael ei fonitro drwy gysylltiad â myfyrwyr gyda phwyntiau ymgysylltu diffiniedig drwy gydol y flwyddyn academaidd. Efallai y bydd gofynion presenoldeb sy'n benodol i'r rhaglen, a fydd yn cael eu cadarnhau i'r myfyrwyr ar adeg ymrestru, a dylai myfyrwyr lynu wrth hyn. Fodd bynnag, **rhaid i bob myfyriwr** o fewn pythefnos gyntaf y flwyddyn academaidd:

- cwblhau'r broses gofrestru;
- casglu eu cerdyn myfyrwyr (ac eithrio myfyrwyr dysgu o bell);
- talu eu ffioedd dysgu neu gadarnhau manylion eu noddwr;
- cadarnhau eu rhaglen astudio (gan gynnwys cadarnhau eu dewis o fodiwlau);

3.2. **Rhaglenni a Addysgir**

Yn ychwanegol at y gofynion ar gyfer pob myfyriwr, rhaid i fyfyrwyr a addysgir ymgysylltu â'u rhaglen a bydd absenoldeb o **5 ymgysylltiad yn olynol** yn arwain at weithredu'r weithdrefn briodol. Mae'r pwyntiau ymgysylltu fel a ganlyn:

- cadarnhau'r dewis o fodiwlau (pan yn briodol);
- cyflwyno gwaith cwrs;
- presenoldeb mewn arholiadau a phrofion dosbarth;
- cyswllt â thiwtoriaid personol - o leiaf unwaith bob semester;
- ymgysylltu â systemau TG y Brifysgol - bydd adroddiadau monitro'n dangos os nad oes defnydd am 14 diwrnod.

3.3. **Myfyrwyr ymchwil**

Rhaid i fyfyrwyr ymchwil gwblhau'r broses ymrestru a byddant yn cael eu monitro'n unol â'r:

- Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil;
- Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol;
- Polisi a Gweithdrefn ynghylch Gohirio Astudiaethau ac Ymestyn Terfyn Amser (Myfyrwyr Ymchwil).

4. **Polisïau a gweithdrefnau**

4.1. **Gweithdrefn Gohirio Astudiaethau** (Rhaglenni a Addysgir)

Mae'r weithdrefn yn cynnwys y gofyniad i fyfyrwyr ar raglenni a addysgir i hysbysu'r Brifysgol o unrhyw absenoldeb, boed yn dymor byr neu hir. Mae hefyd yn cynnwys y gofyniad i fyfyrwyr ar raglenni a addysgir sy'n absennol am 14 diwrnod yn olynol neu fwy i gyflwyno cais i ohirio eu hastudiaethau er mwyn i'r Brifysgol allu eu helpu yn eu habsenoldeb a chynllunio iddynt i ddychwelyd at eu hastudiaethau.

4.2. **Polisi a Gweithdrefn Gohirio Astudiaethau ac Ymestyn y Terfyn Amser** (Myfyrwyr Ymchwil)

Mae'r weithdrefn yn cynnwys y gofyniad i fyfyrwyr i wneud cais i'r Brifysgol am gyfnod o absenoldeb o'u hastudiaethau ymchwil os ydynt yn absennol am fwy na chyfnod byr er mwyn i'r Brifysgol allu eu helpu yn eu habsenoldeb a chynllunio iddynt i ddychwelyd at eu hastudiaethau. Mae hefyd yn nodi sut y gall myfyrwyr gyflwyno cais i ymestyn y terfyn amser sydd ganddynt i gwblhau eu hymchwil.

4.3. **Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â Rhaglen Astudio (Dim ymgysylltu gan y myfyriwr)**

Defnyddir y weithdrefn lle nad yw myfyrwyr yn cwblhau'r broses ymrestru, gan gynnwys casglu eu Cerdyn Myfyrwyr, neu os nad yw myfyrwyr a addysgir yn ymgysylltu â'u rhaglen am 5 pwynt ymgysylltu'n olynol, fel y diffiniwyd yn y weithdrefn, ac sydd heb gyflwyno cais i ohirio eu hastudiaethau.

4.4. **Gweithdrefn Ymgysylltiad Academaidd Myfyrwyr** (Rhaglenni a Addysgir - ymgysylltiad rhannol myfyrwyr)

Defnyddir y weithdrefn hon lle nad yw myfyrwyr a addysgir yn ymgysylltu'n llawn â'u rhaglen astudio a lle mynegir pryderon wrth Bennaeth yr Ysgol am ymgysylltiad y myfyriwr.

4.5. **Polisi a Gweithdrefn Rheoliadau Monitro Ymchwil** (Myfyrwyr Ymchwil)

Bydd cynnydd yn cael ei gefnogi a'i fonitro er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd myfyrwyr yn cwblhau eu gradd ymchwil o fewn yr amserlen ddisgwyliedig yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn hon.

4.6. **Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol** (Myfyrwyr Ymchwil)

Os na fydd myfyrwyr yn ymgysylltu â'u hastudiaethau ymchwil nac yn cwrdd â'u goruchwylydd yn rheolaidd gall hynny arwain at gymryd camau o dan y weithdrefn hon.

4.7. **Gweithdrefn Dychwelyd i Astudio**

Mae'r weithdrefn hon yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith pan fydd myfyrwyr yn dychwelyd i astudio ar ôl cyfnod o absenoldeb.

4.8. Mae'r tabl canlynol yn arweiniad i'r amgylchiadau a'r rhesymau am absenoldeb a all sbarduno'r defnydd o weithdrefnau'r Brifysgol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb ac ymgysylltiad.

Digwyddiad ar ran y myfyriwr	**Gweithdrefn**
Heb gwblhau'r broses ymrestru	Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â Rhaglen Astudio
Methiant i gasglu cerdyn myfyrwyr erbyn y dyddiad penodedig	Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â'r Rhaglen Astudio (**dim** myfyrwyr dysgu o bell)
Heb gadarnhau manylion y rhaglen astudio	Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â Rhaglen Astudio

Digwyddiad ar ran y myfyriwr	Gweithdrefn
Heb gyflawni pwyntiau presenoldeb neu ymgysylltu	Gweithdrefn Methu Ymgysylltu â Rhaglen Astudio Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil)
Absenoldeb o fwy na 14 diwrnod (myfyrwyr a addysgir) neu 28 diwrnod (myfyrwyr ymchwil)	Myfyrwyr a Addysgir Gweithdrefn Gohirio Astudiaethau (Rhaglenni a Addysgir) neu'r Weithdrefn Methu Ymgysylltu â'r Rhaglen Astudio Myfyrwyr ymchwil: Gweithdrefn a Pholisi ynghylch Gohirio Astudiaethau ac Ymestyn y Terfyn Amser (Myfyrwyr Ymchwil) Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil)
Methiant i gyflawni gofynion ymgysylltiad academaidd	Gweithdrefn Ymgysylltiad Academaidd Myfyrwyr Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil)

Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Fframwaith Arferion Da OIA ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau academaidd, yn ogystal â Chôd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ynghylch Pryderon, Cwynion ac Apeliadau a Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr, yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa arno
Arferion craidd o ran ansawdd
Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau addysg.
Mae gan y darparwr weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac apeliadau sydd ar gael i bob myfyriwr.
Arferion cyffredin o ran ansawdd
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i achosi gwelliant

Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr

1. **Cyflwyniad**

1.1. Nod y Brifysgol yw cynnig amgylchedd cynhwysol a chefnogol sy'n seiliedig ar barch lle gall myfyrwyr ddysgu a datblygu yn ystod eu hamser yn astudio eu rhaglen.

1.2. Mae disgwyl i fyfyrwyr y Brifysgol ymddwyn mewn ffordd sy'n parchu cymuned y Brifysgol a'r holl staff a myfyrwyr eraill sy'n gweithio ac yn byw ynddi, yn ogystal â'r cyhoedd ac ymwelwyr. Mae disgwyl i fyfyrwyr hefyd ymddwyn gyda hygrededd personol a gonestrwydd.

1.3. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn gwneud ymrwymiad i'r bartneriaeth a wnaed rhwng staff a myfyrwyr yn Siarter y Myfyrwyr.

1.4. Gall fod adegau, fodd bynnag, pan nad yw myfyrwyr yn siŵr beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt a sut y gallent gymryd rhan yng nghymuned y Brifysgol. Nod y rheoliadau hyn a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yw rhoi arweiniad i fyfyrwyr ar yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt nhw, myfyrwyr eraill a'r staff.

1.5. Mae'r rheoliadau hyn a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gymwys i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raddau israddedig, ôl-raddedig a addysgir neu ymchwil, neu sy'n dilyn modiwlau amser llawn neu ran-amser, sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau wyneb yn wyneb neu o bell neu gyfun, ar leoliad neu ar gyfnod o astudio tramor. Gellir ymchwilio i bryderon ynghylch camymddygiad academaidd ar ôl i gofrestriad y myfyrwyr gyda'r Brifysgol ddod i ben.

1.6. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau ffurfiol y gellir eu dilyn os oes pryderon nad yw disgwyliadau o ran ymddygiad yn cael eu bodloni ac/neu os oes perygl o niwed neu dramgwydd i chi neu aelodau eraill o'r gymuned neu eu heiddo. Bydd y weithdrefn benodol a ddilynir yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos o bryder, y rhaglen, ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

1.7. Gall swyddogion y Brifysgol enwebu dirprwyon i weithredu ar eu rhan.

2. Disgwyliadau

2.1. Disgwylir i bob aelod o gymuned myfyrwyr y Brifysgol:

- Gynrychioli'r Brifysgol ac ymddwyn yn briodol;
- Gweithredu'n unol â rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol;
- Trin pobl eraill ag urddas a pharch;
- Cynnal y safonau a ddisgwylir o ran ymarfer academaidd, gonestrwydd ac ymgysylltiad.

Cewch ragor o fanylion am ddisgwyliadau o ran ymddygiad myfyrwyr yng Ngweithdrefn Ymddygiad y Myfyrwyr.

3. Pryderon ynghylch Ymddygiad Myfyrwyr

3.1. Os oes gan fyfyriwr bryderon ynghylch ymddygiad myfyriwr arall, dylid rhoi gwybod i'r Brifysgol drwy Weithdrefn Gwyno'r Myfyrwyr ac mae'n bosibl y caiff ei gyfeirio ar gyfer ymchwiliad annibynnol.

3.2. Os oes gan aelod o staff bryderon ynghylch ymddygiad myfyriwr, dylai gael ei godi gyda Phennaeth Ysgol neu Adran y myfyriwr, fel sy'n briodol, a all gyfeirio'r achos ar gyfer ymchwiliad annibynnol.

3.3. Mae'n bosibl y bydd pryderon gan y cyhoedd ynghylch ymddygiad myfyriwr a gellir codi pryderon o'r fath drwy ysgrifennu at y Cofrestrydd Academaidd, yn

amlinellu eu pryderon, ac yn cynnig unrhyw dystiolaeth. Gallai'r Cofrestrydd Academaidd gyfeirio'r achos at ymchwiliad annibynnol.

4. **Gweithdrefnau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn**

- Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr - ymchwilio i bryderon nad yw ymddygiad myfyrwyr yn bodloni disgwyliadau'r Brifysgol.

- Polisi Ymyriad i Gefnogi Myfyrwyr - os ceir pryderon ynghylch afiechyd sy'n effeithio ar ymddygiad neu les myfyriwr, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn dewis defnyddio'r polisi hwn i ymchwilio ac amlygu cymorth a allai fod ei angen fel bod modd i'r myfyriwr ymgysylltu'n effeithiol â'u hastudiaethau. Efallai y bydd y Brifysgol hefyd yn gofyn i'r myfyriwr ohirio'u hastudiaethau nes bydd eu hiechyd neu eu hamgylchiadau'n gwella.

- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer - dyma sy'n rheoli ymddygiad a lles myfyrwyr ar raglenni sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol.

- Polisi Gonestrwydd Academaidd - dyma sy'n pennu disgwyliadau ymarfer academaidd cywir a'r goblygiadau posibl o beidio â chyrraedd y safon briodol o onestrwydd academaidd.

Rheoliadau Cwynion, Apeliadau ac Adolygu Myfyrwyr

Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau Cwynion, Apeliadau ac Adolygu Myfyrwyr. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac i fodloni gofynion Fframwaith Arferion Da OIA ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau academaidd, yn ogystal â Chôd Ansawdd diwygiedig Addysg Uwch y DU yn llawn. Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ynghylch Pryderon, Cwynion ac Apeliadau, yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa arno
Arferion craidd o ran ansawdd
Mae gan y darparwr weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac apeliadau sydd ar gael i bob myfyriwr.
Arferion cyffredin o ran ansawdd
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i achosi gwelliant

Rheoliadau Cwynion, Apeliadau ac Adolygu Myfyrwyr

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i roi ddarparu cyfleodd o ansawdd i'ch helpu i ddilyn eich rhaglen ac i astudio tuag at eich gradd.

1.2 Efallai y bydd adegau, fodd bynnag, pan fyddwch yn anfodlon â'ch cyfleoedd astudio, penderfyniad Bwrdd Arholi, neu ganlyniad gweithdrefn Prifysgol. Nod y rheoliadau hyn, a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yw rhoi arweiniad i chi ar sut y gallwch wneud iawn am hynny os ydych yn anfodlon.

1.3 Fel arfer bydd yn ofyniad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) eich bod yn dilyn gweithdrefnau'r Brifysgol ac yn gofyn am adolygiad, o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol, cyn i chi gyflwyno cwyn i'r OIA.

1.4 Mae'r rheoliadau hyn a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gymwys i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raddau israddedig, ôl-raddedig a addysgir neu ymchwil, neu fodiwlau â statws amser llawn neu ran-amser, sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau wyneb yn wyneb neu o bell neu gyfun, ar leoliad neu ar gyfnod o astudio tramor.

1.5 Gall swyddogion y Brifysgol enwebu dirprwyon i weithredu ar eu rhan.

1.6 Os oes gennych chi anabledd ac angen addasiadau i'r Rheoliad hwn a gweithdrefnau cysylltiedig er mwyn gallu ymgysylltu'n llawn yn y broses, cysylltwch â Chofrestrydd Academaidd i drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

2. Gweithdrefnau sydd wedi'u cynnwys o fewn y rheoliadau hyn

- Gweithdrefn Gwyno Myfyrwyr - mae'n gyfle i chi i gwyno am y ffordd mae eich gradd yn cael ei chyflwyno neu am wasanaethau'r Brifysgol neu i fynegi pryderon os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael cam neu wedi dioddef anfantais.

- Gweithdrefn Apeliadau Academaidd – mae'n rhoi cyfle i chi i herio canlyniad penderfyniad Bwrdd Arholi.

- Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol – mae'n rhoi cyfle i chi i herio canlyniad un o weithdrefnau'r Brifysgol.